# ECO'R WYDDFA

**Rhif 138** **GORFFENNAF–AWST 1988** **Pris 20c**

# YR IFANC YN BENNAF



*Caiff rhai o blant lleiaf Penisarwaun gyflwyno'r rhifyn hwn o'r Eco i chwi. Gellid yn wir ei alw'n "Eco'r Ifanc" o ystyried cymaint o luniau o blant ac ieuenctid y fro sydd ynddo. Mae'n amlwg iddo fod yn fis prysur iawn yn y fro ac rydym, bob amser, yn hynod falch o gael croniclo'r bwrlwm yng ngholofnau'r Eco.*

*Perfformio yn eisteddfod y pentref oedd y rhai bach pan dynnwyd y llun.*

## TACLUSRWYDD PENTREF



**LLongyfarchiadau i bobl Deiniolen am fynd ati i wneud rhywbeth pendant, yn hytrach na chwyno am gyflwr gweledol eu pentref.**

Eleni, am y tro cyntaf, trefnwyd cystadleuaeth 'Y Stryd' neu'r 'Stad daclusaf', ac yn ystod yr wythnosau diwethaf bu tri beirniad yn crwydro o gwmpas Deiniolen a Chlwt y Bont. Yn y llun uchod mae rhai o drigolion Rhydfadog, yr enillwyr yn falch o arddangos Tarian Elidir, – rhodd gan Gwilym Williams, Crefft Elidir, sydd i'w chadw ganddynt am flwyddyn. Roedd cwpanau (rhoddion gan y tri beirniaid) i'r ail ac i'r trydydd – sef Rhes Dinorwig, Clwt y Bont a Hafod Oleu.

Tybed a fyddai'n syniad i gynnal rhywbeth tebyg i hyn yn rhai o bentrefi eraill y fro?

## TLWS ECO'R WYDDFA

**PÊL DROED 7 BOB OCHR I BLANT YSGOLION CYNRADD BRO'R ECO –CAE YSGOL GYNRADD LLANRUG NOS LUN GORFFENNAF 11 AM 6.30 CYSYLLTWCH Â TWROG JONES C'FON 4051.**

## YMATEB I APÊL

Yn dilyn apêl yn yr Eco am fwy o gymorth i ysgwyddo'r baich, daeth llythyr o werthfawrogiad a chynnig help ymarferol oddi wrth aelodau Clwb Ffermwyr Ieuanc Caernarfon. Dyma ran o'r llythyr a dderbyniodd y golygyddion:

*"Eleni am y tro cyntaf yn hanes y Clwb, cafwyd colofn ein hunain i gofnodi gweithgareddau'r aelodau. I ddangos ein gwerthfawrogiad, bydd aelodau'r Clwb yn barod iawn i wneud y gwaith plygu pan ddaw i ran pentref Bethel (gan mai yno mae'r Clwb yn cyfarfod)".*

Dyna blygwyr wedi eu trefnu i Fethel felly. Tybed oes cymdeithasau eraill o fewn y fro sy'n fodlon dilyn arweiniad y bobl ieuanc hyn? Llawer o ddiolch i aelodau'r Ffermwyr Ieuanc, a hefyd am y rhodd ariannol.

## CAU FFORDD

Caiff y ffordd rhwng Nant Peris a Llanberis ei chau yn gynnar fore dydd Mercher 6 Gorffennaf a bore dydd Iau 7 Gorffennaf er mwyn i weithwyr y Cyngor Sir fedru symud cerrig peryglus.

Caeir y ffordd A4086 rhwng 4.30 a.m. a thua 8 a.m. ym mhentre Castell ger Castell Dolbadarn a Llyn Peris.

Hefyd bydd goleuadau traffig yn cyfyngu'r llif i un res ar y tro ar ddydd Llun 4 Gorffennaf a dydd Mawrth 5 Gorffennaf i wneud y gwaith paratoi.

Bydd swyddogion y Cyngor Sir a'r Heddlu'n cyfeirio traffig trwy Feddgelert neu Fethesda tra bo'r ffordd ar gau.

# DATGANIAD CABINET IAITH ABERYSTWYTH

Cyflwynwyd y datganiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru yn dilyn cyfarfod hanesyddol yn Aberystwyth ar Mai 25ain. Dyma ran o lythyr Cadeirydd y Cabinet – sef Dr Carl Clowes wrth gyflwyno'r datganiad.

*Fel y gwelwch oddi wrth y datganiad, cynrychiola'r Cabinet ddeuddeg o gyrff a chymdeithasau Cymraeg sydd, rhyngddyn nhw yn adlewyrchu bron bob agwedd ar y gymdeithas Gymraeg heddiw.*

*Mae disgwyliadau y cyrff hyn yn real iawn o ran codi statws i'r Gymraeg a gobeithio na chawn nhw eu siomi pan ddaw amser i ddatgan polisi'r Swyddfa Gymreig ynglŷn â'r iaith.*

*Datganiad Cabinet Iaith, Aberystwyth 25.5.88*
*Ar ran:*
*Canolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn*
*Rhieni dros Addysg Gymraeg*
*Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Mudiad Ysgolion Meithrin*
*Cymdeithas yr Iaith*
*Merched y Wawr*
*U.C.A.C.*
*Cyngor y Dysgwyr*
*Urdd Gobaith Cymru*
*Cefn*
*Adfer*
*Cyngor Llyfrau Cymraeg*

*1. Yn wyneb y trafodaethau sydd ar y gweill ynglŷn â deddf Iaith yn y Swyddfa Gymreig, mae'r mudiadau Cymraeg uchod, sydd â chyfrifoldeb dros neu sy'n gweithredu ar ran y Gymraeg, yn datgan yn gadarn ac yn glir yr angen am ddeddf Iaith newydd yng Nghymru — Deddf a fyddai'n sicrhau statws gyflawn i'r Gymraeg yng Nghymru.*

*2. Mae agweddau trwch poblogaeth Cymru tuag at yr iaith wedi newid yn aruthrol ers Deddf Iaith 1967. Serch hynny, mae diffygion yn y Ddeddf bresennol a diffyg statws yr iaith Gymraeg i'w gweld bob dydd ymhob man. Mae sefyllfa o'r fath yn sarhad ar ein trysor pennaf ni a geilw 'Cabinet' Iaith y Cymry ar i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau yr unionir y cam presennol ar unwaith. Mae'n rhaid cael Deddf gyfoes i ymateb i agweddau cyfoes.*


*3. Mae'n bwysig bod bob dinesydd Cymreig yn cael yr hawl i'w etifeddiaeth a mynn 'Cabinet' Iaith y Cymry fod pob disgybl yng Nghymru yn dysgu'r iaith Gymraeg yn gwbl rugl trwy dderbyn o leiaf rhan o'i addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid sicrhau hefyd yr adnoddau angenrheidiol i ddysgu Cymraeg i oedolion.*

*Dylid gosod rhain yn nôd 'nawr ar gyfer eu gweithredu o 1990 ymlaen.*

*4. Mae maint y mewnlifiad di-Gymraeg i Gymru yn peryglu einioes ein cenedl a'n hiaith. Geilw Cabinet y Cymry ar yr Ysgrifennydd Gwladol i weithredu ar fyrder ac ymateb i'r her sydd yn ein hwynebu. Cefnoga'r Cabinet alwad Dafydd Wigley A.S. am fforwm Cenedlaethol i drafod a chytuno ar bolisiau all gynnig atebion fel y mabwysiadwyd eisoes mewn rhai gwledydd yn Ewrop.*

*5. Mae'r Cabinet Iaith yn erfyn ar y Swyddfa Gymreig i gydymffurfio â chanllawiau Adroddiad Kuijpers ar ran Senedd Ewrop sy'n gosod hawliau sylfaenol ar gyfer bob un o ieithoedd rhabarthol Ewrop.*

## "SAFIAD" – CYLCHGRAWN AMSEROL



*Glyn Tomos — Golygydd Safiad*

"Safiad" yw'r trydydd cylchgrawn i Glyn Tomos o Ddinorwig ei olygu, ac mae hwn, sy'n dod â brwydr yr iaith "yn ôl i ganol ein bywydau" meddai "yn ddatblygiad naturiol o'r ddau arall". ("Sgrech" a "Sylw").

Meddai Glyn, prif bwrpas Safiad fydd lleisio barn bendant "ar y llu bygythiadau sy'n peryglu ein boboldaeth fel cenedl."

Gweithiwr cymdeithasol yw Glyn wrth ei alwedigaeth ond mae hefyd yn weithiwr brwd yn ei gymdeithas –, gyda phobl ifanc, dysgwyr yr iaith, eisteddfod bentref ac yn arbennig fel un fu, ac fel un sydd yn chwifio baner Cymreictod.

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 138**
**GORFF – AWST 1988**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL**: Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU**: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug. (C'fon 3515)

**GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI**: Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhythallt (870760)

**GOLYGYDD CHWARAEON**: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

**DYDDIADUR Y MIS**: Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug. (Waunfawr 200)

**FFOTOGRAFFYDD**: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

**TREFNYDD GWERTHIANT**: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

**TREFNYDD ARIANNOL**: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

**GOHEBWYR PENTREFI**: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

**BETHEL**: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

**BRYNREFAIL**: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

**CAEATHRO**: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

**CEUNANT**: Ifan Parry, Morwel. (Waunfawr 321)

**CWM-Y-GLO**: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)

**DEINIOLEN**: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

**DINORWIG**: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian. (870773)

**LLANBERIS**: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

**LLANRUG**: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

**NANT PERIS**: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-drudion, Nant Peris. (871327)

**PENISARWAUN**: Mrs Ann Evans, Sycharth, (Llanberis 872407)

**TAN-Y-COED**: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

**WAUNFAWR**: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

**Y RHIFYN NESAF**

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS IAU MEDI 1**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH AWST 23**
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## "GOLWG" NEWYDD AR BETHAU

*Annwyl Eco'r Wyddfa,*

*Erbyn mis Medi, bydd gan Gymru gylchgrawn newydd sbon yn delio â phopeth o'r diweddara' am y sêr teledu, i newyddion, ffermio, llyfrau.... a dweud y gwir y cyfan sy'n debyg o fod o ddiddordeb a difyrrwch i ni yng Nghymru heddiw. 'Rydym yn sicr y bydd yn rhoi golwg newydd a ffresh ar y wald ac yn gwneud hynny mewn iaith fywiog, clir a diddorol. Enw'r cylchgrawn newydd? "Golwg".*

*'Rydym yn ysgrifennu atoch gan obeithio y bydd darllenwyr yn mynd ati i dderbyn "Golwg" trwy'r post neu i ofyn amdano yn y siop leol. Bydd rhifyn arbennig rhad ac am ddim ar gael yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, ar gael yng Nghasnewydd a thrwy Gymru. Ar ôl hynny, bydd "Golwg" yn ymddangos bob wythnos.*

*'Rwy'n siŵr y bydd diddordeb mawr o glywed fod dau o'r gynnau mawr eisoes wedi cytuno i ysgrifennu bob wythnos: Hywel Gwynfryn, y Prif Ddarlledwr a Dic Jones y Prif Fardd. Bob rhifyn, bydd y ddau yn troi eu golwg, eu hiwmor a'u craffter ar beth bynnag sy'n mynd â'u ffansi. Syniad bach o'r math o bethau fydd yn y cylchgrawn.*

*Yn yr Eisteddfod hefyd, bydd gan "Golwg" babell ar y maes ac mae croeso cynnes i bawb o ddarllenwyr alw heibio i'n gweld ni a chael sgwrs. Mae papurau fel Eco'r Wyddfa wedi bod yn llwyddiant mawr, trwy Gymru gyfan a rhoi sylw i'r holl fwrlwm o bethau diddorol, difyr a dwys sy'n digwydd o wythnos i wythnos.*

*Yn gywir*
*Dylan Iorwerth,*
*Golygydd.*
*Bocs P.O. 4*
*Llanbedr Pont Steffan*
*Dyfed.*

## ATGOFION MELYS AM DAN-Y-MARCHLYN

*Annwyl Olygydd,*

*Difyr oedd gweld hanes Tan y Marchlyn mewn dau rifyn diweddar o'r Eco.*

*Roedd teulu fy mam yn byw yno yn 1920.*

*Yn ystod gwyliau yr ysgol byddem yn cael diwrnod hapus iawn yn Tan y Marchlyn.*

*Roedd y ffordd i gerdded o Clwt y bont i weld ymhell iawn a lôn serth, diddiwedd heibio Capel Cefn y Waen ond wedi cyrraedd yno roedd yn wahanol fyd.*

*Yr amser gorau oedd tua mis Mehefin, amser cario y gwair — pawb o gwmpas yn helpu i drin y gwair. Digon o laeth enwyn mewn piseri hyd y cae i'r rhai oedd ei eisiau.*

*Teulu croesawus a charedig.*

*Gwelais yr adfeilion rhyw fis yn ôl pan yn dod dros y mynydd o Landegai. Roedd yn edrych yn bell iawn, ac yn unig yng nghesail y mynydd.*

*Difyr yw edrych yn ôl a chofio yr hen amser gartref flynyddoedd yn ôl.*

*Difyr hefyd oedd hanes yr ardal a'r Capel gan Mrs M C Griffith.*

*Yn gywir*
*Mrs Eirlys Warmshaw,*
*20 Prescot Street,*
*Hoole,*
*Caer.*

## EMYNAU'R DIWYGIAD

*Annwyl Olygydd,*

*Ddau rifyn yn ôl o'r Eco roedd Mary Lloyd Williams yn cyfeirio at rai o emynau'r Diwygiad ac yn holi am yr awduron. Roedd ambell un yn lled hysbys i mi ond wyddwn i ddim pwy oedd yr awdur chwaith ar wahân i'r emyn olaf mae'n ei grybwyll. Cefais hyd i hwnnw mewn hen gopi bregus iawn o "Hymnau a Thonau" yr Adfywiad wedi ei gyhoeddi gan ŵr o Briton Ferry o'r enw Cynalaw a chaglaf mai cyfieithiad ganddo ef o eiriau Saesneg yw'r emyn 'Mae yn disgwyl amdanat'. Bu'r Parchedig a Mrs Erfyl Blainey yn canu'r geiriau hyn yn hyfryd iawn ar y rhaglen "Rhwng Gŵyl a Gwaith". Diolch i Mary Lloyd Williams am agor ffiniau'r gorffennol a hynny mor ddifyr ynte.*

*Yn gywir,*
*Gwyneth Lloyd,*
*Fron Deg,*
*Ffordd Segontiwm,*
*Caernarfon.*

**A glywaist ti sôn am Iachawdwr y byd**
**Fu farw ar groesbren o'i fodd?**
**Fe yfodd yr afon i'r gwaelod i gyd,**
**Ei fywyd yn aberth a rodd.**
**A welaist ti Ef, yr hynafgwr di-nerth**
**A glywasit ti sôn am Breswylydd y Berth?**

**Cydgan:**
**Mae yn disgwyl amdanat**
**Mae yn disgwyl amdanat**
**Mae yn disgwyl amdanat yn awr.**

**A glywaist ti sôn am yr Iesu dinam**
**Fu'n gwaedu ei enaid yn drist?**
**A glywasit ti sôn gan dy dad neu dy fam**
**Am rywun mor annwyl â Christ?**
**Mae'n gwella y cleifion a deillion y wlad**
**Mae'n porthi'r newynog a bara yn rhad.**

**Cydgan**

**Tro ato bechadur mae'n galw o hyd**
**Paid byw yn afradlon yn hwy.**
**Mae'n edrych amdanat hyd eithaf y byd**
**Mae'n barod i wella dy glwy.**
**O gwrando bechadur mae'n galw yn awr**
**Paid gwrthod yn hwy, mae dy feiau yn fawr.**

**Cydgan**

**Gweddia bechadur, fe wrendy dy lef**
**mae'n eiriol yn awr ar dy ran,**
**Mae'n dadleu dy achos yng nghanol y nef**
**Mae'n barod i helpu y gwan**
**Maddeuant, maddeuant mae'n rhoddi yn rhad**
**Mae'n golchi fel eira yn dua'n y wlad.**

**Cydgan.**

## DIOLCH

*Annwyl Olygydd,*

*Diolch yn fawr i Miss Mat Pritchard am roddi hanes ysgol Brynrefail o'r dechreuad wrth roi enwau'r tîm hoci 1924. Os oedd rhywun yn gallu dweud yr hanes o'r hen ysgol, Mat Pritchard oedd honno gan iddi ysgrifennu llyfr "Dros Bont Penllyn" sydd o ddiddordeb mawr i hen ddisgyblion yr ysgol. Diolch yn fawr Mat.*

*Gwladys W. Jones.*
*Y Dalar Deg,*
*Llanrug,*
*Caernarfon.*

## "SALEM AR SEL"

*Annwyl Ddarllenwyr,*

*Mae Bara Caws ar hyn o bryd yn y broses o lunio a pharatoi cynhyrchiad newydd sbon yn arbennig ar gyfer teithio'r capeli. Byddwn yn teithio led-led Cymru o Hydref 18 hyd at Tachwedd 19.*

*Rydym fel cwmni yn pryderu ynglŷn â'r sefyllfa bresennol fod ein capeli yn cau i lawr a sut mae'n effeithio ar ein diwylliannt a'n ffordd o fyw, ac hefyd dylanwad estoniaid ar ein cymdeithas.*

*Mae'r cwmni'n awyddus iawn i wyntyllu'r broblem yma ac er mwyn creu yr awyrgylch a'r gwrthdrawiad rydym yn dymuno llwyfannu Salem ar Sêl yn y capeli eu hunain. Byddwn yn ceisio dadansoddi y sefyllfa a bydd y cyflwyniad yn gweddu i'r man perfformio.*

*Tybed a fyddai gan y Capel yn eich ardal, bro neu bentref chi ddiddordeb yn y cynhyrchiad arbennig hwn? Byddai angen i'r capel fod o faint sylweddol, gyda galeri.*

*Am fwy o wybodaeth a manylion cysylltwch â mi yn Theatr Bara Caws, Coleg y Normal, Bangor, Gwynedd, LI57 2DE, neu ffoniwch Bangor 355579.*

*Yn gywir iawn,*
*Linda Brown,*
*ar ran Bara Caws.*

## CYMORTH RHAG SMOCIO

*Annwyl Olygydd*

*Yn nes ymlaen eleni bydd Curaid Calon Cymru yn cyhoeddi llyfryn a fydd o gymorth ymarferol i bobl roi'r gorau i smygu.*

*Elfen o'r llyfryn fydd cyngor ac awgrymiadau gan bobl sydd eisoes wedi rhoi'r gorau iddi i bobl eraill sydd eisiau dilyn yr un trywydd. Yn aml iawn un o'r prif feini tramgwydd sy'n wynebu smygwyr yw sut yn union mae mynd ati i stopio. Bydd y llyfryn hwn felly yn cynnig cymorth uniongyrchol gan bobl gyffrwdin i'w perthnasau, ffrindiau, cydweithwyr a chymdogion.*

*Os oes gan unrhyw un o'ch darllenwyr gyngor neu awgrymiadau ar sut i roi'r gorau i smygu, byddai'n dda iawn gen i gael clywed oddi wrthynt cyn gynted â phosib yn y cyfeiriad yma: Adran gyhoeddiadau Curaid Calon Cymru, Blwch Post 2010, Caerdydd.*

*Gyda phob diolch,*
*Yr eiddoch yn gywir*
*Alun Ceri Jones,*
*Swyddog Cyhoeddiadau.*

## DAWNSIO GWERIN DIOLCH

*Annwyl Olygydd,*

*Dymunaf, fel hyfforddwr Parti Dawns dan 15 oed, Adran Bentref Llanrug, ddiolch i rieni plant y tîm am eu cymorth a'u cefnogaeth tra bûm yn eu dysgu. Hebddynt ni fyddai wedi bod yn bosibl i ni gyrraedd y Drenewydd.*

*Cymeraf y cyfle hefyd i ddiolch i athrawon Ysgol Gynradd Llanrug, sydd wedi rhoi o'u hamser eu hunain i hyfforddi'r plant yn adran ysgol Llanrug o'r Urdd. Gobeothio y byddant yn ymfalchïo gyda mi yn llwyddiant y plant wrth weld ffrwyth eu llafur dros y blynyddoedd yn dod â llwyddiant i'r pentref.*

*Yn gywir,*
*Idwal Williams,*
*Disgwylfa,*
*Llanrug.*

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

# HOGIA PENISARWAUN

*Annwyl Olygydd,*

*Mewn ateb i lythyr Walter Jones (Parc), yn rhifyn mis Mehefin o'r Eco, hoffwn ddweud ei fod yn agos iawn i'w le pan awgrymodd mai fy mrawd Llew a ysgrifennodd 'Hogia Penisarwaen'. Mewn gwirionedd fy mrawd hynaf, y diweddar R.H. (Bobby) Roberts gynt o 6 Bryn Tirion, Penisarwaen a 13 Rhos Rhug, Llanrug oedd yr awdur.*

*Ysgrifennwyd y penillion tua diwedd 1939 neu ddechrau 1940—yn sicr cyn i Mr Churchill gael ei benodi yn Brif Weinidog, a dyma pam y cyfeirir ato yn y drydydd pennill. Bu llawer o'r hogia ar eu gwyliau yn Ynys Manaw ym 1938 a bu un neu ddau ohonynt reit sâl wrth groesi o Lerpwl i Douglas. Serch hyn ymunodd nifer ohonynt gyda'r llynges pan dorrodd y rhyfel allan ym 1939, a neb llai na Churchill ei hun oedd Prif Arglwydd y Llynges ar y pryd!*

*Mae tipyn o hwyl a thristwch yn y penillion ac un o'r nifer o hogia na ddychwelont oedd Wiliam Pritchard a laddwyd yn Ffrainc yn ystod Gorffennaf neu Awst 1944. Ei fab, Gwilym Pritchard, ysgrifennodd y llythyr cyntaf am Hogia Penisarwaen yn rhifyn mis Mai o'r Eco. Un arall i beidio dychwelyd oedd fy mrawd Harry, a laddwyd ger Eindhoven yn yr Iseldiroedd ym Medi 1944.*

*Bu canu brwd ar y penillion ar sgwar Siop Gron ar nos Sadwrn pan fyddai'r hogia' adra am seibiant o'r lluoedd arfog. Ar y dôn 'Dowch i'r America' y canwyd y penillion ac amgeuaf gopi o'r naw pennill er mwyn eich sylw.*

*Yr eiddoch yn gywir*
*Ernest Roberts.*

**Daeth cwmwl dros y pentref**
**Yr hogia'n mynd i ffwrdd**
**Ni wyddom ar y ddaear**
**Pryd cawn i eto gwrdd**
**Fe dorodd rhyfel allan**
**Rhaid tynnu'r cledd o'r wain**
**A pharod iawn i'r alwad**
**Yw hogia Penisarwaen.**

**Mae rhai am fod yn filwyr**
**I ymladd tros eu gwlad**
**Mor llawen fydd y B.E.F.**
**O'i gweld ar faes y gad**
**Bydd yno fynnu planiau**
**I falu'r "Seigfreid Line"**
**Pan glybu Gort a Gamelin**
**Am hogia Pen'sarwaen.**

**Ymuna rhai â'r llynges**
**I geisio chware'i rhan**
**Beth pe buasai Churchill**
**Ar stemar "Isle of Man"**
**Ond nid oes r'un "Torpedo"**
**Na r'un "magnetic mine"**
**Yn fodd i dorri calon**
**Hen hogia Pen'sarwaen.**

**Ple bynnag bydd yr hogia**
**Yr awyr, môr, neu dir**
**Rwy'n sicr bydd rhen Jerry**
**Yn cadw ddigon clir**
**Bydd llawer iawn o wenwyn**
**A llawer mwy o "wipes"**
**Pan welant yr hen hogia**
**Yn fedals ac yn stipres.**

**A pan bo'r rhyfel trosodd**
**Ar Almaen fydd yn flat**
**Bydd Hitler a'r Hen Goering**
**A Goebels ddigon swat;**
**Ymhen blynyddoedd eto**
**Tra na bydd sôn am rhain**
**Bydd pawb yn sôn ymhobman**
**Am hogia Pen'sarwaen.**

**Cilio mae'r cymylau duon**
**Fu'n ein llethu amser maith**
**Y mae newydd ddydd yn gwawrio**
**Gyda'g arlliw pen y daith**
**Buddugoliaeth ddaw yn union**
**Dychwel gawn y gledd i'r wain**
**A chawn weled yr hen hogia**
**Eto'n ôl ym Mhen'sarwaen.**

**Ar ôl gwynebu drycinoedd**
**Ac enbydrwydd garw'r drin**
**Dod yn ôl i'r hen aelwydydd**
**Fydd felys fel hen win;**
**Rhai o'r Eidal, rhai o'r India**
**Ac o'r Almaen, gylch y Rhine**
**Croeso calon sy'n eu haros**
**Yn hen bentre Pen'sarwaen.**

**Ond yn wylaidd, rhaid yw cofio**
**Am y rhai na ddont yn ôl**
**Pan y ddaw colomen heddwch**
**Siom a hiraeth lenwi chôl**
**Rhaid yw inni, doed a ddelo**
**Gadw fyth mewn cof y rhain**
**Rhoes eu bywyd drud yn aberth**
**Dros hen bentre Pen'sarwaen.**

**Rhaid yw inni eto ymladd**
**Am well byd a gloywach nen**
**Rhag yn ofer aiff yr aberth**
**Wnaeth gan fechgyn Cymru wen;**
**Rhown iddynt barch dyledus**
**Eilio'i clod a llafar sain**
**A boed iddynt wedi'r helynt**
**Nefoedd fach ym Mhen'sarwaen.**

**Gan R.H. (Bobby) Roberts**

# GWYBODAETH OS GWELWCH YN DDA

*Annwyl Olygydd,*

*Achlysur arbennig o'r gorffennol oedd dadorchuddio cofeb yng Nghaban Mills Chwarel Dinorwig er cof am y bechgyn a gollodd eu bywydau yn Rhyfel 1939-45. Cymerwyd rhan gan Parch S.O. Tudor, Moriah, Caernarfon a'r Parch Terry Tomos, Disgwylfa, Deiniolen. Bu llun o'r achlysur yn Eco'r Wyddfa beth amser yn ôl. Buaswn yn falch iawn o rhyw wybodaeth os oes gan unrhyw un ddarlun gwreiddiol ohono.*

*Yr eiddoch yn gywir*
*Elen Jones Eryri Wen, Bodhyfryd, Waunfawr. Ffôn W'fawr 423.*

# CÔR MEIBION – CABAN PENGARRET



*"Griffith Thomas, Y Fachwen, o flaen y Caban yn Pen Garret. Yma yn ystod amser cinio y byddai'r Côr Meibion yn ymarfer."*

*Annwyl Olygydd,*

*Roeddwn yn falch iawn o weld llun Côr Meibion Martin Owen yn yr Eco, er ei fod wedi ymddangos o'r blaen rhyw flwyddyn neu ddwy yn ôl, a mi wnes anfon nodyn i mewn bryd hynny.*

*Mae'n dod ac atgofion melys iawn i ni sydd ar ôl o'r criw am yr amser difyr a gawsom yn cystadlu mewn llawer Eisteddfod ac yn ennill llawer o wobrwyon.*

*Cafodd y Côr ei godi yn Caban Pen Garret. Aelodau o'r côr yn gweithio yn Bonc Pen Garret, Abysinia a Phonc Twll dwndwr Braich, ac yn dod i gaban Pen Garret i gael eu prydau bwyd. Yno hefyd yr oedd y Côr yn cael ymarfer a dysgu darnau newydd yn ystod awr ginio dan arweiniad Martin Owen gyda'i pitch fforch.*

*Fel y gwelir yn y llun yr oedd yr aelodau yn dod o ardal Deiniolen, Llanberis Cwmyglo a Penisarwaun. Byddem yn dod at ein gilydd bob wythnos ar nos Lun i Ysgol Gwaengynfi a weithiau o flaen eisteddfod yn amlach. Byddai hogia Llanberis a Cwm-y-glo yn dod i fyny i'r ysgol gyda thacsi Nedw o Lanberis. Rwyf yn meddwl mae rhywle rhwng 1936-1938 y tynnwyd y llun yng nghowt yr ysgol ar ôl practis.*

*Mae naw aelod o'r côr yn fyw: William Oliver Jones, John David Jones, Ellis James Owen, John Trebor Price, Bob Hughes, Hugh Williams, Dei Thomas Morris, John Griffiths a finnau.*

*John Griffith oedd ein cyfeilydd ac yn ffyddlon dros ben, roedd Martin a fynte yn deall ei gilydd i'r dim. Yn Caerbythod mae yn byw ac nid yn Caerdydd. Mae John Griffith wedi dysgu rai degau o blant yr ardal ar hyd y blynyddoedd ac yn dal i wneud o hyd ar y piano. Bu yn organydd yn Eglwys St. Helen, Penisarwaen am 18 mlynedd ac ar ôl priodi daeth i fyw i Caerbythod. Mis Hydref nesaf bydd yn dathlu 50 mlynedd fel organydd Capel Ysgoldy, record go dda ynte!*

*Gobeithio y bydd yr ychydig sylwadau yma o ddiddordeb i ddarllenwyr Eco'r wyddfa.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*I. Williams.*

*O.N. Dyma lun o gaban Pen Garret a Griffith Thomas Fachwen yn llenwi tegell o'r tap dŵr tu allan.*

*25 Hafan Elan,*
*Llanrug.*

# CYSTADLEUAETH CYFANSODDI ALAW – CERDD DANT

*Annwyl Olygydd,*

*Carwn fel Pwyllgor Cerdd Dant, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Taf Elai, 1991 dynnu eich sylw ar Gystadleuaeth Cyfansoddi Alaw.*

*Anelir y gystadleuaeth yn bennaf at ddisgyblion chweched dosbarth sy'n astudio'r Cwrs Cerddoriaeth ar ei newydd wedd, ond fe fydd croeso i unrhyw aelod o'r Urdd sydd o dan 25ain oed gystadlu.*

*Caiff yr alaw fuddugol ei hystiryed ar gyfer un o gystadlaethau Cerdd Dant, Eisteddfod yr Urdd, Taf Elai 1991. Cynigir yn ogystal wobr o £25 i'r buddugol. Cyhoeddir enw'r enillydd yn yr Ŵyl Gerdd Dant ym Mhwllheli, Tachwedd 1988.*

*Am fanylion pellach a ffurflen gais dylid anfon amlen wedi ei chyfeirio at Loreen Williams, 9 Pen y Waun, Efail Isaf, Pontypridd, Morgannwg Ganol, neu at Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth, Dyfed.*

*Yr eiddoch yn gywir*
*ar ran y Pwyllgor*
*Alwena Roberts (Cadeiryddes)*
*Llinos Swain (Is-gadeiryddes)*
*Loreen Williams (Ysgrifenyddes)*

**MWY O LYTHYRAU AR DUDALEN 7**


## CYNGOR CYMDEITHAS BETWS GARMON

Gwahoddir ceisiadau am y Swydd o Glerc Rhan Amser i'r Cyngor Cymdeithas i ddechrau ar 1 Hydref, 1988.

Gwybodaeth o'r Gymraeg yn HANFODOL. Manylion pellach i'w cael oddi wrth y Cadeirydd, Mr R O Freeman, Llwyn Bedw, Waunfawr (Waunfawr 603), lle dylid dychwelyd y ceisiadau yn ysgrifenedig erbyn dydd Gwener 29 Gorffennaf, 1988.

**I. Gwynedd Williams, Clerc y Cyngor, 2 Bro Waun, Waunfawr.**



ANTUR WAUNFAWR

I weled ein crôg fasgedi – a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

## CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR

**Ffôn: Waunfawr 721**

Am flodau gardd i harddu – a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

*** GRUG**
*** ALPAU**
*** PERTHI**
*** LLYSIAU**

# PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

PWYLLGOR Neuadd Bentref: Oherwydd fod nifer o blant ac oedolion i ffwrdd dros y penwythnos Mai 27ain, 29ain gohiriwyd y Ffair Wanwyn a gobeithir cynnal Ffair Hydref. Newidiwyd penwythnos hirddisgwyliedig aelodau'r Urdd i'r penwtyhnos hwn a chan fod nifer o gemau ar gyfer plant yn y noson, teimlad y swyddogion oedd mai hawdd fyddai cynnal noson fel hon eto – ond mai unwaith y flwyddyn yn unig y mae'r plant yn cael mynd i Lanllyn. Os bu unrhyw gamddealltwriaeth, gofynnwn yn garedig i chwi dderbyn ein ymddiheuriad. Enillwyr y Raffl Fawr oedd 1. Mrs Katie Rosser, Rhiwlas; 2. Mr J.E. Jones, Brynrefail; 3. Mrs Katie Jones, Gorwel, Waunfawr.

Diolchir i bawb a werthodd ac a brynodd dicedi. Wedi talu'r gwobrau a'r argraffu gwnaed elw o £110. Enillwyr Clwb Cant, Mai oedd 1. Ceren Jones, Camelot; 2. Mrs E Evans, 11 Llys y Gwynt, 3 Brenda Richardson, Brynhyfryd. Tynnir Clwb Cant Mehefin, Nos Lun Mehefin 27ain yn Neuadd yr Eglwys am 7.00 p.m.

Taith Gerdded Noddedig oedd gweithgaredd Mehefin. Mehefin 26ain am 9.30 p.m. bu Leslie Larsen, Tony Eliot a Llŷr Tegai yn cerdded hyd gopaon y Glyder Fach, Castell y Gwynt, Glyder Fawr, Y Garn, Foel Goch, Elidir Fawr ac Elidir Fach. Diolchir i'r tri am eu cyfraniad ac i Dafydd Roberts, Pen Dinas Mawr am fynd â nhw ac i Phyllis Elis am ddod â nhw adref yn ôl yn saff.

Cynhelir Boreau Coffi yn ystod mis Groffennaf yng Nghartrefi aelodau'r pwyllgor neu unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu. Bydd teisen a phaned o goffi i'w gael am £1.

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i Mrs Nesta Jones, 2 Llys y Gwynt ar gyrraedd yr oedran teg o 90oed.

Pob dymuniad da i Arwel Williams, Carrog, Waen a'i briod Louise. Ein dymuniadau gorau hefyd i Carys Williams, Trem Cynfi a'i phriod Gareth ar achlysur eu priodas hwythau.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs T. W Griffiths 16 Bryntirion ar fod yn daid a nain unwaith eto.

Llongyfarchiadau a phob bendith i'r Parch Tegid Roberts ar ei urddo yn Offeiriad.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Nesta Jones ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu caridau, blodau ac anrhegion wedi ei arhosiad yn ysbyty Gwynedd ac hefyd ar ddathliad ei phenblwydd yn 90 oed.

Dymuna Arwel a Louise Williams, ddiolch i'w rhieni, teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion gwerthfawr a gawsant ar achlysur eu priodas.

Wedi ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd dymuna Mrs Katie Williams ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u haelioni.

GWELLA: Y mae nifer fawr o bobl wedi bod yn sâl yn ddiweddar ac wedi cael triniaeth mewn Ysbyty. Gobeithiwn fod Mrs Nellie Roberts, Mrs Katie Williams, Mrs M Rees Thomas, Mrs Gwennie Lewis, Mrs Sandy Evans, Mr Nathan Jones a Dyfed Jones yn gwella erbyn hyn. Adferiad iechyd buan heyfyd i bawb sydd ag anhwylder iechyd arnynt. Deallwn nad yw Mrs M Munro a Mr J Gwynfryn Jones a Mrs D Fisher wedi bod yn teimlo'n rhy dda yn ddiweddar. Brysiwch wella i gyd.

YSGOL SUL BOSRA: Bydd trip yr Ysgol Sul ar y cyd ac Ysgol Sul yr Eglwys ddydd Sadwrn Gorffennaf 2il. Bwriedir ymweld â Chadeirlan Llanelwy a Chofeb y Cyfieithwyr. Pris £2.50 i oedolion a £1 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Enwau i Mrs Elizabeth Jones.

EGLWYS SANTES HELEN: Bydd trip yr Ysgol Sul yn cychwyn am 9.30 p.m., Sadwrn, Goirffennaf 2il. Enwau ac arian i Mrs Ann Paterson os gwelwch yn dda.

Yn ystod y gwasanaeth boreol ar yr 22ain o Fai, cysegrodd y Parch Ganon R.D. Roberts nifer o lyfrau a roddwyd i'r Eglwys yn rhodd gan Mrs Beryl Griffiths, Deiniolen. Byddant yn werthfawr iawn ar gyfer yr achlysuron arbennig megis bedyddio a phriodasau.

CLWB YR HEULWEN: Dydd Mawrth, Mehefin 21ain cafwyd cyfrafod o'r Clwb yn Neuadd yr Eglwys. Treuliwyd pnawn difyr iawn yng nghwmni Mrs Nant Roberts gyda Cwis. Diolchwyd iddi gan Mrs Nellie Roberts, 12 Llys y Gwynt. Rhoddwyd y te gan Mrs P Williams a Mrs E Porter. Diolchwyd iddynt gan Mrs N Williams. Anfonwyd dymuniadau da am adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl a llongyfarchiadau i Carys, Trem Cynfi ac Arwel Williams, Carrog ar achlysur eu priodasau yn ddiweddar.

Trip: Bydd y Trip Blynyddol yn cychwyn am 6.00 p.m. Nos Fawrth Gorffennaf 12fed, trwy Nant Ffrancon, Betws y Coed, Bwlch Crimea, i'r Blaenau, Porthmadog a lluniaeth yn y Ranch Llanystuwmdwy. Bydd Clwb y Merched yn ymuno â Chlwb yr Henoed. Mae digon o seddau gwag os oes unrhyw un o'r tu allan eisiau ymuno. Enwau rhag blaen i Mrs M Davies. Bydd y Cyfarfod nesaf Medi 20fed.

## Eisteddfod Gylch gyntaf Sefydliad y Merched – W.I.



*Rhes ôl:( Eluned Porter, Mair Green, M J Roberts, Gladys Thomas, Sydney Williams, Bessie Williams.*
*Rhes Ganol: Mrs Foulkes, Mrs Williams, Fron Hywel, Maggie Green, Jennie Price Jones, Jennie Green, Mrs Ifor Green, Katie Williams.*
*Rhes flaen: Mrs Tom Jones, M Rees Thomas, Mrs Griffith Jones, Mrs Percy Williams, Alice Thomas, Nansi Jones, Nel Davies a Mrs Williams, Y Waen. Anfonwyd y llun gan Mrs Alice Thomas.*

**Dim rhyfedd o gwbl mai Penisarwaun sy'n dal tarian Eisteddfod Ffug yr Eco – wedi'i hennill dair gwaith. Y mae nifer o'r cystadleuwyr brwd yn y llun uchod!!**


URDD: Adran Bentref. Bu nifer o'r plant ym Mabolgampau Cylch yr Urdd yn Ysgol Syr Huw Owen, Nos Fercher Mehefin 15ed. Diolch i'r plant am gystadlu ac i bawb a aeth i ofalu amdanynt. Mae gweithgareddau'r Urdd wedi dirwyn i ben am y tymor hwn, gobeithir ail gychwyn yn yr Hydref.

YSGOL TAN Y COED: Gala Nofio: Roedd dwsin o'r plant yn cynrychioli'r Ysgol yng Ngala Ysgolion Arfon (ysgolion dan 100 o blant) Fe nofiodd pob un fel pysgodyn, gan ddod â'r ysgol yn 4ydd anrhydeddus allan o 12 ysgol. Diolch i'r rhieni fu'n barod i gludo'r plant i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon.

Heicio: Bu'r oll o blant safon 3 a 4 yn treulio deuddydd yng Nghanolfan Rhyd-ddu gan fanteisio ar y tywydd braf i gerdded i Fwlch y Ddwy Elor ym mlaen Cwm Pennant ac i Fwlch Cwm Llan rhwng yr Wyddfa a'r Aran. Diolch i Leslie Larsen a Tony Elliott am eu cwmni a'u cymorth.

Crwydro: Bu dwy wibdaith yn ddiweddar – Y Babanod (a'r ysgol Feithrin) i ymweld â Fferm Gwningod yn Llanystumdwy, a threulio orig neu ddwy yng Nghriccieth. Ymweld ag ardal Penllyn oedd hanes y dosbarthiadau iau, gan alw yn Llanuwchllyn, Glanllyn, Croesi Llyn Tegid ar y 'Brenin Arthur', ffarwelio â Phlwy Llangower yn y trên bach hyd lan y llyn i'r Bala.

Llongyfarchiadau i Wena, Caer Bleddyn, ei darlun hi ddaeth yn fuddugol mewn Cystadleuaeth Arlunio (i blant o dan 7 oed) a drefnwyd gan y rhaglen Hafoc, ar S4C yn ddiweddar. Derbyniodd offer arlunio fel gwobr. Dalier ati Wena.



*"A dyma ni yno!" Plant Ysgol Tan y Coed yn Rhyd-ddu.*

## "PYSGOD" PENISARWAUN



*Rhai o blant yr ysgol a fu'n nofio yn y Gala*

## ARLUNYDD DAWNUS



*Wena Williams, enillydd cystadleuaeth arlunio Hafoc, S4C.*




Dymuna
**D E & R P Jones**
**BECWS**
**DEINIOLEN**
ddiolch i bawb a gefnogoff eu busnes yn Neiniolen wrth drosglwyddo'r awenau i'r perchnogion newydd Mr a Mrs John Leach.

## YN 90 OED



*Llongyfarchiadau calonog i Mrs Nesta Jones.*

YR EISTEDDFOD: Nos Wener, Mehefin 24ain cynhaliwyd yr Eisteddfod Bentref yng Nghapel Glascoed. Dyma'r canlyniadau.

**CERDD:**
**Plant cyn oed ysgol**: Ø. Eurig 2. Karen 3. Rachel; **4 - 6 oed:** 1. Erin 2. Arddun 3. Alaw; **6-8 oed**: 1. Nia Griffith 2. Sion 3. Dafydd; **8-10 oed**: 1 Sioned 2. Huw 3. Lois; **10-12 oed:** 1.Sioned 2. Eleri 3. Nia Lewis; **12-16 oed**: 1. Hefina 2. Delyth; **16-18 oed:** 1. Rhian Williams.
**Cân Werin dan 12 oed:** 1. Sioned 2. Eleri 3. Dafydd; **Cân Werin dan 16 oed:** 1. Delyth 2. Hefina; **Parti Canu oedran babanod** : Parti Arddun; **Parti Canu dan 9 oed:** 1. Parti Tracey 2. Parti Iwan; **Parti 9-12 oed:** 1. Hefina a Delyth; **Unawd Pensiynwyr.** Mrs Percy Williams; **Deuawd Pensiynwyr**: Mrs Eluned Porter a Mrs Katie Williams; **Parti Deulais**: 1. Parti Nancy 2. Parti Nant.

**ADRODD:**
**Plant cyn oed ysgol**: 1. Eurig 2. Karen 3. Rachel; **4-6 oed**: 1. Erin 2. Arddun 3. Nia Porter; **6-8 oed:** 1. Elgan 2. Dafydd 3. Sian; **8-20 oed**: 1. Lois 2. Tristan; **10-12 oed:** Cydradd 1. Sioned a Louise; **12-16 oed:** 1. Delyth 2. Andrea; **Parti Adrodd Oed Cynradd:** 1. Parti Sioned; **Adrodd 18 i oed Pensiynwyr**: 1. Eifion Harding; **Adrodd Oed Pensiynwyr:** cyd 1. Mrs Katie Williams a Mrs Pecry Williams; **Parti Adrodd:** 1. Parti Arall 2. Parti Nancy.

**RHYDDIAITH:**
**4-6 oed:** 1. Mathew, cyd2. Erin a Dion, cyd 3. Nia Porter, Alaw, Arddun, Vincent a Stephen Jones; **6-8 oed:** 1. Wena 2. Elgan, cyd 3. Lynne a Nia Griffith; **6-8 oed eto:** 1. Iwan 2. Sian 3. Vanessa; **6-8 oed eto**: 1. Aled, cyd 2. Ben a Dafydd; **8-10 oed: (Safon 1)** 1. Ynyr, cyd 2. Llŷr ac Angela, cyd 3. Gwenllian, Cathryn a Steven Thomas; **8-10 oed: (Safon 2)** 1. Lois 2. Daniel 3. Rhys; **10-12 oed:** 1. Llŷr (Tarian yr Eidteddfod am gynnyrch llenyddol gorau'r oed cynradd), 2. Nia Lewis, 3. Sioned; **12-16 oed:** cyd 1. Dylan a Dyfed.

**BARDDONIAETH:**
**8-10 oed**: 1. Huw 2. Lois 3. Eira; **10-12 oed:** 1. Sioned, 2. Louise, 3. Elizabeth; **12-16 oed:** 1. Dyfed 2. Dylan; **16-18 oed:** 1. Eurgain Haf (Cwpan am y cynnyrch llenyddol gorau Oedran Uwchradd).

**ARLUNIO:**
**Plant cyn oed ysgol**: 1. Eurig 2. Nicky 3. Karen; **4-6 oed:** cyd1. Arddun ac Erin 2. Alaw 3. Mathew; **6-8 oed:** 1. Iwan 2. Daniel Fletcher 3. Wena; **6-8 oed eto:** 1. Paul Jones 2. Ben 3. Aled; **8-10 oed:** 1. Sioned 2. Tristan 3. Eira; **10-12 oed:** 1. Owen 2. Eleri 3. Caitlyn; **12-16 oed:** 1. Osian; **Oedolion:** cyd 1af. Julia Turner ac Arnold Jones.

**GWAITH LLAW:**
**Plant cyn oed ysgol:** 1. Eurig 2. Nicky, cyd 3. Karen a Manon; **4-6 oed:** 1. Alaw 2. Nia Porter 3. Mathew; **6-8 oed**: 1. Ben 2. Wena 3. Elgan; **8-10 oed:** cyd 1. Gwenllian a Rhys 2. Eryl 3 Sioned; **10-12 oed:** 1. Llŷr 2. Nia Lewis 3. Elizabeth; **12-16 oed**: 1. Dylan cyd 2. Sioned Lewis ac Andrew Turner; **16-18 oed**: 1. Rhian Williams. **Oedolion**: 1. Mrs Percy Williams 2. Elinor Williams 3. Delyth Wiliams.

**COGINIO:**
**Dan 12 oed**: 1. Sioned 2. Rhys; **12-16 oed**: 1. Susan 2. Andrea; **16-18 oed:**1. Rhian Williams; **Oedolion:** 1. Judith Harding 2. Janice Jones.

**DIOLCHIADAU:** I swyddogion Capel y Glasgoed am gael defnyddio'r capel i gynnal yr Eisteddfod ac i Swyddogion Eglwys Santes Helen am gael ymarfer yn y neuadd. I aelodau'r pwyllgor fu'n gwerthu'r testunnau ac i blant safon 4 am werthu tocynnau. Rhoddwyd tocyn anrheg yn wobr i Owen Turner am werthu'r nifer mwyaf o docynnau. Diolch i athrawon Ysgol Tan y Coed am eu cydweithrediad gyda'r arlunio a gwaith ysgrifennu'r plant. Diolch i Mrs Ann Jones am wneud y rhubanau ac i Susan, Rebecca, Stephanie, Yvonne ac Andrea Lewis am eu rhannu.

Diolch i Michael Jones am sicrhau bod y llawr a'r llwyfan yn ddiogel, i Mr Roberts, Glasgoed am gael defnyddio'r cae i barcio ac i Tony Elliott ac eraill fu'n gofalu am y drysau. Diolch i'r beirniaid: Terence Lloyd, Llanrug (Cerdd); Ken Huws, Llanllyfni (Adrodd a Llenyddiaeth); John Meirion Morris, Bangor (Arlunio) a Miss Carol Price, Seion (Coginio a Gwaith Llaw ac i'r gyfeilyddes Mrs Eirian Howells, Llanfairpwll, i'r arweinyddion Mrs Elizabeth Jones a Miss Phyllis Ellis. Diolch hefyd i Lywydd y Noson Mrs Morwenna Williams, Pentraeth, ac i bawb gefnogodd yr Eisteddfod mewn unrhyw fodd. Diolch hefyd am bob rhodd a dderbyniwyd tuag ar y treuliau a diolch i'r trysoryddion Mrs Eirlys Williams a Mrs Pat Jones. Hoffai'r Ysgrifennydd ddiolch ar ran y pwyllgor a rhieni'r plant i'r Cadeirydd Mrs Nancy Jones a Mrs Pat Jones a phawb arall am eu gwaith yn hyfforddi'r plant yn unigolion a phartion, a diolch i bawb am gystadlu o'r ieuengaf oedd brin yn ddwyflwydd oed i'r cystadleuydd hynaf a ddathlodd ei phenblwydd yn bedwar ugain oed ychydig o fisoedd yn ôl. Cyflwynwyd tusw o flodau i enillydd yr Unawd i Bensiynwyr, Mrs Percy Williams.

## PERERINION PENISARWAUN



*Dyma'r criw a fu ar daith gerdded o Ddolwyddelan i Dŷ Mawr, Wybrnant ddydd Sadwrn Mai 21 dan arweiniad Esgob Bangor.*

Dyma'r gerdd a enillodd Gwpan Arian yr eisteddfod i Eurgain Haf, Sycharth, Bryneglwys. Ym marn Mr Ken Huws, y beirniad, dyma'r cynnyrch gorau yn yr adran farddoniaeth.

**Gwreiddiau**

**Bu heuwr wrthi'n brysur,**
**Drwy'r dydd hyd oriau mân,**
**Ei hedyn ef aeddfedodd**
**Yn ffrwyth o obaith glân.**

**I aelwyd yn y Wybrnant**
**Dylifodd crefydd Duw –**
**Yr esgob yn ei lannerch**
**A'n dysgodd sut i fyw.**

**Estron i'r werin bobl**
**Oedd Beibl yn Hebraeg,**
**Trwy grefft un gŵr yn unig**
**Caed adnod yn Gymraeg.**

**Ei glasur fu'n gyfrifol**
**Am sicrwydd gwreiddiau'n hiaith,**
**Hyd heddiw, rôl canrifoedd**
**O'n genau daw ei waith.**

**O'r gwreiddiau hyn eginodd**
**Derwen yr iaith Gymraeg,**
**Ei brigau sy'n cynyddu –**
**Diolch i'r ysgolhaig.**

**Eurgain Haf**

**CARNIFAL PENISARWAUN 1988: Gorffennaf 3ydd - 9fed.**
**Nos Sul** – Gorffennaf 3ydd am **8.00 p.m. Cymanfa Ganu,** yn Eglwys Santes Helen.
**Nos Lun,** Gorffennaf 4ydd am **6.30 p.m. Bingo** yn Neuadd yr Eglwys.
**Nos Fawrth,** Gorffennaf 5ed **CGyrfa Chwist** am **7.00 p.m.**
**Nos Fercher, Noson i Blant yr Ysgol Gynradd a BLwyddyn 1 a 2 Ysgol Brynrefail.**
**Dydd Dadwrn, Carnifal y Pentref** cychwyn o'r Cae Chwarae am **2.00 p.m.**
**Mabolgampau a Thraws Gwlad** yn syth at ôl y Carnifal.
Croeso cynnes i bawb i'r gweithgareddau.

PROFEDIGAETH: Daeth profedigaeth sydyn i ran Mrs Pat Larsen unwaith eto, a hynny ond ychydig fisoedd wedi iddi golli'i chwaer – bu farw Mr William Carraway ei brawd yng nghyfraith. Ein cydymdeimlad llwyraf â chwi Mrs Larsen a'r cysylltiadau oll.

CYMDEITHAS HANES BRO'R ECO: Fe gofiwch beth amser yn ôl i'r Gymdeithas Hanes apelio ar i drioglion Bro Eco'r Wyddfa fynd ati i gasglu hen luniau at ei gilydd i'w harddagnos yn Oriel Eryri ym mis Medi. Os oes gan unrhyw un ohonoch chwi bentrefwyr Penisarwaen hen luniau o'r pentref a fuasech garediced â chysylltu ag Ann Ifans, Sycharth neu â'r prif gysylltwr Arwel Jones, Pant Hywel (Llanberis 871274) Diolch yn fawr.

PLYGU'R ECO: Plygir yr Eco yma ym Mhenisarwaun Medi 1af. Gofynnwn yn garedig am help llaw.


**Gwasanaeth NEWYDD ar garreg eich drws**

**SEGONTIUM**
**CAR · VAN HIRE**

Cerbydau Pickup, Luton, Cargo a Bysus Mini
Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir
UNED 5, STAD CIBYN
CAERNARFON Ffôn: 2013



**HOME IMPROVEMENT CENTRE**
**FFORDD YR ORSAF, LLANRUG**
**Ffôn: C'fon 2122**

ar gyfer...

Paent, Papur wal, Anghenion addurno, Coed, Tywod, Gro, Brics, Bllociau, a Sment, Offer plymio

Anghenion Tŷ, Garddio, Hadau Unwin, Hardware, nwyddau Ironmonger, Teganau

# BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990:Cynhelir Mabolgampau i holl blant yr ardal brynhawn Gwener, Gorffennaf 15 ar y cae chwarae. Bwriedir trefnu i amrywiol nwyddau yr Eisteddfod fod ar werth, yn ogystal â chreision, cŵn poeth, diodydd ac yn y blaen. Mae'r Pwyllgor Apêl Lleol yn ddiolchgar iawn i Mr Ieuan Jones, Tan y Buarth, a Mrs Nia Morris, Tan y ffordd am gytuno i gynorthwyo gyda'r gweithgareddau.

LLONGYFARCHIADAU: i Aled Griffith, Llwyn Eithin ar ei lwyddiant ym myd athletau yn ddiweddar. Daeth yn 1af yn y ras 200 metr 2il yn y ras 100 metr a 3ydd am y naid driphlyg yng Nghystadleuaeth Gwynedd o'r A.A.A. a gynhaliwyd ym Mangor. Aled hefyd oedd y Victor Ludorum ym Mabolgampau Ysgol Brynrefail a daeth yn 1af yn y ras 200 metr ym mabolgampau Ysgolion Gwynedd.

ADRAN YR URDD: Daeth tymor yr Urdd i ben am eleni gyda taith gerdded o Gastell Bryn Bras i Lanberis, dan arweinyddiaeth y pwyllgor a rhieni.

Dewisiwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn nesaf: Llywydd Anrhydeddus – Mrs Fanny Owen, Caernarfon; Llywydd – Mr Geraint Elis; Ysgrifennydd – Mrs Sian Hughes; Is-Ysg. Mrs Margaret Rees; Trysorydd – Mrs Sian Robinson.

Bydd Arweinyddiaeth yr Adran yn cael ei gymeryd gan aelodau'r Pwyllgor – pob un yn ei dro. Bydd cyfle ar ddiwedd yr haf i rieni newydd a chyfeillion i ymuno â'r pwyllgor presennol ar gyfer y tymor nesaf.

Diolch yn fawr i Rita Williams am ei gwaith diflino fel ysgrifenyddes am y dair blynedd diwethaf a hefyd i Mair Price a Richard Lloyd Jones am ymgymeryd â chyfrifoldeb arweinydd yr Adran.

MERCHED Y WAWR: Aeth yr aelodau ar daith ddirgel nos Fercher diwethaf gan ymweld â phlasdy yn Llanrwst a diweddu'r noson gyda lluniaeth yn Fair Falls, Trefriw. Diolchodd y llywydd, Mrs Lynnwen Morris, Perthi i Mrs Gwyneth Williams yr ysgrifennyddes am drefnu'r noson ac i bawb arall am eu cefnogaeth yn ystod y tymor.

Y swyddogion am y tymor nesaf yw: Llywydd: Mrs Meinir Roberts, Gwynfryn; Is-lywydd: Mrs Glenys Griffith, Llwyn Eithin; Ysgrifennydd: Mrs Nora Parry, Tan y Buarth; Is-ysgrifennydd: Mrs Alys Jones, 18 Eryri; Trysorydd: Mrs Mary Evans, Tan y Cae; Is-drysorydd: Mrs Eirlys Williams, Y Ddôl. Pwyllgor: Mrs Nan Rowlands, Mrs Bessie Ellis, Mrs Rita Williams, Mrs Mary Griffiths, Mrs Ceinwen Williams a Mrs Sheila Roberts.

LLONGYFARCHIADAU i Sioned Owen, Cefn Cynrig ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth canu'r piano i rai dan 15 oed yn Eisteddfod Môn yn ddiweddar.

YN 18 OED: Mae tri o hogiau'r pentref yn dathlu eu penblwydd yn 18aw oed yn ystod y mis – David Jones, Tyddyn Oer ar y 19fed, Mark Jones, Cefn ar y 21ain a Geraint Jones, Stâd Eryri ar y 31ain. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r tri.

YR ARHOLIAD SIROL: Llongyfarchiadau i blant Ysgol Sul y Cysegr ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol. Nos Fercher Mehefin 22ain gwobrwywyd y canlynol mewn cyfarfod yn Theatr Seilo.

Dan 9 oed: Rhodri Roberts, Carwyn John Morris a Gethin John Davies.

9-11 oed: Catrin Angharad Hughes, Gwenan Elis, Llinos Wyn Morris, LLinos Angharad Morris, Nia Jones, Nia Elin Davies, Donna Marie Williams, Sonia Lyn Roberts a Llinos Ann Roberts.

LLONGYFARCHIADAU i Huw Williams Cefn Gwyn ar gael y wobr gyntaf am ei farch a fagodd ei hun mewn sioe geffylau ym Môn yn ddiweddar. Roedd y march a fagodd Huw yn well na'r un a brynwyd gan ei dad wedi'r cwbl.

NEWYDDION O'R YSGOL:



Mae Charles Bent o'r dosbarth babanod uchaf wedi cael llawer gwobr yn ystod y tymor am fagu a dangos teriars.

Ymgyrch Llyfrau Cymraeg: Fe werthwyd dros £500 o lyfrau yn ystod mis yr ymgyrch. Rhoddwyd gwobr gan Siop Pendref Bangor i'r ddau blentyn a gafodd yr hwyl orau. Fel y digwyddodd rodd Caryl Owen a Rhys Lloyd yn aelodau o ddosbarth un.

Gala Nofio Cylch Caernarfon: Fe ddaeth y tîm yn 3ydd yn yr ornest a gynhaliwyd yng Nghanolfan Chwaeareon Cyngor Arfon, Caernarfon.

Yn ystod yr wythnos fe roddwyd gwahoddiad i bob rhiant i'r ysgol i gydweithio ar fathemateg gyda'r plant. Credir fod y cyfarfodydd yn llwyddiant mawr a hoffai'r prifathro, longyfarch Mr E.R. Jones fel arweinydd, a'r holl o'r athrawon a roddodd eu holl frwdfrydedd yn yr arbrawf.

Yn ystod diwedd yr wythnos bu plant Miss L.P. Roberts a Mr E.R. Jones ar daith i Dŷ Mawr Wybrnant, i weld cartref yr Esgob Morgan.

Bu plant Safon 4 ar y tren i gopa'r Wyddfa, eu gwibdaith olaf fel disgyblion eu 'hysgol bach' a lle gwell i ffarwelio ar ddiwedd cyfnod hapus na o'r man uchaf yng Nghymru. Pob dymuniad da, llwyddiant a bendith i'r degn Bydd lle gwag mawr ar eu hôl.



*Gwerthwyr llyfrau Cymraeg Ceryl a Rhys.*



*O flaen Tŷ Mawr, Wybrnant.*




*Plant Safon 4 ar gopa'r Wyddfa.*

## SIARADWYR CYHOEDDUS



*Llongyfarchiadau i Meinir D Williams, Angharad Elis ag Angharad Price ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth siarad cyhoeddus i Aelwydydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.*


**AR WERTH**

*Carafan Sprite Alpine 1981 gyda rhewgell, gwresogydd, toiled.*

*Cyflwr ardderchog.*

*Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.*

*Ffôn Caernarfon 5605*

**AR WERTH**

Beic Racer Halfrod

3 gêr. Cyflwr da

Addas ar gyfer hogyn 7-9 oed.

£40 neu'r cynnig agosaf

Ffôn: C'fon 3485

# BETHEL — *PARHAD*



*Mrs Bent yn rhoi sgwrs i blant safon 1 ar gadw anifeiliaid anwes.*



*Non Jones o Fethel ddaeth yn ail yn y Genedlaethol yn y Drenewydd ar sgwennu geiriau cân bop.*

## LLYTHYRAU (PARHAD)

## TELEISYN

*Annwyl Olygydd,*

*Rydw i, ynghyd â Chwmni Teliesyn, yn paratoi cyfres deledu ar gyfer S4C ar y gwahanol ddulliau o broffwydo'r dyfodol — megis astroleg, llawddewiniaeth (darllen dwylo), darllen dail te, dadansoddi llawysgrifen, breuddwydion proffwydol, ofergoeledd gwerin, yn wir unrhyw ddull a ddefnyddir i broffwydo digwyddiadau'r dyfodol.*

*Byddwn felly yn awyddus iawn i glywed oddi wrth unrhyw un o'ch darllenwyr sy'n honni proffwydo'r dyfodol neu sydd wedi cael prof iad arbennig o broffwydoliaeth a gafodd ei wireddu.*

*Rwyf hefyd yn chwilio am barau o efeilliaid astrolegol — hynny yw unrhyw ddau berson a anwyd ar yr un diwrnod o'r un flwyddyn.*

*Yn gywir iawn,*
*Eiry Palfrey*

## YN GRYNO

Anwyl Olygydd,

Ysgrifennaf atoch fel golygydd 'Yn Gryno', llyfryn cynllun Canolfan Gwybodaeth ac Adnoddau mudiad Cefn. Mae'r llyfryn yn ymddangos pob deufis ac yn cynnwys rhestr o gwmnïau sy'n cynhyrchu adnoddau parod ar gyfer busnes (e.e. arwyddion, llyfrau derbynebion, llythyrau safonol a.y.b), cyrsiau addysg dwyieithog, datblygiadau mewn addysg, cyfieithwyr, ynghyd ag adroddiadau ac ymchwil ar yr Iaith Gymraeg. Hoffwn glywed oddi wrth unrhyw un sydd un ai yn cynhyrchu nwyddau dwyieithog, yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, neu sy'n ymchwilio i mewn i unrhyw faes sy'n ymwneud â'r Iaith. Mi fyddwn hefyd yn cynhyrchu catalog adnoddau dwyieithog a fydd yn ymddangos ymhen pedwar mis. Os oes gan eich darllenwyr wybodaeth a ystyriant o fudd i'r llyfryn, yna mi hoffwn glywed ganddynt.

Mae dwy swydd gyda'r cynllun wedi eu lleoli yng Nghaernarfon. Mae angen ymchwilydd a teipydd i weithio mewn tîm bychan yn swyddfa Cefn, fydd yn cyhoeddi cylchgrawn pob deufis, ac yn dadansoddi gwaith ymchwil sydd yn cael ei wneud ar y defnydd o'r Gymraeg mewn busnes yng Ngwynedd. Swyddi rhan amser ydynt ac fe delir cyflog o £65.00 yr wythnos. Am fanylion pellach ynglŷn â'r swyddi dylid cysylltu â Gwynfor Dafydd ar 0286 5664, neu galw i mewn i unrhyw ganolfan waith.

Yn gywir,
Linda Williams,
Golygydd,
Tŷ Glyndŵr,
1Stryd y Castell,
Caernarfon,
Gwynedd

## JIWBILI U.C.A.C.

*Annwyl Olygydd,*

*Fis Rhagfyr 1940 sefydlwyd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (U.C.A.C.). Ar gyfer dathlu Jiwbili'r Undeb yn 1990, y mae'n fraint gennym ysgrifennu a chyhoeddi cyfrol ar Hanes U.C.A.C.*

*Ni ellir cyflawni'r bwriad hwn heb gymorth amryw o'n cyd-aelodau ar hyd a lled Cymru a fu'n swyddogion lleol i'r Undeb. Mae arnom eisiau unrhyw ffeiliau, papurau, gohebiaeth ac ati sy'n ymwneud â gwaith U.C.A.C. ac sy'n digwydd bod yn eu meddiant. Efallai, hefyd, fod gan aelodau doriadau o hanesion U.C.A.C. a ymddangosodd ym mhapurau Cymru a thu hwnt.*

*Yn wir, os oes gan unrhyw un o'ch darllenwyr, boed aelod neu gyn aelod o U.C.A.C. neu beidio, ddeunydd neu wybodaeth, buaswn yn ddiolchgar iawn petai yn cysylltu â mi ym mhrif Swyddfa U.C.A.C., Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Dyfed. SY23 2AZ (Ffôn: 0970 615577)*
*Yn ddiffuant*
*G. Wyn James*
*Ysgrifennydd Cyffredinol.*



*Mae'r diddordeb diweddar mewn hoci wedi esgor ar lun arall o Ysgol Brynrefail. Anfonwyd y llun uchod o dîm hoci'r ysgol tua 1930-32, gan Olwen Davies, Bangor (gynt o Lanberis). Mae'n eistedd ar y chwith yn yr ail res. Yr athrawes yw Miss Olwen Lewis a ddysgai Ffrangeg yn yr ysgol. Ond beth am enwau gweddill y genod?*

## O YSGOL BRYNREFAIL – GWYRFAI 1943-44

**Cafwyd gwybodaeth am y llun o dŷ Gwyrfai (Ysgol Brynrefail) yn 1943-44 a ymddagnosodd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Fe'i hanfonwyd gan Mrs Nansi Davies, Rhuthun (Nansi Jones, gynt o Lanberis), sef Capten y Tŷ ar y pryd ac enillydd y Victrix Ludorum. Dyma enwau holl aelodau'r tŷ:-**

Blwyddyn reit bwysig yng nghyfnod Tŷ Gwyrfai oedd hon. Dyma'r tro cyntaf erioed (efallai) i un Tŷ ennill y pedwar cwpan. 1. Cwpan yr Eisteddfod 2. Y Mabolgampau (gan gynnwys y gemau hoci a ph7el droed) 3. Victor Ludorum (enillydd Dan Rowland Hughes) 4. Vitrix Ludorum (Enillydd Nansi Jones. Dyma 'r rheswm pam tynnwyd y llun.

Y ddau athro yn gyfrifol am Dŷ Gwyrfai oedd Mr William James Mus. BAC a Miss Hannah Tilda Jones (athrawes Gwyddor Tŷ)

Aelodau'r Tŷ:
(o'r chwith i'r dde): rhes gefn: T. Noel Williams (Llwyncoed); Donald John Evans (Llanberis); Tony Graham (Sais o Loegr); Owain Eurwyn Jones (ymadawedig); Arfon Gwyrfai Jones (ymadawedig).
2il o'r cefn: ? Alwyn (Tanycoed); Owain Hughes (Tyddyn Charles); Hefin Closs (Brynrefail); ?; Jane Jones (Deiniolen); Dilys Rts (Coed) Llanberis; Joyce Morris (Mrs Islwyn Jones) Deiniolen; Derlwyn Rts (Llanberis) John Elwyn Jones, Twm Foulkes (Brynrefail)
3ydd o'r cefn; Margaret Rees Jones (Deiniolen); Beryl Griffiths (Llanrug – Aunty Beryl); Eirlys Peris Owen (Llanberis); Elizabeth (Llanberis); Enid Vaughan Owen (Llanberis); Nan (Mrs Gwilym Jones, Llanrug); Beryl Williams (Mrs Tudor Owen) Llanberis; Mary Alltwen Jones (Llanberis); Dilys Eira Jean Owen (Llanberis), Jean (Deiniolen)
4ydd res: Mair Foulkes (Fachwen); Sister Glenys Parry(Llanberis) Happy Wms (Nant Peris); Parch Huw Gwynfa Rts (Llanrug) Capten; Nansi Jones (Llanberis) Capten; Dr Dan R Hughes (Deiniolen); Rhiannn Ellis (Pontrug); Leonara Wms (Cwm y glo), Laura Jones Wiliams (Deiniolen)
Rhes flaen: ??? Goronwy Owen (Llanberis) Ralph Jones (Llanberis); Gwynedd Jones (Llanrug); Emlyn Evans (Llanberis – ymadawedig); Aled Jones (Llanrug – ymadawedig).


GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491



CABS LLANRUG

C'FON 5951
Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

# BLWYDDYN... SWYDDOGION... A CHARTREF NEWYDD I'R GYMDEITHAS HANES

Yng nghyfarfod Blynyddol Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Oriel Eryri penderfynwyd newid blwyddyn y Gymdeithas Hanes i redeg o fis Medi i fis Awst fel rhan fwyaf o gymdeithasau eraill.

Ceir manylion rhaglen y flwyddyn newydd yn rhifyn Medi o Eco'r Wyddfa. Cofiwch adael trydedd nos Fercher y mis yn rhydd drwy'r gaeaf!

Ysgrifennydd newydd y Gymdeithas Hanes yw Mr Maurice M. Jones, Meillionen, Cwmyglo; (ffôn Llanberis 870466). Mae'n dilyn ei ferch Dilys sydd wedi priodi ac wedi symud i fyw o'r ardal. Dymunwyd yn dda i Dilys ar ei phriodas a diolchwyd iddi am ei gwaith caled drwy'r flwyddyn.

Mae gan y Gymdeithas Gadeirydd newydd hefyd, sef John Owen Huws, Waunfawr. Mae'n dilyn Arwel Jones a fu'n gadeirydd ers sefydlu'r Gymdeithas Hanes yn 1985.

Penderfynwyd mai prif fan cyfarfod y Gymdeithas fydd Oriel Eryri, Llanberis er y byddir yn ymweld â phentrefi eraill y fro yn rheolaidd. Aelodau'r Pwyllgor fesul ardal yw Llanberis – Mrs Lennon; Dinorwig – Ellen Wyn Jones; Deiniolen – I'w lenwi; Cwmyglo a Brynrefail i'w lenwi; Penisarwaun – Mrs Ann Evans; Llanrug – Dafydd Whiteside Thomas a John Roberts; Bethel – Mrs Mair Read; Waunfawr – Mrs Mary Vaughan Jones; Caernarfon – Miss Matt Pritchard.

Cofiwch ymuno erbyn mis Medi. Pe baech ond yn dod i chwarter y cyfarfodydd mi gewch werth eich arian! Roedd yn werth ymuno am eleni ond i glywed darlith feistrolgar Robin Williams ar "Ddireidi T.H. Parry Williams" a ragflaenodd y cyfarfod blynyddol.


**Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa**

Nos Wener
8 Gorffwnnaf 1988
**Ymweliad â Thŷ Mawr Wybrnant Cartref yr Esgob William Morgan**

Ni threfnir bws ond os ydych am ddod yn eich car neu am lifft yng nghar rhywun arall cysylltwch **ar unwaith** â'r ysgrifennydd **Maurice Jones – Llanberis 870466**


# GWASANAETH LLYFRGELL I'R RHAI CAETH I'W TAI

Yn aml iawn mae pobl sydd wedi bod yn defnyddio'u llyfrgell leol neu'r llyfrgell deithio, wedi gorfod rhoi'r gorau i'w defnyddio oherwydd henaint. Efallai bod eraill heb fedru defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell o gwbl hyd yn hyn oherwydd eu bod yn anabl. Y rhain, efallai, yw'r union bobl a fyddai'n elwa fwyaf ar y gwasanaeth.

Wrth lwc, mae dewis arall – os na fedrwch chi ddod at y llyfrgell, gall y llyfrgell ddod atoch chi. Mae llyfrgell Gwynedd yn rhedeg gwasanaeth llyfrgell i'r Caeth i'w Tai, ac yn awr mae cyfle i fwy o bobl yn ardal Eco'r Wyddfa gael y gwasanaeth yma. Mae fan y llyfrgell yn galw unwaith y mis yng nghartrefi'r bobl sy'n cael y gwasanaeth, ac yn dod a chyflenwad o lyfrau sydd wedi eu dewis yn arbennig ar gyfer pob person.

Mae'r gwasanaeth sy'n rhad ac am ddim, ar gael i unrhyw berson yn ardal Eco'r Wyddfa sy'n methu a defnyddio'r llyfrgell oherwydd henaint neu am eu bod yn anabl. Os teimlwch fod arnoch chi angen y gwasanaeth, cysylltwch â Mr Dafydd Williams, Llyfrgell Rhanbarth Arfon Dwyfor, Ffordd Pafiliwn, Caernarfon; neu ei ffonio – y rhif ffôn yw Caernarfon 4121 a gofyn am estyniad 2465. Daw aleod o staff y llyfrgell i'ch gweld a chael sgwrs am y gwasanaeth.

Os gwyddoch chi am rywun a allai elwa ar y gwasanaeth yma, mae'n siŵr y byddent yn falch petaech yn tynnu eu sylw ato er mwyn iddynt fedru gwneud cais. Gellwch wneud cais ar eu rhan os mynnwch, ond cofiwch gael eu caniatâd hwy yn gyntaf.

# TAN-Y-COED

**Gohebydd: Miss M Humphreys**
**4Tai Tan y coed (Llanberis 870030)**

LLONGYFARCHIADAU i Beverley Ann Roberts, Awelfryn ar ei llwyddiant yn dod yn gyfartal gyntaf dan 9 oed yn Arholiad Sirol Henaduriaeth Arfon. Bydd Beverley a phawb eisteddodd yr arholiad yn cael eu gwobrwyo mewn cyfarfod arbennig yn Theatr Seilo Nos Fercher Mehefin 22.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i Manon Llwyd Evans, Carwyn ar ei phenblwydd yn 18 oed ar Fehefin y 19eg.


**YN EISIAU**
**GOFALWYR I GAPEL TANYCOED M.C., LLANRUG**
**Ac i fyw yn y Tŷ Capel**

**Ymofynner am y telerau gan Mrs N. Hughes, 4 Stryd Newydd, Cwmyglo, Caernarfon. Ceisiadau i law erbyn Gorffennaf 22ain, 1988**


# FFERMWYR IFANC CAERNARFON

Pinacl blwyddyn y ffermwyr ieuainc yw'r Rali flynyddol a gynhaliwyd eleni dydd Sadwrn, Mai 28ain 1988 yn Fferm Dolwgan, Cwm Pannant. Bu'r pedwar clwb ar ddeg yn y Sir yn cystadlu ar y dwrnod. Bu dau ar bymtheg o aelodau'r clwb yno a chafwyd gryn hwyl a mwynhad wrth gystadlu. Braf oedd gweld cyn aelodau y clwb y n y Seremoni Cyn Frenhinesau Amaeth oedd yn dathlu deugain mlynedd eleni sef Mrs Wenda Thomas, Caeathro 1950; Mrs Maragret Jones, Rhos on Sea 1951; Mrs Gwyneth Jones, Bethel 1964; Mrs Ruth Jones, Llansadwrn 1965.

Dyma restr cystadleuwyr y Clwb: Tywarchen o welltglas – Andrew Jones: Coginio dan 21 oed – Nia L Jones a Sioned Parry; Llyfr lloffion – Ellen Hughes; Cywaith Coginio – Ellen Hughes (pedwerdydd) Barnu Defaid Suffolk dan 16 oed Aled Jones (3ydd); dan 21 oed – Eurwyn Jones.

Barnu Defaid Caled Cymeig: dan 16 – Aled Jones (2il); dan 18 – Elwyn Parry; dan 21 – Alwyn Jones; dan 26 – Eurwyn Jones. Ras Tair coes i Ferched – Rachel a Nia Griffiths, Rhian Thomas a Gail Warrington; Dreifio Tractor a Threlar – Adran Iau – Nia L Jones; Adran Hŷn – Alwyn Jones, tryddydd

Ras Cludo Sach Wlan – Rachel Griffiths, Rhian Thomas, Aled Jones; Andrew Jones, Andrew Kettle, Elwyn Parry – Trydydd.

Pync Rocyr – Ken Jones a Gail Warrington yn gwisgo Myfanwy Jones – ail. Band y Buarth – Gwen, Gail, Nicole, Sioned, Nia Rachel, Wenna a Helen ail) Collage Arfbais Clwb Helen Jones cydradd drydydd. Coginio dan 26 oed – Rhian Thomas (ail). Gosod blodau dan 18 oed – Helen Joens; Barnu Bara Brith – Ellen Hughes; Ras Rwystrau Beic Fferm – Eurwyn Jones.

Ar ddiwed y dydd roedd gan y Clwb 144 o farciau ac wedi gwneud camp ar y llynedd drwy ddyblu eu marciau. Enillwyr y Rali oedd Ysbyty Ifan 410; yn ail Dyffryn Ogwen 288; yn drydydd Y Rhiw 258; Dyffryn Nantlle 238; Llangybi 216, Porthdinllaen 190; Dyffryn Madog 170; Rowen 168, Caernarfon 144; Glynllifon 110; Godre'r Eifl 92; Lon Goed 90; Llanrwst 66, Penmachno 64.

Yn ystod yr haf gobeithir trenfu nifer o weithgareddau ac yn eu plith Helfa Drysor ar droed, fydd yn agored i bawb. Bwriedir cychwyn o Neuadd Bethel am 6.30 p.m. nos Fawrth Gorffennaf 12fed. Croeso cynnes i bawb.



*Un o'r cystadlaethau mwyaf pboblogaidd oedd gwsigo arweinydd Clwb fel pync rocer. Dyma Myfanwy Jones, arweinydd Clwb Caernarfon cyn y gystadlauaeth.*

## PYNC ROCARS Y FFERMWYR IFANC



*Dyma hi eto, ar ôl y gystadleuaeth gyda'r ddwy a oedd yn gyfrifol am y llanast oedd arni, sef Gwen Jones, Fachell a Gail Warrington Wern Bach. Daeth y tîm yma yn ail yn y gystadleuaeth.*


**Cronfa Goffa R.H. Owen**

Rhoddir grantiau o'r Gronfa uchod tuag ar lawer o weithgareddau. Gellir cael copi o'r amodau a ffurflen gais oddi wrth **Aled Owen 13 Charlotte St., Llanberis. Ffôn 871518 Ceisiadau i law erbyn Awst 31, 1988**

CRIB COCH
**Y Sgwâr, Llanrug**
**Ffôn: Caernarfon 76772**
TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN
**Ffoniwch neu galwch i drefnu amser**

## APÊL

Beth am i chi, Ysgrifenyddion y Cymdeithasau a'r Mudiadau ym Mro'r Eco, anfon dyddiadau eich rhaglen am y flwyddyn neu'r tymor i mi.

Byddwch felly yn sicrhau lle yn y dyddiadur bob mis.

Diolch yn fawr,
Olwen Llywelyn,
Pant Afon Bach,
Llanrug.

### GOFALAETH UNEDIG DEINIOLEN, LLANBERIS A NANT PERIS

*Mae'r Parch D. John Pritchard, Abersoch wedi derbyn galwad i fod yn Weinidog yr Ofalaeth uchod a bydd yn dechrau ar ei waith ar Hydref 1af, 1988.*

## RHODDION

**Diolch i'r canlynol am eu rhoddion rhag at gostau cynhyrchu'r Eco.**

£5 – Er anwylaf gof am Dad a Mam – Mr a Mrs W.T. Jones, Clwt y Bont "a'u hun mor dawel yw" – eu merch Dorothy May, Caernarfon.
£5 Clwb Ffermwyr Ieuanc, Caernarfon.
£5 Miss Olwen M Davies, 9 Victoria Park, Bangor.
£5 Cymdeithas Bysgota Seiont, Gwyrfai a Llyfni
£5 T.H. Jones, Llanberis
£5 Mrs Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd, Cwmyglo
£5 E Jones, 351 Ffordd Conwy, Mochdre, Bae Colwyn.
£3 Cyfraniad di-enw o Ddinorwig
£3 Hugh a Dilys Evans, Brynrefail
£2 Mrs Nesta Jones, 2 Llys y Gwynt, Penisarwaun
£2 Robert Evans, 12 Hafod Olau, Deiniolen
£2 Miss Florrie Davies, Bro Elidir, Dinorwig
£2 Jerry Evans, Stryd Newydd, Deiniolen
£2 Mr a Mrs T G Pritchards, Bronallt, Nant Peris.
£1.50 Nia Land, Cae Hob, Deiniolen
£1 Mrs Maggie Jones, 3 Bro Deiniol, Deiniolen
£1 Cyfraniad di-enw o Lanberis.

## CERDDED I GAEL NEUADD BENTREF



*Tony Elliot, canol, yn pwyntio at y ddau fu'n ei gario drwy'r daith gerdded noddedig — sef Dafydd Roberts a Leslie Larsen. Bu hefyd yn pwyso'n o drwm ar Llyr Tegid, ei fab. (Gweler eu stori yng ngolofnau'r newyddion Penisarwaun.*

## AIL YN Y DRENEWYDD



*Gavin Saynor, Deiniolen, ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth yr unawd pres dan 12 oed yn Eisteddfod yr Urdd, Y Drenewydd.*

## DRAENOG AR Y LLWYBRAU



**Par ifanc wedi penderfynnu cerdded adref yn hwyr o barti ar hyd y llwybrau ar gyrion Llanrug. Ymhen hir a hwyr dyma gyrraedd adref a golwg ofnadwy ar eu dillad. Wedi bod yn dringo waliau a ballu oeddynt wrth chwilio am lwybrau sydd ddim yn bod ers amser maith. Roedd draenog Crawia wedi clywed rhywun yn canu deawd "Show me the way to go home", y noson honno.**


**GWILYM H. WILLIAMS**
**BRYN DAIRY**
**2 BRYNHYFRYD**
**BETHEL**
**Ffôn**
**Port Dinorwig 670786**



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

**Emyr Jones**
**PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI**
**Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau**
**44 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**Caernarfon 3513**

**BRYN**
**(B & K Williams)**
**Hen Ysgol**
**Glanmoelyn**
**LLANRUG**
**Ffôn 77482 (dydd)**
**870793 (nos)**
Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau, Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed. Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.

Am wledd flasus
dewch at
Gwyndaf a Ceris
Williams
**SIOP SGLODION BETHEL CHIP SHOP**
**Archebwch dros y ffôn!**
**Portdinorwig 670963**
**Cartref 670170**


Y Foelas
*CARTREF YR HENOED*
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
**Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon**
**(0286) 4652**

Gwesty
**Dolbadarn**
**LLANBERIS Ffôn: 870277**



**Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.**

**FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI**




**Esiampl o bris a gosod**
Crefftwyr profiadol yn eu gosod
**Ffoniwch am bris i**
**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd**
**Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)**
Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

# DEINIOLEN

**GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)**



*Nia Land Brenhines y Carnifal.*

CARNIFAL DEINIOLEN: Cafwyd wythnos fendigedig o weithgareddau llwyddiannus dros ben, a arweiniodd at ddiwrnod y Carnifal ar ddydd Sadwrn Mehefin 18fed eleni.

Nos Sul Mehefin 13 roedd canu gwych mewn Cymanfa Ganu, yn Ebenezer, dan arweiniad Einir Wyn Owen, Rhiwlad, Organydd J.B. Jones, Deiniolen gyda Lleisiau'r Gweunydd a'r Parchedig Trefor Lewis.

Nos Lun: Cystadleuaeth agos dros ben yn y "Bull's Eye" ond roedd Dylan a Jason yn wir haeddu'r medalau.

Nos Fawrth: 22 o dimau pêl-droed 5 bob ochr yn chwarae am y gorau a'r timau canlynol yn ennill y tlysau: Genethod dan 12 oed – tîm Sian Ellen; Hogia dan 12 oed – Tîm Simon; Genethod dan 15 – Tîm Melisa; Hogiau 14 – 'Liverpool'; Bechgyn dan 16 – 'Y Waders'; Seniors – Tîm Ceirion.

Nos Fercher: Cyngerdd Coroni'r Frenhines Nia gan Blant ysgol Gwaun Gynfi gyda Mr W.J. Eames yn arwain y noson. Mawr yw ein diolch iddo a holl staff yr ysgol am ddysgu'r plant i gynnal Cyngerdd a oedd wrth fodd pawb.

Nos Iau: Disgo yn yr ysgol gyda Soundout disgo o Gaernarfon yn cynnal y noson.

Nos Wener: Bingo yn y band room gyda phlant o bob oed dan 15 yn cael chwarae. Doedd dim smic i glywed tra bu Dafydd a Tommy yn galw'r rhifau.

Dydd Sadwrn: Seindorf Arian Deiniolen oedd yn arwian yr Orymdaith o Rhydfadog tuag at yr ysgol, gyda'r Frenhines Nia, Tywysogs Eiriana a'r llys yn dilyn, yna llu o ardalwyr a oedd wedi eu gwisgo mewn gwisgoedd ffansi o bob lliw a llun. Agorwyd y Carnifal yn swyddogol gan John Ogwen a Maureen Rhys cyn iddynt ddechrau ar y gwaith beirniadu gyda Gwyn ac Eleri, Joe a Tracey. Roedd gwaith y beirniaid yn un anodd iawn gyda tua 10 o gystadleuwyr yn cystadlu ym mhob oed. Diolch i Dafydd Evans am eu cyflwyno. Dyma'r canlyniadau:

**Dan 5 oed:** 1. He man (Jason); 2. Bo-Peep (Sioned); 3. Digestive (Helen); **Hysbysiad 5 oed:** Digestive (Helen) a Tissues (James) cydradd 1af. **Dan 8 oed:** 1. Robot (Iwan); 2. Shera (Lynn), 3. Green Cross Code (Richard); **Hysbysiad dan 8 oed:** 1 Green Cross Code (Richard); **Dan 12 oed:** Tinkerbell (Carolyn); 2. Dracula (Emyr) 3. Sgerbwd (Andrew)

**Cyplau dan 12 0ed;** 1. Punks (Elain a Sian) 2. Drcaula a Sgerbwd (Emyr ac Andrew); 3. Hawaii (Majorettes); **Dan 16 oed** Cydradd 1af Cemlyn a Sioned; **Grwp dan 16 –** Punks:

**Beic wedi ei addurno:** 1. Mr Urdd (Richard) 2. Jenny Lynn; **Dros 16** 1. Iâr (Irene); 2. Hawaii (Nailey); 3. Gwenyn (Wendy); **HYsbysaid dros 16 –** Turkish Delight (Glenys); **Cwpwl dros 16:** 1. Clowns; 2. Punks; 3ydd Iâr Mochyn: **Grŵp dros 16:** Teulu'r Ogof: **Mam a Phlentyn–** Edwina a Christopher; **Nain ddeniadol –** Mona; **Taid hhrdd –** John Bwlch Gwynt ; **Fferrau Tlws** – Glenys

**Cwpan Goffa Mr Cledwyn Jones** , rhodd teulu'r diweddar Mr Cledwyn Jones sy'n cael ei chyflwyno bob blwyddyn am y wisg ffansi orau drwy'r dydd, eleni yn cael ei hennill gan Carolyn, fel **Tinkerbell** Cystadleuaeth dan 12 oed.

Enillwyr y Raffl oedd £75 Mr David Wyn, 3 Rhydfadog; a £25 Mrs Mair Lloyd Owen, Stryd Fawr, Deiniolen.

Y Stryd Harddaf yn ennill Tarian rhoddedig gan Mr Gwilym Williams, Siop Crefft Elidir yn mynd i Rhydfadog. Pwy fydd yn ennill y flwyddyn neaf tybed?

Enw'r tedi: Alaw Mari Hughes yn ennill gyda'r enw Indiana.

DIOLCHIADAU: Dymuna Pwyllgor y Carnifal ddiolch i bawb a fu'n ymwneud ag wythnos y Carnifal mewn unrhyw ffordd er mwyn sicrhau llwyddiant a pharhâd y Carnifal. Mae croeso i unrhyw berson sy'n fodlon helpu gyda threfniadau Carnifal 1989 gysylltu â Mrs Hilda Parry, Llanberis 870723 neu Mrs Rhian Evans, Llanberis 872541. Bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal mis Medi.

CYNGOR EGLWYSI: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis, yn Festri Ebeneser, nos Lun 13 Mehefin. Cynrychiolwyd holl Eglwysi'r Cyngor yn y cyfarfod a chafwyd trafodaethau buddiol ar amrywiol benawdau.

Cyflwynwyd a derbyniwyd Mantolen 1987-88 a mynegwyd pryder gan Mr Idwal Jones, Trysorydd ar y sefyllfa ariannol. Yn yr amgylchiadau penderfynwyd gwahodd Eglwysi'r Cyngor i gyfrannu £10 yr un ar fyrder i goffrau'r Cyngor.

Etholwyd y Parchg. Ifor Williams yn Llywydd am 1988-89, gyda Mrs Jane Eirlys Williams, yn Is-Lywydd, a chytunodd y Trysorydd a'r Ysgrifennydd i wasanaethu am flwyddyn arall. Wrth iddi gyflwyno'r llwyyddiaeth i'r Parchg. Ifor Williams, dymunodd Mrs Lewis yn dda i'w holynydd a diolchodd am y gefnogaeth a brofodd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Hwn oedd cyfarfod olaf o'r Cyngor am y tro, beth bynnag – i'r Parchg. Trefor Lewis cyn ei ymadawiad ef a'r teulu am Hen Golwyn a manteisiodd ar y cyfle i werthfawrogi cefnogaeth y Cyngor tros gyfnod ei arhosiad yn Neiniolen. Cyfeiriodd at nifer safiadau'r Cyngor yn ystod y degawd diwethaf, ac eiddunodd pob rhwyddineb i'r Cyngor yn y dyfodol. Yn ei dro, diolchodd y Llywydd i'r Parchedig a Mrs Trefor Lewis am eu hymroddiad i waith y Cyngor gan ddymuno'n dda iddynt yn eu maes newydd.

Penderfynwyd gohirio ymuno yn yr ymgyrch "Deud wrth Gymru" hyd oni cheir eglurhad gan "Gymru i Grist" ar eu cysylltiad â'r ymgyrch hwnnw.

Lluniwyd rhaglen gweithgareddau'r Cyngor ar gyfer tymor y Gaeaf nesaf, ac estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i'r cyfarfodydd rheini.

Gwahoddwyd y Parchg. Erfyl Blainey i gyflwyno cyfarchion y Cyngor yng Nghyfarfod sefydlu'r Parchg. Trefor Lewis, yn Hen Golwyn, ar nos Sadwrn, 9 Gorffennaf.

Y SEINDORF: Enilwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Mehefin 1. £20 Stanley H Roberts, Pentre Helen, Deiniolen; £15. Windsor Williams, Tai Marian, Deiniolen; £10 Ernest Jones, Porth y Gogledd, Deiniolen.



*Terry Evans, Stryd Newydd yn cael ei gyflwyno gyda chwpan chwaraewr y flwyddyn tîm dan 16 clwb pêldroed Deiniolen.*

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fehefin 6ed o dan arweiniad Mrs J Eirlys Williams y Llywydd. Darllenod Mrs Williams y llythyr misol a chroesawodd y wraig wadd sef Mrs M E Jones Criccieth. Cawsom noson ddifyr iawn gan Mrs Jones yn sôn am hen atgofion. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Eirlys Lloyd Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Beryl Hughes a Mrs Marian Wyn Williams. Enillwyd y raffl gan Miss Jean Maella. Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Mrs Nancy Rowlands. Llongyfarchwyd Miss Nia Land merch Mrs Janice Land am ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn y Drenewydd. Llongyfarchwyd Mrs Eirian Jones ar fod yn Nain am y tro cyntaf. Croesawyd aelod newydd sef Mrs Nan Williams, Llanrug. Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf y 4ydd pan drafodir materion yn ymwneud â'r Sefydliad.

MERCHED Y WAWR: Ar Fehefin 18 llywyddwyd gan Mrs Miriam Lewis yn ein cyfarfod blynyddol. Darllenwyd cofnodion y flwyddyn gan yr ysgrifenyddes Mrs J Eirlys Williams. Diolchwyd iddi am ei gwaith gan y llywydd ac ategwyd gan yr aeldodau. Darllenwyd y fantolen ariannol gan y drysoryddes Mrs Marian Wyn Williams. Diolchwyd yn gynnes iddi hithau am ei gwaith am y 12 mlynedd diwethaf ac ategodd yr aelodau . Atgoffwyd am y penwythnos ym Mangor ar Fedi 16-18. Bydd Tâl aelodaeth yn £4.00 gan gynnwys Y Wawr o Fis Medi mesaf. Enillydd y raffl Mrs Mary Morris. Rhaid oedd ffarwelio a'n llywydd gweithgar sef Mrs Miriam Lewis gan fod y Parch Trefor Lewis a'r teulu yn myned i ofalaeth newydd i Golwyn a Llandrillo. Dymunwyd yn dda iddynt gan Mrs J Eirlys Williams a Mrs Ellen Williams y Bwthyn. Diolchwyd hefyd i Mrs ewis am fod yn Westai y te ar y noson. Diolchodd Mrs Lewis i bawb am yr help a'r cwmni a gafodd fel aelod a Llywydd am yr amser a fu yn Neiniolen. Trenfwyd taith i Nant Gwrtheyrn ar Orffennaf 15. Enwau os gwelwch yn dda i Mrs Peri Evans neu Mrs Beti Wyn Davis. Dyma'r swyddogion am y tymor 1988-89: Llywydd: Mrs Buddug Jones; Is lwydydd: Mrs Jane Jones; Ysgrifenyddes: Mrs Mary Morris; Trysoryddes: Mrs Marian Wyn Williams; Pwyllgor Anabl: Mrs J Eirlys Williams; Dosbarthwr y Wawr Mrs J Catherine Hughes a Mrs Gwladys Jones; Trenfwyr y Teithiau – Mrs B Wyn Davies a Mrs Peri Evans. Aelodau o'r Pwyllgor: Mrs Beryl Hughes, Mrs Megan Price, Mrs Iona Richards a Mrs Nest Efans.

CHWIORYDD: Nos Iau, Mehefin 2 cynhalwiyd cyfarfod yn Festri Disgwylfa. Agorwyd y cyfarfod gyda'r chwiorydd yn cymeryd rhan o ddarllen. Noson ddiwethaf i'n


**IEUAN WILLIAMS**
Glanffrwd
**DEINIOLEN**
**Llanberis 870484**
* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...




**BYSIAU ARFON**
**LLANRUG**
**(Eric Morris)**
**Ffôn: Caernarfon 5175 77858**

OSMOND SHAW
**DEINIOLEN**



**Gwerthu a Thrwsio Teledu Lliw Newydd ac Fel Newydd**
GWASANAETH FFON 24AWR
**LLANBERIS 870545**

llywydd Mrs Miriam Lewis yn ein plith oherwydd bydd yn ymadael i Fae Colwyn â'r Parch Trefor Lewis a Dewi a Dyfrig ddiwedd y mis hwn. Diolchwyd am ei ffyddloneb a'i chwmni hapus. Rhoddwyd anrheg o "Vase" iddi ar ran y chwiorydd gan Mrs Ruth Jones. Pob lwc iddynt ym Mae Colwyn. Estynnir cydymdeimlad â theulu'r ddiweddar Mrs Nansi Rowlands. Y tro nesaf bydd Mrs Nest Evans a Mrs Buddug Thomas yn gwneud y te. Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 7fed.

CLWB ELIDIR: Nawn Mawrth Mai 24ain, bu cyfarfyddiad o'r uchod gyda Mrs Miriam Lewis yn llywyddu. Talwyd teyrnged i'r ddiweddar Kathleen Jones a chofiwyd am y cleifion. Yn dilyn cafwyd hanes eu taith i'r Iseldrioedd gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Eirlys Lloyd Jones. Gan fod y Llywydd yn ein gadael anrhegwyd hi â cherdyn anrheg gan Mrs Mary Hughes yr aelod hynaf. Diolchwyd am yr anrheg a'r sgwrs gan Mrs Lewis. Gwesteion y te oedd Mrs Alwen Jones, Mrs Jennie Wiliams, Mrs Mair Lewis a Mrs Jane C Hughes ac enillwyd y wobr gan Miss Eileen Williams.

Cafwyd cyfarfod pnawn Mawrth 7fed o Fehefin yn y Caban. Llywyddwyd gan Mrs Miriam Lewis. Dymunwyd yn dda i'r hen aelodau oedd yn gaeth i'w cartrefi a chofiwyd am y cleifion. Daeth Mr Collinson o'r Age Concern i esbonio cynllun sydd ar droed i ddechrau Clwb Cinio i'r pensiynwyr. Bydd y cyfarfod cyntaf ar y pumed o Orffennaf yn y Ganolfan. Bydd bws yn gadael Deiniolen ddydd Mercher Mehefin 22ain i Lanrug i ddechrau ar y Cynllun. Diolchwyd i Mr Collinson gan y Llywydd.

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf i'r Llywydd yn ein mysg, dymunwyd yn dda iddi hi a'i phriod y Parchedig Trefor Lewis yn eu maes newydd yn Hen Golwyn. Siaradodd Mrs Ellen Williams ar ran y Cymry a Miss Jean Moeller ar ran y Saeson. Rhoddwyd y te gan Mrs Sallie Lewis, Mrs Hannah Thomas a Mrs Megan P Morris. Enillwyd y wobr gan Mrs Katie Griffiths. Ddydd Gwener Mehefin 17eg aeth yr aelodau am eu gwibdaith flynyddol cafwyd cinio yng Nghonwy ac yna ymlaen am Landudno ac yn ôl drwy Fetws y Coed wedi cael amser a thywydd da iawn.

LLONGYFARCHIADAU: Bu Mared Wyn Sutherland yn llwyddiannus ar ddod yn gyntaf yn yr Arholiad Sirol o dan 14 oed.

Bu Robin Wyn Sutherland yn cymeryd rhan yn nofio noddedig yn y Pwll Nofio yn Ninbych. Casglodd £110 tuag at Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych lle mae yn ddisgybl. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

DIOLCH: Dymuna Gloria Thomas, 35 Rhydfadog ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac am eu cyfraniadau tuag at y Siop ail law yng Nghaernarfon. Gwnaed elw o dros £1,000. Mae'r gwaith wedi bod yn bosibl oherwydd haelioni'r cyhoedd, sydd bob amser yn barod i roi cefnogaeth ac mae'r pwyllgor yn gwerthfawogi eich caredigrwydd. Diolch o galon unwaith eto.

Dymuna Lona Lewis a'r teulu , 36 Rhydfadog ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar o golli mam a nain annwyl. Diolch o galon i bawb.

Carai Nia, Janice ac Eric, Cae Hob ddiolch o galon i'r pwyllgor, ffrindiau a holl bobl y pentref am yr holl anrhegion, cardiau ac arian a dderbyniodd Nia wrth geal ei choroni yn Frenhines Carnifal Deiniolen.

Dymuna Mr a Mrs Edgar Jones, Y Becws ddiolch i bawb o'u cwsmeriaid a'u ffrindiau am eu cefnogi ar hyd yr amser oeddynt yn Deiniolen.

'Buom yn hapus iawn yn Deiniolen a gwanethom lawer o ffrindiau. Dymunwn yn dda i Mr a Mrs Leach a gobeithio y cânt yr un gefnogaeth ag a gawsom ni gan bobl yr ardal'.

Dymuna Mrs Maggie Jones, 3 Bro Deiniol ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed.

Dymuna Robert Evans (Robin Scotch), 12 Hafod Olau ddiolch i'w deulu, cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd tra'r oedd yn Ysbyty Gwynedd yn cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r meddygon a holl Staff Ward Ogwen am eu gofal.

Dymuna Mrs Olwen Pritchard, Glasgoed, Rhosbodrual, Caernarfon a'r plant, Nerys, Noel ac Eirian ddiolch yn gynnes i bawb am eu cydymdeimlad a'u caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn o golli'r Parchedig D.R. Pritchard.

Y PARCHEDIG D.R. PRITCHARD B.A.

Bu farw'r Parchedig D.R. Pritchard yn sydyn nos Wener, Mehefin 10fed, 1988. Ganwyd a magwyd ef yn "Tanyffordd", Gallt y Foel, Deiniolen yn fab i Robert ac Ann Pritchard. Treuliodd flynyddoedd yn gweithio yn Chwarel Dinorwig nes iddo fynd i'r Weinidogaeth ym 1936.

Wedi graddio yng Ngholeg Prifysgol Bangor, bu'n weinidog ym Motwnnog, yn Nwyran yn Sir Fôn, ac yng Nghapel y Garn, Bow Street, hyd ei ymddeoliad.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'i weddw, Mrs Olwen Pritchard, a'r plant Nerys yng Nghaerdydd, Noel ym Mhontypridd ac Eirian yng Nghaernarfon, hefyd â'i wyrion, Rhun ac Iwan yng Nghaerdydd.

Nid oedd ŵr mwy diddorol,
Ofnadwy'r adwy o'i ôl.

**Mr Bill Canaway, Repton**

Bu farw Mr Bill Canaway gynt o Graig Deiniol, Deiniolen. Bu'r teulu yn byw am rai blynyddoedd yn Neiniolen cyn symud i Loegr. Yr oedd Mr Canaway yn awdur ac ysgrifennodd nifer o lyfrau, rhai ohonynt yn seiliedig ar yr ardal hon. Mae'n debyg mai ei lyfr "Sammy Going South" oedd ei nofel enwocaf. Gwnaethpwyd y nofel hon yn ffilm. Cydymdeimlwn â'r teulu sef Michael, Hugh, William a Stephanie. Bu farw ei wraig Pam a'i fab Paul yn ystod y deunaw mis diwethaf.



*Dyma lun o Nia Catrin Land, Cae Hob Deiniolen a ddaeth yn ail yn y Drenwydd ar yr unawd cerdd dant o dan 12 oed, a Lyndsey Vaughan Parry, North Road Deiniolen a ddaeth yn ail ar yr unawd o dan 10 oed. Mae'r ddwy yn cael eu hyfforddi gan Einir Wyn Owen, Rhiwlas ac yn mynd i Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen.*

## YR HEN GAPEL

Troi mewn i'r hen Gapel Wesla
Dyma Dabernacl y Wesleaid
Lle'r addolai'r gwerinol ffyddloniaid
Yn selog y Sul a'r noson waith
Gwibient o flaen fy llygaid llaith.

Cofio cwrdd pregethu dechra blwyddyn
Yr addfwyn Degla, a'r tanllyd Decwyn
Yn cyhoeddi ffordd iachawdwriaeth dyn
"Am olew i'r llusern" y "trawst a'r brycheuyn".

Coeth oedd y bregeth a gwresog y moli
Braint i'w thrysori oedd yr addoli
Am y tywydd neu bellter nid oedd cyfri
Mwynhad oedd y gwrando a diflas y tewi.

Camu i mewn a cael fy syfrdanu
Gan 'rolygfa oedd yn fwy wynebu
Yr hen Gapel heddiw sydd weithdŷ
Golygfeydd i Gwmni Teledu.

Y seddau trefnus a'r dwys ddistawrwydd
Yr alltud i anrhefn a llwch i blesio'r dramodydd
Lle bu pulpud a'i genhadon tanllyd
Ceir tân siafins mewn pobty myglyd.

Yma bu mawl a seiniau Organ
Heddiw dadwrdd morthwyl a sgrech llif drydan
Arogl paent a mwg yn llewni'r aer
Lle gynt bu sôn am Fab y Saer.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**



*Dyma lun ponc o chwarel Dinorwig. Tybir mai Ponc Pen y Garret tua 1920 ydyw, a oes rhywun yn gwybod rhywbeth o'i hanes?*


CREFFT·ELIDIR

STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

**Crefftau llechi**: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill**: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

**Arddangosfa o hen luniau chwarel.**
A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.
**Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)**
**Y Felinheli 670124 (nos)**

# ECO'R IFANC

# ATHLETWYR

## YSGOL BRYNREFAIL

### CYFARFOD ATHELETAU YSGOLION GWYNEDD

Bu nifer o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn llwyddiannus ym Mhencampwriaethau Arfon ac o ganlyniad buont yn cystadlu yn y cyfarfod uchod ar gae'r Normal ym Mangor, ddydd Sadwrn, Mehefin 18fed. Dyma'r canlyniadau:
Kelvin Houston – 1af Naid Driphlyg dan 15eg; Aled Griffiths – 1 af 200 m dan 15eg; Colin Jones 2il 1500 m dan 15eg mewn amser o 4m 30 eiliad sy'n record ysgol newydd.; Jonathan Williams – 2il disgen dan 15eg; Dafydd M Jones – 1af Naid uchel, Bechgyn hŷn.

Bydd Kelvin, Aled a Dafydd yn cynrychioli Gwynedd ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yng Nghwmbran ar yr 2il o Orffennaf. Pob lwc iddynt.



*Goreuon cyfarfod Athletau Ysgol Brynrefail. Cefn o'r chwith i'r dde: Linda Prydderch, Kevin Houston, Colin Jones, Nicola Houston; blaen Sian Jones, Jennifer Clarida, Aled Griffith a Michael Jones.*



*Jennifer Clarida ac Aled Griffith. Victrix a Victor Ludorum, Cyfarfod Athletau Ysgol Brynrefail.*



*Dafydd Meredydd Jones fydd yn cynrychioli Gwynedd ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yng nghystadleuaeth y naid uchel.*

## YSGOL GYNRADD LLANRUG

Disgyblion Ysgol Gynradd Llanrug enillodd y darian am y mwyaf o farciau ym Mabolgampau Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Dyma lun o holl aelodau'r tîm.





*Tîm Ras Gyfnewid y Genethod dan 10 oed— 1af ym Mabolgampau Sir yr Urdd. Rhes flaen chwith i'r dde: Rhian Green, Jackie Gibbins, Angela Humphreys Rhes gefn: (chwith i'r dde) Luned Jones, Catrin Jones (3ydd Naid Uchel) a Dawn Pritchard (eilydd)*



*Tîm Ras Gyfnewid y Bechgyn dan 10 oed: 1af ym Mabolgampau Sir yr Urdd. O'r chwith i'r dde: Dylan Williams, Alan Parry, Daniel Parry Gavin Jones (eilydd) a Dylan Williams.*

# EISTEDDFODWYR

## ... MÔN



*Nia Gruffydd o Lanrug yn arddangos y darian a'r dystysgrif a enillodd yn Eisteddfod Môn — Bro'r Frogwy. Daeth yn gyntaf yr adran Gwnio i ddisgyblion dosbarthiadau 1,2 a 3 ysgolion uwchradd. Daeth Nia yn drydydd hefyd ar y gystadleuaeth chwarae'r piano yn yr un eisteddfod.*

## ... Y DRENEWYDD




*Sion Wyn Hughes o Ddeiniolen. Cyntaf am ei stori "Gwenwyn" yn Eisteddfod Genedlathol yr Urdd, Y Drenewydd. "Stori frawychus" yn ôl y beirniad, mewn "iaith gyhyrog a geirfa gyfoethog". Daeth Sion yn drydydd ar yr unawd pres hefyd.*

## Y DRENEWYDD



*Band Ieuenctid Llanrug ar y llwyfan yn ennill yr ail wobr dan 25 oed.*



*Perfformiad byw gan grŵp "Bron a Methu" o'r Waunfawr a ddaeth yn ail ar gystadleuaeth y Gân Fodern Ysgafn.*

# CORNEL Y PLANT IAU

**Mi fyddwn ni'n gweld mwy a mwy o ieir bach yr haf yn yr ardd yn ystod y tywydd braf ym mis Gorffennaf ac Awst. Ewch i chwilio amdanynt yn y blodau ac edrychwch yn fanwl ar yr holl liwiau hyfryd a'r patrymau prydferth sydd ar yr adenyddd. Bydd rhaid cymryd gofal cofiwch – rhag ofn i chi eu dychryn!**

**Oes rhai ohonoch wedi bod yn y Pili Palas ar Ynys Môn? Mae ieir bach yr Haf o bob cwr o'r byd yno – rhai bach, rhai mawr – pob lliw a llun. Mae'n werth i chi fynd yno am dro rhywbryd. A sôn am hynny – Beth am y tripiau yna? A wnewch chi gofio anfon eich hanesion i'r Gornel? Mi fuasem ni wrth ein bodd cael clywed i ble athoch chi, a beth ddigwyddodd!**


**Cofiwch rŵan, Eco'r Ifanc, Pant Bryn Gwyn, Tan-y-Coed, Llanrug.**
**Hwyl tan mis nesa!**

**GLOYN BYW**

**Dacw fo'n hedfan**
**Ogwmpas yr ardd**
**O flodyn i flodyn**
**Wel tydi o'n hardd.**


**Cofiwch ei enw**
**Ie, glöyn byw,**
**Patrwm o lwiau**
**A beintiwyd gan Dduw.**

**Selwyn Griffith.**



## PÔS Y CLOC

**Fedrwch chi rannu wyneb y cloc yma yn dri rhan, drwy dynnu dwy linell syth a chael cyfanswm o 26 ym mhob un o'r tri rhan?**



**CORNEL JÔCS**

**Cnoc cnoc**
**Pwy sy'na?**
**Martin**
**Martin pwy?**
**Ma'r tin bîns yn y gegin!**

HI HI!! HA HA!!

**Athro: Oes 'na rywun wedi colli gwerth dwy bunt o 'dda da' mewn bag papur?**
**Sion: Fi syr, fi!**
**Athro: Wel, dwi newydd ffeindio'r bag papur!**

**Pam fod Batman yn cario pryfed yn ei boced?**
**Er mwyn bwydo Robin!**

HA HA!!

**Beth sy'n debyg i hanner afal?**
**Yr hanner arall!!!!**


HA HA!! HA HA!!

**Ble roedd Alun pan ddiffoddwyd y golau?**
**Yn y tywyllwch!!**

**Beth yw hoff greision Andrew LLoyd Webber?**
**Quavers!!!!!**

HA HA!!

**ATEB**



# LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan nos Iau Mai 26, dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs A.B. Jones sydd yn cael triniaeth yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Mrs Netta Jones ar ei phenblwydd yn ddiweddar. Dymunwyd hwyl dda i Mrs Jan Davies ar ei hymeliad â Chanada. Cafwyd Bwrdd Prynu a Gwerthu gan yr aelodau. I ddiweddu'r noson cafwyd trafodaeth ar y materion gerbron y Cyfarfod Blynyddol yn Llundain mis Mehefin. Mrs Gwyneth Williams o'r 'Link Instituite" Brynrefail fydd yn ein cynrychioli ar ran y Sefydliad . Diolchwyd i'r gwetwragedd gan Mrs Dilys Jones a Mrs Jan Davies . Y gwestwragedd oedd Mrs Netta Jones, Mrs Hannah Jones a Mrs Arvonia Evans. Enillwyr y raffl oedd Mrs Lizzie Jones a Mrs Helen Morris.

COFIO PENBLWYDD MAM 14.7.88 Hetty Hughes, Rhif 7, Stryd Siarlot, Llanberis

Tyner law a chalon gynnes
Wyliodd rhag i'm weled cam
Dyma'r gair ddaw gyda deigryn
Colled fawr oedd colli Mam.

Oddi wrth Bob ei gŵr a'r plant, Elizabeth, Griff ac Eluned. Hefyd diolch i bawb am eu galwadau ffôn cardiau a llythyrau i ofyn am dad tra bu yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna T.H. Jones, Rallt Goch ddiolch am y cardiau, ymweliadau a chymwynasau lu a dderbyniodd gan berthnasau a chyfeillion yn ystod ei waeledd. Diolch yn arbennig i feddygon a staff Ward Aran yn ysbyty Gwynedd a Ward E2 a G2 ym Mroadgreen, Lerpwl, a'r cyfeillion a'i cludodd i'r ybsytai hyn. Diolch hefyd i Dr Dan Hughes a Staff y clinic yn Llanberis am eu cynorthwy parod. Diolch o waelod calon i bawb.

Dymuna Colin a Valeri James Jones, Glan y Don, Stryd Fawr, Llanberis ddiolch o galon ac yn ddiffuant iawn i'r perthnasau, ffrindiau a chymdogion oll am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, Mrs Violet Jones, Pant y Pistyll, Nebo.

Dymuna Mrs Margaret Jane Roberts, 64 Maes Padarn ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn bedwar ugain oed.

Dymuna David a June o Sling, Tregarth ( gynt o 88 Mes Padarn) ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a'r swm arian a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach Iona Emlyn.

Dymuna Iona a Gwynant, 83 Maes Padarn ddiolch o galon i'w teulu, cyfeillion a chymdogion am y llu caridau a rhoddion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab bach Gavin.

Dymuna Tony Jones, 62 Maes Padarn ddiolch i'w holl deulu a ffrindiau am y caridau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed ar Fehefin 3ydd.

Dymuna John Parry 85, Maes Padarn ddiolch i'w deulu, cyfeillion a chymdogion am bob dymuniad da a charedigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mrs Mary Owen, 50 Dol Elidir ddiolch i'w theulu, cyfeillion a chymdogion am y cardiau a'r dymuniadau da tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Ann Jane Roberts, Rhes Olgra ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei phen blwydd yn 80 oed.

BEDYDD: Dydd Sul Mai 22 yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis bedyddiwyd Elin Mai merch fach Heather a John Gwynedd Jones, Stryd y Ffynnon.

Dydd Sul Mehefin 6ed yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis bedyddiwyd mab bach Carys a Keith Williams, Rock Terrace.

Dydd Sul Mehefin 6ed yng Nghapel Coch, bedyddiwyd Carys Wyn merch fach Ken ac Ann Hughes Stryd Goodman. Gan ei bod yn flwyddyn y beiblau cafodd Carys rodd o'r Beibl Gymraeg Newydd.

LLONGYFARCHIADAU i Tony Jones, Maes Padarn ar achlysur ei benblwydd yn 18 oed.

Llongyfarchiadau i Mrs Ann Jane Roberts ar ahlysur ei phenblwydd yn 80 oed.

i June a David ar enedigaeth merch fach Iona Emlyn.

i Geraint Morris, 54 Dol Elidir ar achlysur ei benblwydd yn 21oed.

PRIODI: llongyfarchiadau i Kevin ac Yvonne ar achlysur eu priodas ar Fai 21ain.

hefyd i Owain a Sam ar achlysur eu priodas ar Fai 28ain.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Barbra Owen a'r plant yn eu profedigaeth o golli mam a nain.

â Mr T.J. Roberts, June a Delyth yn eu profedigaeth hwythau.



*Mr Griffith Roberts, 57 Dol Elidir yn sgwriso â'r Tywysog Philip ar achlysur ei ymweliad â'r Sied Fawr yn Chwarel Dinorwig yn 1958.*

â John, Olga, Cheryl a Karen, Rock Terrace a'r teulu oll yn eu profeidgaeth o golli tad a thaid sef Wiliam D Willaims gynt o 1 Stryd Bethesda.

â Mrs Katie Lewis, Gwyneth a Susan, Mrs Mary Davies a Mrs Elsie M Lewis yn eu profedigaeth o golli priod tad, taid, brawd a brawd yng nghyfraith sef Mr Morris Noel Lewis, Dol Eilian.

â Colin James Jones, Glan y Don a'r teulu oll yn eu profeidgaeth o golli mam.

YSBYTY: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol:
Mrs Enid Prydderch, 10 Vaynol Cottages; Mrs Beryl Owen, Maes Padarn; Mrs Enid Ll Roberts wedi dychwelyd i'r ysbyty; Alwena Roberts, Idan House; Dawn Roberts, 2 Stryd Bethesda; Mary Owen, 50 Dol Elidir; Nurse Glenys Parry, Stryd Ceunant; Mrs Mary Davies, Mona, Arvon Terrace; Mr John Parry, Maes Padarn; Mr Ceris Hughes, Maes Padarn; Mr Iorwerth Wiliams, Pant Du; Mrs Elizabeth Brymer Jones, Dol Elidir.

DIOLCH: Dymuna Catherine, Jan a mamau'r ysgol Feithrin, Llanberis ddiolch i Karen Owen, Dol Elidir am fynd o amglch mewn gwisg Welsh Lady am wythnos gyfan i godi arian at y mudaid. Casglwyd oddeutu £400. Diolch hefyd i Mr Alun Roberts, Nant Peris, yntau wedi codi arian i'r mudiad trwy dorri ei wallt i gyd i ffwrdd. Mae'r cyfanswm i fyny i rŵan tua £200 gyda mwy i ddod i mewn. Diolch yn fawr i'r ddau ohonoch ac i'r pentref am eu cefnogi.

SANT IOAN ADRAN Y BADGERS: Dymuna pwyllgor y mudiad ddiolch i bawb am eu cefngaeth yn y Bingo a gynhlaiwyd yng Ngwesty Dolbadarn Nos Wener Mehefin 17. Diolch i siopau y pentref am y rhoddion at y gwobrau ac i Mr Aneurin Jones perchennog y Gwesty am ei gymwynas. Gwnaed elw o £171.

CARNIFAL: Os oes rhywun eisiau rhoi nwyddau neu roddion tuag at y Carnifal a fyddwch cystal â chysylltu â Mrs Dilys Phillips Coed y Glyn neu Carys Hughes, 1 Stryd Yankee erbyn 8ed Gorffennaf os gwelwch yn dda.

HELFA DRYSOR: Bydd helfa drysor ar droed i Blant ddydd Sadwrn 9fed o Orffennaf. Plant ysgol Dolbadarn i gychwyn o Angorfa Stryd y Ffynnon am 10 o'r gloch y bore, Plant ysgol Brynrefail am 10.30 o'r gloch y bore.

CLWB Y MAMAU: Cynhaliwyd Bingo gan y mudaid uchod ar y "Cancer Research" gwnaed elw o dros £100. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Hoffai teulu y diweddar Mr Morris Noel Lewis ddiolch o galon am yr holl gardiau a charedigrwydd gan gyfeillion a chymdogion yn ystod eu profedigaeth. Diolch i bawb.

# CEUNANT

**Gohebydd: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)**

GWELLHAD BUAN: Croeso adre o Ysbyty Gwynedd i Mr Owen Jones, Y Garth. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

LLONGYFARCHIADAU i Gwenno Parri, Morwel ar ei llwyddiant yn ei arholiad piano gradd 7. Mae Gwenno yn ddisgybl i Miss Lowri Prys Roberts.


SELWYN MORRIS
Adeiladwr a Threfnydd Angladdau
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2841

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

# DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

HWYL HAF: Ydi mae'r trefniadau yn mynd o nerth i nerth a phawb yn edrych ymlaen ar yr hwyl yn Allt Ddu ar brynhawn Sadwrn Gorffennaf 9ed. Wrth gwrs bydd y tywydd yn chware rhan bwysig a'r gobaith yw y cawn ddiwrnod braf. Os digwydd bod y tywydd yn anffafriol yna byddwn yn cynnal y gweithgareddau yn y Ganolfan. Yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn yr Eco mis dwytha rydym wedi newid peth ar y trefniadau gwreiddiol. Yn awr bydd y tâl mynediad i'r oedolion yn 50c a 20c i blanr a dyma restr llawn o'r cystadlaethau:

Gwisg Ffansi: i rai dan 5 oed; dan 8 oed; dan 12 oed ac oedolion ac fel grŵp; I blant o bob oed: 1. Ras Wellingtons (yn llawn o ddŵr); 2. Ymladd clustogau; 3. Ras Beics (rhwystrau); 4. Ras ŵy ar lwy; 5. Taflu Wellingtons

Cystadlaethau i oedolion: 1. Ras newid dillad; 2. Ras babi mewn berfa.

**PWYSIG:** Bydd yn rhaid i bawb sydd eisiau cystaldu gofrestru rhwng 1 - 1.30. Hefyd ein gobaith yw y bydd stondinau yn gwerthu pob math o nwyddau a bwydydd ar y cae. Felly dewch yn llu i ymuno yn yr hwyl. Bydd yr elw ariannol a wneir yn mynd tuag at Gronfa Apêl Lleol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990.

LAMP NEWYDD: Mae'r Cyngor Cymuned wedi llwyddo i osod lamp newydd yn Allt Ddu – wrth ymyl lle mae'r bysus yn troi. Roedd y lle arbennig yma yn dywyll iawn o'r blaen ac felly fe ddylai'r Sefyllfa fod yn well o hyn ymlaen. Hefyd o fewn y mis nesaf bydd y tyfiant ar y llwybrau cyhoeddus yn cael ei dorri. Y ffordd orau wrth gwrs o ddal y tyfiant i lawr yw drwy gerdded digon ar y llwybrau ac mae'n dda gweld bod rhai ohonoch yn eu cerdded yn aml. O safbwynt y llwybr sydd yn mynd heibio i Pen Rallt yna nid oes rhaid i neb orfod mynd oddi ar y llwybrau oherwydd bod gwaith atgywieito yn cael ei wneud ar y Tŷ wrth ymyl y llwybrau. Mynnwch bob amser yr hawl i gerdded ar lwybrau cyhoeddus lle bynnag y maent.

EGLWYS ST. MAIR: Hoffai aelodau Eglwys St. Mair ddiolch i bawb a gefnogodd yr Ŵyl Bregethu a gynhaliwyd ar ddydd Sul 19 Mehefin pryd y traddodwyd y bregeth han y Parch R. Glyndwr Williams a fu ar un aden yn offeiriad ym mhlwyf Llanddinorwig. Fel y gellid tybio cawsom bregeth hynod o amserol ganddo a chafwyd bendith llawn o'r Gwasanaeth.

DIOLCH: Dymuna Robert Evans (Robin Scotch) 12 Hafod Olau Deiniolen ddiolch i'w deulu cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd tra'r oedd yn Ysbyty Gwynedd yn cael llawdriniaeth yn ddwieddar. Diolch hefyd i'r meddygon a holl staff Ward Ogwen am eu gofal.

DIOLCH: Dymuna Florrie Davies, Bro Elidir ddiolch o galon i'w pherthnasau cymdogion a ffrindiau am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd a Bryn Seiont ac wedi dod adre, hefyd diolch yn fawr i staff y ddwy ysbyty am eu gofal. Diolch yn fawr i bawb.

TAN Y MARCHLYN: Wedi darllen llythyr Margaret Cynfi Griffith, Deiniolen yn rhifyn Mehefin o Eco'r Wyddfa yn ymateb i'r cais am wybodaeth ynglŷn â Tan y Marchlyn fe'm cymhellwyd innau i droi fy atgofion trosodd gan feddwl y gallwn innau ychwanegu rhai ffeithiau eraill a allai fod o ddiddordeb.

Yn ystod dyddiau ysgol fe arferwn fyned yn bur aml i Tal y Waun gan fod bechgyn o'r un oed 7a minnau yn ymgynull yno. Fe fyddem yn cael cwmni Hughie Ffowc Wiliams Pen y Buarth a'i dad yntau yn dilyn esiampl ffermwr Tal y Waun yn dod o amgylch yr ardal mewn car a cheffyl i werthu llefrith. Nid oedd dydd y llefrith wedi ei bastwreiddio mewn poteli wedi dechrau yr adeg honno felly peint mewn can neu siwg a arferem ei gael.

Enwau y tai cyfagos oedd Pen Parc, Bryn Gro Pen Bryn Gwyn a Tan y Marchlyn; ac onid yw'r enwau soniarus hyn yn fiwsig emswyth i'r glust, ac yn dangos gymaint oedd gan ein hynafiaid i'w gyfrannu i'n byd cyfoes? Ein dyletswydd ninnau yw trosglwydd'r enwau hyn i gyfoethogi'r dyfodol.

Fe arferem ni gysylltu y brodyr Harry Roberts, William Roberts a Thomas Roberts â Than y Marchlyn gan mai yno y ganwyd hwy. Yn ddiweddarach roedd Mr Marry Roberts yn byw mewn tŷ heb fferm ar Gallt y Foel, Deiniolen, William Roberts yn Gorlan Uchaf a Thomas Roberts yn Hafod y Braich, y ddau olaf yn cadw buwch neu ddwy ac yn codi gwair ar gyfer porthiant yr anifeiliaid yn eu mân ddaliadau. Roedd tymor cario gwair yn amser pwysig – weithiau brwydro yn erbyn tywydd anffafriol, ac fe arferwn gynorthwyo i gario gwair gyda rhaffau mewn amryw o'r ffermydd bach hyn. Yn nes i'r gaeaf fe gaem ambell bwys o fenyn i ddangos gwerthfawrogiad o'n llafur, ac roedd llaeth enwyn yn dderbyniol iawn hefyd. Arferai nhad daeru bod 'posal llaeth' yn rhagori ar whisgi i chwysu anwyd allan.

LLWYDDAINT: Mae hi'n anodd mesur llwyddiant ymgeiswyr o Ddinorwig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd oherwydd ni roddir y clod i ardaloedd fel y cyfryw, ond yn hytrach i'r adran y perthyn yr ymgais iddi. O ganlyniad maent yn dod a bri i adran Eryri. Serch hynny fe ddeallwn bod Mr Hefin Jones, a anwyd a'i fagu yma ym Maes Eilian wedi arwain pedwarawd offerynol o ieuenctid Band Deiniolen a'u cynorthwyo i fod ar y blaen yn eu cystadlaeuaeth.

Fe allai y caniateir nody personol gan eich gohebydd . Nifer o flynyddoedd yn ôl bellach roedd Hefin a Lloyd Thomas wedi ymuno â nifer o ieuenctid oedd yn awyddus i dysgu "chwarae corn" wedi i rai laesu dwylo fe wnaed lle i'r ddau yn y band swyddogol. Fe aeth Lloyd i Ganolbarth Lloegr ac erys yn aelod o fand yn y fan honno ac mae'n teithio milltiroedd i fyned i'r ymarferiadau mewn lle o'r enw Wolverton ger Milton Keynes a lle cedwir y tren Brenhinol.

COFION: Fe aeth Mrs Gwladys Evans o Swn yr Awel, Gallt y Foel i un o bungalows yr hen bobl yn Neiniolen. Fe gludwyd Miss Florrie Davies, Bro Elidir hithau i'r ysbyty am driniaeth ond pleser yw cofnodi iddi hithau ddod adre'n ôl ar y 14eg o Fehefin, ac mae'n hapusach yn ei hen gynefin. Un o'r rheini yw Florrie sy'n cieiso cyflawni popeth ar ras wyllt. Er ei lles ei hun fe ddylai fodloni ar fod yn fwy hamddenol.

Hyfrydwch i ni yw cael cyfeirio ar y ffaith bod Mrs Nesta Jones, 2 Llys y Gwynt, Penisarwaun (gynt o Tan y Bryn, Dinorwig) yn gwella'n foddhaol ar ôl dychwelyd o Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Ar Sadwrn Mehefin 4ydd roedd yn dathlu ei phen blwydd yn ddeg a phedwar ugain oed. Roedd ganddi lais contralto ardderchog ac mae gennyf innau atogf melys ohoni yn dod i'm hen gartref Foel Gron i redeg dros ryw unawd neu'i gilydd gyda'm tad Richard Owen Thomas a adnabyddid fel Dic Bwlchgwynt.

Un arall sydd wedi cyrraedd oedran teg yw Mrs Maggie Ecans, Dublin House, sy'n awr yn aros yng nghartref yr henoed Bron Eryri hithau er wedi ei gorfodi i symud ardal yn ymddiddori yn y pethau gorau.

Wedi derbyn triniaeth i'w llygaid mae Mrs Mary E Jones, Ty'n Fawnog ac wedi cael spectol newydd a chadair olwyn yn gystal i'w chynorthwyo i fyned allan. Oddi cartref mae Mrs Dora Jones, Bryn Hyfeyd ar hyn o byrd yn atgyfnerthu ar ôl syrthio'n ddiweddar. Rhaid crybwyll Mrs Elizabeth Jones, 9 Maes Eilian, hithau'n hyderus y caiff ddychwelyd at ei chymdogion a'i chyfeillion.

Mae'r tywydd wedi bod yn gymharol garedig tuag at y thai a nodwyd sydd wedi myned ymlaen mewn dyddiau.

Fe fu Mr Roberts Evans yn Ysbyty Gwynedd Bangor am driniaeth feddygol ac yn bresennol y mae'n aros yn 7 Maes Eilian i ad-ennill ei nerth, anfonwn ein cofion atoch i gyd.

COFIWCH AM YR
HWYL HAF
ALLT DDU,
DINORWIG
Pnawn Sadwrn 9fed
Gorffennaf
Chwaraeon
Stondinau
CROESO CYNNES I BAWB


UNED HYBU IECHYD – AWDURDOD IECHYD GWYNEDD
FFAIR IECHYD
ORIEL ERYRI, LLANBERIS

CURIAD CALON CYMRU
Ar'i hôl hi!
Dydd Llun – Dydd Sadwrn Gorffennaf 11-16, 1988 10 – 4 o'r gloch
ARDDANGOSFA BYWYD IACH
Gwybodaeth am – fwyta'n iach, ysmygu, alcohol, cyffuriau, gofal dannedd
Gwasanaeth mesur pwysedd gwaed a profi ffitrwydd
Y CWBL YN RHAD AC AM DDIM

Y Bistro
Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)
CURIAD CALON CYMRU
CURIAD CALON CYMRU

CABS
THOMAS
DEINIOLEN
Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Llanberis 871049

# MWY O ENILLWYR O'R DRENEWYDD

## BUDDUGOLIAETH I BEDWARAWD DEINIOLEN



*Aelodau o Seindorf Deiniolen ar gae yr Eisteddfod gyda'i hyfforddwr, Mr Hefin G Jones, yn dilyn eu gwobr gyntaf i'r grŵp offerynnol dan 25 oed.*

## PARTI DAWNSIO GWERIN



*Adran Bentref Llanrug, a ddaeth yn ail yn eu cystadleuaeth i bartion dawnsio gwerin dan 15 oed.*



*Gwenan Mair Roberts o Lanrug a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth i offerynnau llinynnol dan 15 oed.*



*Iwan Williams o Ddeiniolen, enillydd Tlws Llety Cymro ar yr unawd pres o 15-19 oed.*


**Diolch i bobl Penisarwaun am gynnig blygu Eco Medi**

**DRAENOG**



Gwisg wig neu byddi gignoeth – neu olew
Neu eli, ŵr annoeth;
Heulwen wnaeth dy ben rhy boeth
I'w drin gan feddyg drannoeth.

Hufen Nifia

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.**
**YSGOL YRRU OFALUS**

* **Gwasanaeth 7 diwrnod**
* **O ddrws i ddrws**
* **Control Deuol**

**D L**

**PRITCHARD**
**43 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

**Aled Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

**4 Bryn Eglwys**
**Penisarwaun**
**Ffôn: Llanberis 871047**

**SNOWDONIA**
**WINDOWS & DOORS (GWYNEDD) LTD**

AM FFENESTRI A DRYSAU U. P.V.C.


Dim Paentio — Dim stumio
Dim Pydru — Dim trafferth
Dim Rhydu — Dim ond ffonio...

**CAERNARFON 2935 (Swyddfa)**
**neu LLANBERIS 870795 William Roberts**

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

**ERIC JONES**
**17 BRYN TIRION**
**PENISARWAUN**
**Ffôn: LLANBERIS 872421**

**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**
**Ffôn:**
**Y FELINHELI 670556**



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.**

DIOLCH: Dymuna Mrs Megan Jones, 21 Dolafon, Cwm-y-glo ddiolch o galon i bawb o ardal Llanrug a gyfrannodd at y siop ail law yng Nghaernarfon ar y Spina Bifida. Gwnaed elw o dros £1,000. Diolch am y rhoddiaon ariannol hefyd. Dywed bod y gwaith wedi bod yn bosibl oherwydd haelioni pobl yr ardal sydd bob amser yn barod i roi cefnogaeth.

PROFEDIGAETH: Bu farw Mr Richard Morris Thomas, 81 oed yn dawel mewn ysbyty yn Sheffield ar Fai 14eg. Roedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs David Thomas, hen deulu Penycae a Pen y Greuor. Gedy wraig, mab a merch, chwaer sef Mrs Lily Humphreys ym Mhenygroes a chyfnither sed Miss Mairwen Glyn Roberts Ganllwyd, Bryn Meolyn. Estynnwn win cydymdeimlad i'r teulu.

LLONGYFARCHIADAU i Dr John Williams man Mrs Jennie Williams, Bod Fair a'r diweddar Llewelyn Morgan Williams, ar ei dderbyn yn cymrawd Coleg Brenhinol Osbtetreg a Gynacoleg (F.R.C.O & G.)

PÊL-DROED: Clwb 200. Mis Mai. Yr enillwyr oedd E.W. Hughes, dan ofal Banc y Midland, Caernarfon £40; R M Parry, Glascoed, Penisarwaun £20; Mrs M Parry Stad Minffordd, Llanrug £10.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir ein cydymdeimlad â Mrs Hannah Lewis, Fron Helyg ar farwolaeth ei mam ym Mrynsiencyn yn ddiweddar.

GWELLHAD: Dymunir gwellhad buan i Mrs Huw Thomas, Bryn Gwenallt a hefyd i Mrs Vera Williams, Awelon, Ffordd yr Orsaf ar ôl eu llawndriniaethau yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Vera, Awelon, ddiolch o waelod calon i'w theulu ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

PONTRHYTHALLT

Yn ystod yr oedfa Bore Sul, derbyniodd y gweinidog y Parch John Morris B.D., Feibl Cymraeg Newydd i'w roi ar y Pulpud, gan Mr Emrys a Mr Meurig Owen er cof am eu rhieni, Mr Humphrey Owen, a Mrs Laura Grace Owen, Isallt.

Cyfarfu Pwyllgor y Gymdeithas Undebol nos Iau i drefnu rhaglen gogyfer â'r tymor 1988-89. Llywyddwyd gan Mr Ifor Williams, Hafan Elan.

DIOLCH: Dymuna Dwynwen a Steven Owen, 2 Gilfach Wen, Porthaethwy, ddiolch i'w rhieni, teulu a ffrindiau am y llu cardiau ac anrehgion ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i Tudur Parry, Bryn Golau, ar ennill gradd B.A. yng Ngholeg Politechnic Lerpwl.



PRIODAS: Dymuniadau gorau a phob bendith i Karen Jones, Bwthyn Bryn Coch a Mr Richard Vipond, Caergrawnt a briodwyd yng Nghapel Mawr Llanrug ar Mehefin 5ed. Gwasanaethpwyd gan y gweinidog y Parch John Morris a'r Parch W O Roberts. Yr organyddes oedd Mrs Mair Jones, Ogwen.

YN YR YSBYTY: Rydym yn dymuno gwellhad llwyr a buan i Lowri merch fach Derek a Delyth Pritchard, Trigfa sydd ar hyn o bryd yn ysbyty Alder Hay Lerpwl.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau a Phil a Beryl Griffith, Llecyn ar enedigaeth merch fach, Fflur Angharad, chwaer fach i Meleri.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Thomas, Judith Jones a Delyth Humphreys o Ysgol Sul Pontrhythallt ar wneud mor dda yn yr arholiad sirol, Henaduraeth Arfon. Da iawn chi.

YR URDD: PWYLLGOR APÊL LLANRUG EISTEDDFOD YR URDD 1990: Cynhelir Garddwest yng Ngerddi Bryn bras brynhawn Sadwrn Gorffennaf 2, am 1.30 o'r gloch, gyda chaniatâd caredig Mr a Mrs Gray Williams.

Bydd yno Stondinau Cacennau, Bwyd, Cynnyrch Gardd, Poteli, Gwaith llaw, Fferins a Lemonêd yn ogystal â Raffl a gemau o bob math.

Derbynnir cyfraniadau at y stondinau gan unrhyw aelod o'r pwyllgor neu'r Ysgrifennydd Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Trefnir bwsiau i redeg o'r Llythyrdy i Bontrhythallt ac i Fryn Bras am 1.15, 1.30 1.45 a 2.00 o'r gloch ac yn ôl i'r pentref ar ddiwedd y prynhawn.

Cawn adloniant gan ddoniau lleol.

Bydd digon o ddiddori a denu bryd pawb ac edrychwn ymlaen at eich gweld i gyd yno.

MERCHED Y WAWR: Ar nos Fawrth, Mehefin 14eg aeth 38 o aelodau'r gangen i Nant Gwrtheyrn. Cafwyd noson fendigedig, tywydd heulog braf. Cerddodd y mwyafrif i lawr i'r Nant a rhai i fyny hefyd. Roedd y bws mini ar gael i'r gweddill.

Pan gyrhaeddom y Nant, roedd pryd o fwyd rhagorol yn ein haros. Ar ôl bwyta, aethpwyd gyda athro'r dysgwyr i'r Capel lle cawsom sgwrs ddiddorol ar gefndir hanesyddol y Nant a'r datblygiadau a wnaethwyd ar ôl i'r Dr Carl Clowes gael y syniad o wneud y Nant yn Ganolfan Iaith. Yna ymwelwyd â rhai o'r tai sydd wedi eu hadnewyddu. Cafwyd golygfa wych o'r môr a'r hen chwarel ar y daith i fyny'n ôl.

Diolchwyd i'r ysgrifenyddes a phawb oedd yn gyfrifol am wneud y noson yn llwyddiannus gan y llywydd, Mrs Menna Williams. Dewiswyd Mrs Heulwen Evans yn is-ysgrifenyddes, a Mrs Gwenda Roberts yn aelod ychwanegol ar y pwyllgor am dymor 1988-89. Dymunodd y llywydd yn dda i'r swyddogion newydd am y tymor nesaf a diolchodd Mrs Jennie Williams i Mrs Menna Williams a Mrs Joan Griffith am eu gwaith yn y tymor oedd yn terfynu gyda'r wibdaith.

DIOLCH: Dymuna Mr Paul Kelly, Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor "Cancer Relief McMillan Fund" ddiolch o galon i'r canlynol am eu hymdrech ardderchog yn casglu o ddrws i ddrws yn ardal Llanrug. Diolch hefyd i'r cyhoedd am eu cyfraniad anrhydeddus.

Mrs Vera Williams £24.64; Mrs Sheila Williams £19.37; Mrs Helen Pari £18.99; Mrs Eryl Roberts £17.97; Mrs Mary Parry £14.23; Mrs Bet Hughes £14.23; Mrs Carys Parry £11.14; Mr Cecil Williams £10.17; Mrs Cynthia Owen £7.76; Mrs Betty Roberts £7.22.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd Cymdeithas y Chwiorydd Pontrhythallt pnawn Iau Mehefin 23ain. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs J Roberts, Elidir View.

Yn dilyn cafwyd Trafodaeth ar Ofal yr Henoed hyn wedi i nifer o'r aelodau fod yn y cyfarfod gynhaliwyd yn Festri Capel Mawr, dan nawdd Awdurdod Iechyd Gwynedd.

Gwesteion y Te oedd Mrs D Williams, Meirionfa, a Mrs J. Ll Wiliams, Bod Fair.

Bydd y cyfarfod nesaf pnawn Iau Gorff. 21ain am 2 o'r gloch.

PLANT YN DIDDORI'R HENOED: Bu plant yr ysgol gynradd yn diddori henoed y cylch yn Hafan Elan ac yn Festri'r Capel Mawr yn ddiweddar. Cafwyd rhaglen amrywiol o ganu ac adrodd unigol, sgets, yn ogystal ag eitemau cerddorol gan blant y dosbarth derbyn a chôr yr ysgol.

# CAEATHRO

**Gohebydd: Mrs Beryl Roberts Geraillt, Erw Wen**

CROESO i Iwan Parry Jones, mab bach newydd i Nia a Gareth Parry Jones, Bryn Eglwys, a brawd bach i Deian.

LLONGYFARCHIADAU i John Ellis Pritchard, 8 Bryn Gof ar ei benblwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

i Stella Jones, LLain Meddygon ar ei dyweddïad.

GER Y TÂN: Mis diwethaf cafwyd noson hwyliog iawn yng Nghastell Cidwm wedi ei threfnu gan Dilys Griffiths. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Gorffennaf 6ed pryd y ceir noson yn Nhŷ Golchi. Enwau i Jean neu Doris cyn gynted ac sy'n bosib os gwelch yn dda. Daw'r noson yma â blwyddyn lwyddiannus iawn i ben; ni fydd cyfarfod ym mis Awst.

DIOLCH: Dymuna Mr P Kelly (Cadeirydd) ac aelodau pwyllgor Cancer Relief Macmillan Fund ddiolch o galon i'r caslgyddion am eu hymdrech yn casglu o ddrws i ddrws. Diolch hefyd ir cyhoedd am gyfrannu mor anrhydeddus trwy Mrs M Henderson a Mrs L Jones. Casglwyd £37.27 yng Nghaeathro.

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waenfawr yn y Festri yng Nghaeathro nos Lun Mehefin 20fed gyda Clive James, Hafan fel Cadeirydd. Adroddwyd gan y Clerc fod yr ysbwriel ar yr hen lôn i Bontrug wedi ei glirio ar ôl pwysau gan y Cyngor. Hefyd fod arwyddion wedi cael eu codi ar rai llwybrau cyhoeddus. Penderfynodd y Cyngor yn unfrydol wrthwynebu'r cais cynllunio i adeiladu wal a ffens o amgylch yr hen stabl ceffylau gyferbyn â'r ffordd i fynedfa Tyddyn Llwyni.

Y CAPEL: Pregethir gan y canlynol ar y Suliau ym mis Gorffennaf:

3ydd – Parch H Jones Parry; 10fed Cyfarfod Gweddi am 10 y bore; 17eg Parch H Gwynfa Roberts; 24ain Parch W O Roberts; 31ain Mr R Aled Roberts. Cynhelir pob gwasanaeth am 2 y prynhawn ac estynnir croeso mawr i bawb.

PLAID CYMRU: Cynhelir cyfarfod cyffredinol Blynyddol y gangen leol yn Nhafarn y Goat Llandwnda, nos Fercher Gorffennaf 6ed am 8 yr hwyr.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD: Diolch i bawb a roddodd eitemau ar gyfer y stondin gacennau ar y Maes yng Nghaernarfon er mwyn codi arian at Apêl Caeathro, Rhosbach a Phontrug. Gwerthwyd £108.02 o eitemau ac ar ôl tynnu rhai costau gellir ychwanegu £83.02 at y gronfa leol.

# DRAENOG



## LLONGYFARCHION

..... i Bwyllgor Carnifal Llanrug am drefnu raffl fawreddog, a phenderfynu dileu'r arferiad o ddwy-ieithrwydd ar y tocynnau. Trueni iddynt lynu at y syniad mai **SAESNEG** yw iaith frodorol y pentref.

... i drefnwyr Cyngor Henoed am ddiwrnod arbennig yn Festri Caepl Mawr, LLanrug a neuadd gymuned **Havan Elan** – ond rhag cywilydd iddynt am feddwl mai'r di-Gymraeg yn unig sy'n cyrraedd oedran ymddeol!


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
*PEN CIGYDD Y FRO*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

**Pwyllgor Apêl Llanrug Eisteddfod yr Urdd 1990**
**GARDDWEST**
**Sadwrn Gorffennaf 2 am 1.30 y prynhawn yng Ngerddi**
**BRYN BRAS**
**Stondinau Lluniaeth Gemau Raffl**
**Adloniant gan ddoniau lleol**
Mynediad: Oedolion 50c plant a phensiynwyr 25c
Bydd bws o'r llythyrdy i Bontrhythallt ac i Fryn Bras am 1.15, 1.30, 1.45, 2.00 o'r gloch

**GERAINT OWEN**
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
**Cil-y-Mynydd**
**WAUNFAWR**
**Ffôn: Waunfawr 552**

# Y DAITH RYDDID

Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 16, 1988 fe fydd gorymdeithwyr yn cychwyn o Aberffraw, Ynys Môn ar Daith Marathon i gyrraedd Casnewydd yng Ngwent, cartref yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Nid taith gyffredin mo hon, gan y bydd yn nodi dechrau cyfres o deithiau iawnderau sifil, fydd yn pwysleisio cyflwr difrifol ein cenedl a'n pobl wrth inni agosàu at flynyddoedd terfynol yr ugeinfed ganrif.

Mae ein cenedl ar ei phengliniau – 'does dim angen eich hatgoffa o'r sefyllfa druenus sy'n wynebu ein pobl. Tlodi, diweithdra, amddifad cymdeithasol, ymelwad economiadd, ymfudiad – yr holl ffactorau hyn, ynghyd â gorchyfygiad drwy'r llyfr sieciau a'r sefyllfa trefedigaethol sydd yn gyfrifol am yr argyfwng enbyd sydd yn arwain i ddifodiant y genedl.

Gadewch inni felly, sefyll a brwydro. Gordymdeithiwn ymlaen tuag at ryddid. Mynnwn ein hawl i fod yn rhydd i benderfynu ein tynged drwy orymdeithio – fel gormymdeithiodd dynion duon ar Washington a'r un modd y gwnaeth yr Indiaid Cochion ar "Wounded Knee" a'r Gwyddelod o Belffast i Deri.

Serch hynny, y tro hwn, pan fyddwn yn gorymdeithio, nid fel y glowyr yn strydoedd Llundain gyda basnau cardota yn eu dwylaw na fel heddychwyr i 'Greenham Common' ond fel Cymry yn hawlio ein rhyddid a chyfiawnder.

Dibynna llwydiant y daith ryddid yn fawr ar eich cefnogaeth a'ch cyfraniad chi fel unigolion, felly cysylltwch â ni cyn gynted ag sydd posib. Os ydych am ein helpu o ddifrif dechreuwch drefnu yn lleol nawr. A fedrwch chi amgau amlen wedi ei stampio gyda unrhyw ohebiaeth a'i ddanfon i Gymdeithas Cyfamod y Cymry Fydd, Tŷ Cenedl, Canolfan y Sgubor, Heol Alecsandra, Aberystwyth, Raliau Dyddiol:

Yn ychwanegol i'r orymdaith fe fydd cyfres o Raliau, un bob dydd, gyda siaradwyr gwâdd yn eu hannerch, gan ganolbwyntio ar broblemau dwys ac amrywiol sydd yn wynebu pob cymuned o dan fygythiad ar hyd y daith.

Bydd rhan olaf y daith yn cychwyn o Goed-Duon ac yn dilyn yr un llwybr a gymerwyd gan y Siartiaid ar eu taith chwyldroadol i Gasnewydd ym 1839, ac yn gorffen fel ei rhagflaenydd arwrol y tu allan i'r 'Westgate Hotel', Casnewydd, ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 30.

Y canlynol yw'r amserlen am bob rali:
**Sadwrn,** Gorffennaf 16, Aberffraw 12.00 canol dydd; **Sadwrn,** Gorffennaf 16, Y Felinheli 4.00 p.m.; **Llun,** Gorffennaf 18, Morfa Bychan 3.00 p.m.; **Mawrth,** Gorffennaf 19, Brithdir 4.00 p.m.; **Mercher,** Gorffennaf 20, Machynlleth 3.00 p.m.; **Iau,** Gorffennaf 21, Aberystwyth 3.00 p.m.; **Gwener,** Gorffennaf 22, Derwen Gam, 3.00 p.m.; **Sadwrn,** Gorffennaf 23, Castell Newydd Emlyn 3.00 p.m.; **LLun,** Gorffennaf 25, Caerfyrddin 4.00 p.m.; **Mawrth,** Gorffennaf 26, Porth Tywyn 3.00 p.m.; **Mercher,** Gorffennaf 27, Tregwyr, 2.00p.m.; **Iau,** Gorffennaf 28, Maesteg 4.00 p.m.; **Gwener,** Gorffennaf 29, Pontypridd 4.00 p.m.; **Sadwrn,** Gorffennaf 30, Coed Duon 10.00 a.m.; **Sadwrn,** Gorffennaf 30, Casnewydd 4.00 p.m.
**Llun,** Awst 1, Yr Eisteddfod. Gorymdaith o Gasnewydd i fewn i'r Steddfod i'w dilyn gyda cyfarfod ym mhabell y Cymdeithasau.

# LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Gellwch weld y llyfrau canlynol ar silffoedd eich siop lyfrau leol neu yn y llyfrgelloedd.

**Rhyddiaith Gymraeg Newydd 1750-1850**
Gol. Glyn M Ashton
Gwasg Prifysgol Cymru £6.95
*Y drydedd gyfrol mewn cyfres o dair sy'n cynnwys detholion o ryddiaith o'r bymthegfed ganrif hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.*

**Dafydd ap Siencyn a'r Gwalch Glas**
Gan Emrys Evans
Gwasg Carreg Gwalch £1.75
*Y diweddaraf yng Nghyfres Dafydd ap Siencyn*

**Ffitian Ffatian**
gan Falyri Jenkins
Y Lolfa £2.95
*Cagliad o ugain o ganeuon i blant bach.*

**Gwaith Iolo Goch**
Gan D R Johnston
Gwasg Prisfysgol Cymru
£12.95
*Golwg ar fardd mawl mwyaf y 14eg ganrif.*

**Arsylwi: Llawlyfr Ymarferol i Fyfyrwyr Meithrin**

**Dwylo Diwyd: Gwaith llaw ar gyfer plant meithrin**

**Magu Profiad Meithrin: Gwybodaeth Ymarferol i Fyfyrwyr Meithrin**

**Oedolion a Rieni mewn Sefyllfaoedd Meithrin**

**Y Weinyddes Feithrin: Medrau, Rolau a Dyletswyddau**
Gan Anne Parry Jones.
Adran Astudiaethau Cymdeithasol Iechyd a Chartref Coleg Technegol Gwynedd, Bangor, Y Ganolfan Adnoddau, Aberystwyth. £1.50 yr un.
*Pump o lyfrau ar gyfer athrawesau meithrin.*

**Mathemateg: Cwestiynau TGAU 2**
Y Ganolfan Adnoddau, Aberystwyth £1.50
gan Glenys Jones a Meirion Stepehns
*Casgliad o bapurau enghreifftiol Mathemateg (SMP) 1988 (Cyfres Cambria)*

**Ben y Garddwr a Storiau Eraill**
Gan Mary Vaughan Jones
Cymdeithas Lyfrau Ceredigion Cyf. £2.95
*Pedair stori syml i'w darllen i'r plant lleiaf.*

**Atlas Hanesyddol**
gan Tom Ellis Jones
Gwasg Gwynedd £3.95
*Atlas hanes yr ugeinfed ganrif*

**Gwion Bach**
gan Buddug Medi
D. Brown a'i Feibion Cyf. (C.B.A.C.)
£3.50
*Casgliad o Chwedlau Maldwyn i Blant*

**Yr Haf Hirfelyn**
gan Ivor Owen
Gwasg Gomer £4.95
*Nofel serch ar gyfer y dysgwyr hŷn.*

**Y Calendr**
gan Aled Roberts
**Gwinllan a Roddwyd**
gan John Owen
**Rhannu Llofft**
gan Aled Roberts
Gwasg Carreg Gwalch 60c yr un
*Y dramâu diweddaraf yng Nghyfres y Llwyfan.*

*LLYFRAU PRINT BRAS*
**Dyddiadur Ffarmwr**
gan Tom Jones
Gwasg Gomer £6.75
*Cofnod o'i amserlen brysur gan ffarmwr sy'n rhuthro rhwng 'mil o alwadau' ffermn a phwyllgor.*

**'Gwyn eu byd yr adar gwylltion'**
Gwasg Gomer £5.75
Nofel gan John Idris Owen

**Seren Wib**
gan Eigra Lewis Roberts
Gwasg Gomer £4.50
*Sgyrsiau radio.*

## COFIWCH am WYTHNOS CARNIFAL LLANRUG

**Gorffennaf 4–9**

Nos Lun
**TAITH GERDDED YR YSGOL FEITHRIN**

Nos Fawrth
**HELFA DRYSOR**

Nos Fercher
**NOSON GOFFI**

Nos Iau
**TOMBOLA**

**Dydd Sadwrn**
**GORMYMDAITH Y CARNIFAL STONDINAU A LLUNIAETH YN YR YSGOL GYNRADD**

## DRAENOG LLONGYFARCHION

... i gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Brynrefail am boster uniaith Gymraeg i hysbysebu noson o bêldroed i godi arian tuag at eu cronfa. Ond peidiwch da chi a mynd ag arian efo chwi – bydd "amryw o stondinau ar y cau"! Mae'n siŵr mai ar y cae roeddan nhw'n feddwl.


**WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI GWAIR**

**E. PUGH**
**WELDING & FABRICATING**
32 GLANFFYNNON
**LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 5394


## CERDDORFA A CHÔR CWMYGLO 1909




*Mae'r gŵr sy'n sefyll ar y chwith, wrth y bâs dwbl, yn daid i Ted Morris, Maes Padarn, Llanberis, ac yn ewythr i Olwen Davies (perchennog y llun). Ei enw oedd Edward Jones, 4 York Terrace, Llanberis. Roedd yn organydd yn Eglwys Sant Padarn.*


- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- *Tracio*
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

**PRIF GYNRYCHIOLWYR SEAT YNG NGWYNEDD**

**Perchennog: E.P. Hughes**

**MODURDY DOLYDD**
**GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**

# BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

CRONFA APÊL Y SGANIWR: Casglwyd y swm o £221.29 yn ystod wythnosau diwethaf yn y casgliad a wnaed o dŷ i dŷ yn yr ardal tuag at gronfa Sganiwr Ysbyty Gwynedd. Bu'r casgliad anrhydeddus hwn yn foddion i gwblhau targed y pentref. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r oll o'r cyfranwyr am eu haelioni a diolch yn gyffredinol i unigolion a chymdeithasau lleol am yr ymdrechion amrywiol a wnaed. Diolch hefyd am y rhoddion dderbyniwyd er cof am anwyliaid tuag at Gronfa Apêl y pentref i bwrcasu'r Sganiwr.

DIOLCH: Dymuna Marian, Aled a'r teulu Bryntirion, Bryngwran, Ynys Môn; John ac Eileen Michael, Bryngwran; Hugh a Dilys Evans, Min y Don a'r teulu oll ddiolch i bawb am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth fawr o golli David, mab, brawd ac ŵyr annwyl yn dair a hanner mlwydd oed ar Fai 29ain yn Ysbyty Brenhinol, Stryd Myrtle, Lerpwl.

EISTEDDFOD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Nos Lun, Mehefin 13eg, daeth cynrychiolaeth o'r pentref i'r Festri i gyfarfod â Mr Geraint Jones, Llywydd Pwyllgor Cyllid Eisteddfod yr Urdd 1990. Amlinellwyd y gofynion angenrheidiol ynglŷn â chynnal yr Eisteddfod a bydd targed y pentref oddeutu £700. Aethpwyd ymlaen i ethol swyddogion y Pwyllgor Apêl Lleol. Cadeirydd Miss L.P. Roberts, Godre'r Coed; Is-Gadeirydd Mr John Selwyn Williams, Bryn Hyfryd. Ysgrifennydd Mrs Pat JJones Cae Coch. Trysoryddion Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian a Mr Islwyn Jones, 3 Trem Eiliam. Bydd trefniadau ar gyfer gweithgareddau fydd i'w cynnal yn ystod y ddwy flynedd nesaf yn cael eu rhoi ar y gweill maes o law.

HELFA DRYSOR: Cafwyd Helfa Drysor lwyddiannus nos Sadwrn Mehefin 18fed wedi ei threfnu gan Mr Elwyn Jones, 1 Trem Eilian, ynghŷd â Mr a Mrs Gareth Williams. Diweddwyd y daith ym Mhlas Tandinas. Yr Enillwyr oedd teithwyr modur Mr Gwyn Mowll. Daeth teulu Mr Islwyn Jones yn ail a Mr Ken Jones yn drydydd. Rhoddwyd gwobr gysur i Mr Geraint Toberts! Bydd Mr Gwyn Mowll yn trefnu'r helfa drysor y flwyddyn nesaf.

GRADDIO: Llongyfarchiadau i Dafydd Iestyn Jones, 3 Trem Eilian ar ennill gradd B.A. mewn Addysg Gorfforol yng Ngholeg Cyncoed Caerdydd ynghyd ag ennill ei Grys Rygbi cynta drwy chwarae yng Nghynghrair Myfyrwyr Cymru mewn gêm yn erbyn yr Alban.

LLONGYFARCHIADAU i Kelvin Houston, 2 Trem Eilian ar ei lwyddiant ym maes y mabolgampau dan anwdd yr Ysgolion Uwchradd. Bu'n llwyddiannus i ennill y gamp yn y Naid Driphlyg yng nghylch Arfon ac yna drwy Wynedd; drwy neidio pellter o 11 mets ac 17 centimetr. Ar Orffennaf 1af bydd yn ymgeisio am safle yn y Mabolgampau Cenedlaethol a gynhelir yng Nghwmbran. Ein dymuniadau gorau iddo.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cafwyd cyfarfyddiad o'r gangen Nos Lun Mehefin 20fed yn y Festri gyda Mrs Rhian Jones, yr is-lywydd yn arwain y gweithgareddau. Cafwyd sgwrs gan Mrs Gwyneth Williams am ei hymweliad â'r Cyfarfod Blynyddol yn Llundain. Darllenwyd llythyr y mis gan Mrs Rhian Jones a chydymdeimlwyd â Mrs Betty Owen yn ei phrofedigaeth o golli ei chefnder yng Nghaernarfon. Rhoddwyd y te gan Mrs Jean Davies a Mrs Mair Jones a diolchwyd iddynt gan Mrs Euronwy Roberts. Enillwyd gwobr y mis rhoddedig gan Mrs Carol Houston gan Mrs Mair Jones.

# TAITH BWLCH CWM LLAN

**Dyma'r erthygl a enillodd Darian Eisteddfod Penisarwaun i Llŷr Tegai, Bryneglwys am y cynnyrch gorau yn yr adran Llên i blant oed cynradd. A thestun y gystadleuaeth? "Unrhyw erthygl addas ar gyfer Eco'r Ifanc".**

Dydd Gwener: Heddiw rydym yn mynd i fyny Bwlch Cwm Llan am dro. Mae fy nhraed yn brifo ar ôl y daith ddoe i fyny Bwlch y Ddwy Elor. Rydwyf wedi sylwi fod y llywbrau ar y daith hon yn lletach na'r rhai ar y daith ddoe am mai trac chwarel ydy o. Ar y ffordd mae ambell i gamfa ac mae'r llwybrau wedi eu erydu gan draed y byd.

Dyma'r copa o'r diwedd:- distawrwydd ym mhobman heblaw am gyfarth cyffrous Lleu, ci ein prifathro. Gwelais lawer o adfeilion o weithfeydd y chwarel a llawer i domen o lechi yma a thraw ar y daith. O dop y Bwlch roeddym yn edrych i lawr ar Gwm Llan ac ar olion gwaith y rhewlif. Mewn ambell i le roedd craig nad oedd y rhewlif wedi gallu ei symud ond cafodd y creigiau eraill eu erydu a'u gollwng yn beryglus ar lethrau serth y mynyddoedd. Rydwyf wedi sylwi ar lawer o hen siafftiau wedi eu gwneud o gwmpas y mynydd, rhai mewn hen bydewau tyfn.

Yn drist iawn lladdwyd llawer o ddynion yn y chwarel. Ar y ffordd i lawr dechreuodd rhai plant ddringo craig fach oedd ar ochr y llwybr. Mae dringo creigiau yn un o fy mhleserau gorau i. Rydwyf wedi dringo llawer o greigiau yn Fachwen, felly fel y gwelwch mae mynydda yn un o bleserau ein teulu ni gan fod fy rhieni a'm brawd Rhys yn hoffi dringo hefyd. Ar ôl dringo'r graig aethom yn ôl i'r ysgol am ddiod cyn ffarwelio â Rhyd Ddu wedi mwynhau deuddydd braf.

LLŷr Tegai.



*Y beirniad llên Mr. Ken Huws yn cyflwyno Tarian yr Eisteddfod i Llŷr Tegai.*


MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
BANGOR
354646

Cefnogwch ein
Hysbysebwyr

Merched . . .
Dynion . . .
Plant
I gael trin eich
gwallt yn eich
cartref cysylltwch â
SIAN
MAIRANNEDD
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon 5366



# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.**

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn y Festri, Caeathro nos Lun 20 mehefin. Penderfynwyd argymell i Gyngor Sir Gwynedd dderbyn pris am £450.00 er mwyn trwsio llwybr Cae Heilyn a thynnu sylw y Cyngor Sir at gyflwr peryglus y bont at y llwybr. Derbynwyd copi o lythyr oddi wrth Ysgfriennydd y Sir i Gomisynwyr y Goron ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o Gomin Cefn Du gan ferlotwyr, saethwyr gynnau a reidwyr beiciau modur.

Derbyniwyd tendrau gan gyfeillion Clwb chwaraeon Waunfawr am atgyweirio llwybr Cae'r Waun a atgyweiriadau i Gerddi Bach. Er mwyn gwneud gwaith angenrheidiol i'r Gofeb, dylai gwirfoddolwyr gysylltu â'r Clerc (I. Gwynedd Williams, 2 Bro Waun) er mwyn gwario'r swm yn y gyllideb ar gyfer eleni.

Penderfynwyd cefnogi y ceisiadau cynllunio i ymestyn 'Fourcrosses', Groeslon ac adeiladu garais ar 'The Haven'.

Etholwyd Edgar Owen fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned a'r Gyrff Llywodraethol Ysgol Gynradd y Waunfawr ac i gynrychioli'r Cyngor yn nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Meysydd Chwarae Gwynedd. Ar gais Rol Williams gofynnodd y Cyngor i'r Cyngh. Henry Owen i geisio cael y Cyngor sir i wella'r pafin yn y pentref, gwella Lon Pant Waun a chodi y wal a chlirio'r tyfiant yn y ffôs ger Pant Waun.

Ar ôl derbyn cwynion am y ddarpariaeth o scipiau gan Gyngor Bwrdeistref Arfon penderfynwyd i gysylltu â'r Cyngor er mwyn gwella'r gwasanaeth i drethdalwyr yn y dyfodol.

DIOLCH; Dymuna Mr Paul Kelly, Cadeirydd, ac aelodau pwyllgor "Cancer Relief Macmillan Fund" ddiolch o galon i'r canlynol am eu hymdrech ardderchog i gaslgu o ddrws i ddrws yn ddiweddar. Mrs Margaret Jones, Graianfryn £34.35; Mrs Katie M Jones, Gorwel £16.58;Mrs Ellen Jones, Eryri Wen £36.31; Mrs Betty Griffiths, Gorffwysfa £12.79; Mrs Catherine A Jones, Bryn Gwenallt (Trefnydd) £29.50. Diolch hefyd i'r cyhoedd am gyfrannu mor anrhydeddus.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor o'r Gangen leol yn y Ganolfan Nos Iau Mai 26ain pryd y cafwyd noson ddiddorol iawn gan Mrs Karen Thomas o Gaernarfon ar Goluro (Body Talk). Rhoddwyd y raffl gan Mrs Alma Jones a'r enillydd oedd Mrs Nan Huws Roberts. Bydd y trip yn cychwyn o'r Llythyrdy am hanner awr wedi chwech, nos Iau Mehefin 23.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Gwibdaith ddirgel oedd arlwy cangen Waunfawr o Sefydliad y Merched nos Iau 2il o Fehefin. Treuliwyd y noson yn trafaelio ffyrdd diarffordd yn yr ardal gan ddiweddu gyda chinio yng Ngwesty Golygfa'r Llyn, Llanberis. Cynhelir cyfarfod mis Groffennaf nos Iau 7fed. Y gŵr gwadd yw Mr Rol Williams. Dernbyniodd cangen Bontnewydd o Sefydliad y Merched Wahdoddiad i dreulio'r noson yn ein cwmni.

YR URDD: Llongyfarchiadau i'r Grŵp 'Bron a Methu' a ddaeth yn ail agos iawn, gan mai dim ond hanner marc oedd yn eu gwahanu yn y gystadleuaeth Cân Ysgafn Fodern yn y Drenwydd. Da iawn chi Osian, Meilir, Rhys, Rhodri, Kevin a'r tadau hefyd!! Ein llongyfarchiadau i Nan Wyn hefyd ar ennill Tlws Dr Lewis Jones am Siarad Cyhoeddus dan 25 oed ac i lawer o blant y pentref oedd yn cynrychioli Ysgol Syr Hugh Owen yn y timau Siarad Cyhoeddus, Parti Cerdd Dant a'r Côr Merched.

Hwyl fawr i'r aelodau i gyd sydd am dreulio wythnos yn Llangrannog a Glan Llyn yn yr Haf.

Llongyfarchiadau i bedwar aelod o'r gangen a fu'n llwyddiannus ym Mabolgampau'r Cylch a gynhaliwyd ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen nos Fercher, Mehefin 15ed; Phillip Jones (naid hir), Marcus Hughes (rhedeg dan 10oed), Gerallt Jones (naid hir), a David Bound (taflu pêl dan 10 oed). Bu'r pedwar yn cynrychioli Adran Waunfawr ym Mabolgampau'r Sir ym Mangor ar nos Lun, Mehefin 20fed ac enillodd David Bound y gystadleuaeth taflu pêl dan 10 oed. Llongyfarchiadau iddo.

YR YSGOL SUL: Bu tri tîm yn cynrychioli Ysgolion Sul y Waun yn y twrnament pêl droed Ysgolion Sul Arfon yn ddiweddar. Colli o un gôl yr un fu hanes y ddau dîm dan unarddeg oed, ond fe aeth y tîm dan bedair ar ddeg oed drwodd i'r rowndiau cyn-derfynnol a chael dwy gêm dda iawn yno. Llongyfarchiadau iddynt i gyd am drio eu gorau. Diolch i'r rhai ddaeth gyda ni i'n cefnogi.

Trip yr Ysgol Sul Capel Bethel i Rhyl, dydd Sadwrn Gorffennaf 2. Bydd y bws yn cychwyn o'r Llythyrdy am 9.30 y bore. Os am ddod gyda ni cysylltwch â Nan Roberts, Pant Afon.

CRONFA CANOLFAN Waunfawr: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mai: 1.£40 Mrs Rhian Ellis, Glyn Awel; 2. £25 Mr E W Hughes, 15 Tref Eilian; 3. £10 Mrs Jeanifred Jones, Glyn Ceris.

LLONGYFARCHIADAU: Yn ddiweddar penodwyd Dafydd Glyn Williams – mab Tom a Iona Williams, Llwydiarth, yn ddirpwrwy reolwr banc y National Westminster yng Nghaergybi. Pob lwc iddo yn ei swydd newydd.

EIN SIOP CIGYDD LEOL: Ers rhai misoedd bellach bu Alan Vaughan Griffith ( sy'n frodor o Gaeathro) yn brysur iawn yn pwyso a gwerthu cig yn ei siop newydd yng ngwaelod y pentref (hen fecws Mr John Awstin Jones gynt). Rwyn siŵr ein bod fel pentrefwyr yn dymuno'n dda i Alan yn ei fenter ac y gwelwn o yn rhoi blynyddoedd maith o wasanaeth i'r pentref. Pob lwc Alan.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr Clwb 100 am fis mai:1. Gwilym Hughes, Tref Eilian; 2. Mrs Hughes, Llys Meredydd; 3. Duncan Brown, Gwelfor.

LLONGYFARCHIADAU i Katherine a Meirion Jones, Crud yr Awel, ar fod yn nain a thaid unwaith eto, ganwyd mab, Osian i Kevin a Bronwen.

I Menna a Elfyn Griffith, Melwyn ar enedigaeth merch fach, Nia, chwaer i Rhian ac Aled.

I Ian Williams, Llwydiarth, ar ei ddyweddiad â Leslie Ann Roberts o Garmel.

I Mr a Mrs O.T. Jones, Bryn Gwenallt, ar fod yn daid a nain unwaith eto, ac i Mrs Elizabeth Catherine Williams, Dwyfor ar fod yn hen nain. Ganwyd merch, Ella Mair ar Fehefin 2il i Alwynne a Helen a chwaer fach i Alun, Dwylan, Pengelliwyn, Caernarfon.

I Bethan Pritchard, Min y Graig ar ei phriodas â Glyn Owen, o Sanbach, Sir Gaer.

Ein dymuniadau gorau i Kevin Roberts, Swn y Gwynt yn ei swydd newydd ym Manc Lloyds yn Douglas, Ynys Manaw.

CYDYMDEIMLO: Yn frawychus o sydyn y collodd Stephen Jones, Morawel ei fam yn ddynes ifanc 56 mlwydd oed. Mae ein cydymdeimlad yn fawr gydag ef a'r teulu oll.

Ar ôl cystudd hir bu farw Mrs Glenys Williams, Plas Glyn Afon. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag at ei gweddw, Mr Glyn Williams a'r genod a'u teuluoedd.

LLONGYFARCHIADAU ARBENNIG a phenblwydd hapus iawn i Mrs Elizabeth Catherine Williams Dwyfor yn 90 oed ar Fehefin 27ain. Ganwyd a magwyd Mrs Williams yn y Waun a bu'n aelod yng Nghapel Croesywaun erioed. Mae ganddi bedwar o blant, tair o wyresau a thri ŵyr, tair gor ŵyres a thri o orŵyrion.

YR YSBYTY: Siom fawr oedd clwyed fod Mrs Katie Jones, Bron Eifion wedi ei tharo'n wael unwaith eto tra ar ei gwyliau gyda'i merch Nerys a'r teulu yng Nghanada. Treuliodd ychydig amser yn yr ysbyty yno a bu raid iddi fynd yn syth i'r ysbyty ar ôl cyrraedd adref. Erbyn hyn mae Mrs Jones yn ysbyty Walton, Lerpwl a da o beth fydd iddi gael gwybod fod ei theulu a'r ffrindiau yma yn y Waun yn cofio ati ac yn dymuno adferiad buan iddi gan obeithio ei gweld adref yn o fuan.

Da o beth yw cael croesawu adref o'r ysbyty Mr Glyn Owen, Glan Gors, Mr Arthur Griffiths, Eirianallt, Mre Eleri Williams, Trifga, Iolo Rhisiart, Llwyn Onn, Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen, a Mrs Jones, 10 Tref Eilian. Ein dymuniadau gorau iddynt i gyd am lwyr wellhad buan.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON, 1990: HELFA DRYSOR: Cafwyd noson braf i'r Helfa Drysor ar 17eg o Fehefin. Fe'i trefnwyd gan Haydn Jones a Dewi Jones ddaeth 57 ynghyd ar y diwedd yn y 'Gwynedd Restaurant, Llanberis (rhai wedi mynd ar goll ar y ffordd). Braf oedd gweld llawer o ieuenctid y pentref a'u ffrindiau wedi dod ar yr helfa. Yr enillwr oedd Nan Huws Roberts, Glenda Edwards ac Eirian Jones. Yn gydradd ail oedd Huw Ynyr a'i ffrindiau ac Iwan Ellis a'i ffrindiau. Enillwyd y raffl gan Gwenan Jones a Rob Jones yr ail wobr. Diolchwyd i bawb gan Gareth Jones.

Swper Awyr Agored: Nos Wener, Gorffennaf 15ed am 6.30 o'r gloch ar gae'r Ganolfan. Pris £1.50. Dowch a phlât, powlen, cyllell fforc a llwy hefo chi.

**GŴYL AWDURON NEWYDD**
**Caerfyrddin 89**
**Cyfle gwych i ddramodwyr Cymru!**

**Mae Bara Caws yn chwilio am ddramâu byrion newydd ar gyfer yr Ŵyl. Y dyddiad cau yw Hydref 15fed. Am fanylion pellach cysylltwch ag Ian S. Lloyd, 0248 355436 neu ysgrifennwch at Bara Caws, Gŵyl Awduron, Y Coleg Normal, Bangor LL57 2DE.**


**YN EISIAU**
**Ar gyfer Parti Dawnsio dan 15 Adran Bentref Llanrug**
**hen drowsusau Ysgol – llwyd tywyll neu ddu i wneud clos penglin.**
**Cysylltwch â Bethanne Williams C'fon 3485.**

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR**

**AR AGOR**
9-7pm
9-5pm Sadwrn
**AR GAU**
SUL,
MERCHER.



**DEWIS EANG O**
**WELYAU SENGL A DWBL**
**DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'**
**LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'**
**GWAITH CONTRACT**
**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**
Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
**WAUNFAWR 291**

**CARPEDI GLÂN!**
Mynnwch driniaeth
**STIMVAK**
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
**TEGID PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR 291**
**Hefyd ail-osod carpedi**

***W.J.GRIFFITH***
**PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG**
**PANT TIRION, LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3248**
**Gosodwyr Nwy Cofrestedig Corgi**
CORGI GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors
*Dim un dasg rhy fychan*
*Dim un dasg rhy fawr*

# CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)



PRIODAS: Ddydd Sadwrn Mai 21, yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis priodwyd Kevin Wyn, mab Mr Evan G Owen a'r ddiweddar Mrs E Owen, Talgwynedd ag Yvonne, merch Mr a Mrs A Williams, Penchwintan Road, Bangor. Gwasanaethpwyd gan y Rheithor y Parch Alun Hawkins, a'r organydd oedd Mr Gareth W Jones. Y morynion oedd Mair Williams, Bethan Williams a Dawn Leanne Roberts a'r gwas bach oedd Arwyn Jones. Y gwas oedd Nigel Orritt. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Victoria, Llanberis. Byddant yn ymgartrefu yn 17 Stryd Goodman, Llanberis. Dymunwn bob dymuniad da a phob hapusrwydd i'r ddau ifanc.

CLWB POBOL Y CWM: Yng ngyfarfod dydd Iau Mai 19, rhoddodd Mrs G Chick sgwrs ddiddorol ar un o hen gymeriadau y Sipsi a fu'n crwydo Cymru ddechrau'r ganrif. Roedd yn un o linach y pennaeth llwyth arbennig, Abraham Wood. Fel y dywed Eifion Wyn yn ei gân i'r sipsi "Crwydro am oes lle mynno ei hun A marw lle mynno Duw."

Roeddent fel llwyth yn ymarferol yn gyson ymysg ei gilydd ond roed yn eu mysg aelodau a thalentau hynod o gerddorol. Cofier hefyd am yr Efengylwr Gipsy Smith a'i ddawn angerddorol i ddenu miloedd i'w gyfarfodydd. Diolchodd y llywydd i Mrs Chick am ei sgwrs ddifyr. Roedd y te yng ngofal Miss E Davies a Mrs E Rowlands a rhoddwyd y raffl gan Miss E Davies. Cyfarfu yr aelodau dydd Iau Mehefin 2. Croesawdodd y llywydd Mr Llew Hughes ein gŵr gwadd sef Mr Jack Thomas, Maer presennol Tref Caernarfon. Rhoddodd sgwrs ddiddorol ar gymeriadau lliwgar y dref pan oedd yn brenits barbwr ac yn dilyn gyda'i brofiadau amrywiol pan yn berchen busnes barbwr yn y brif ddinas Llundain. Cafodd y fraint o gyfarfod llawer o wŷr enwog ym myd gwelidyddiaeth ac actio. Wedi blynyddoedd maith yn y brif ddinas roedd ei galon ar ddod yn ôl i'w dref enedigol a heddiw mae yn rhoi cyfraniad helaeth i weithgareddau y dref. Diolchwyd iddo gan Mr R H Parry.

Mae Mrs H M Roberts wedi dymuno ymddiswyddo o'i swydd fel ysgrifenyddes ond mae Mr Richard Roberts yn garedig iawn yn ymgymeryd â'r swydd. Diolchodd y llywydd i Mrs Roberts am ei gwaith diflino am flynyddoedd. Rhoddwyd y te gan Miss E Hughes a Mrs E Hughes a'r raffl gan Mrs R H Parry.

NOSON BINGO: Ar nos Wener 27 o Fai cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn o Bingo yn y Ganolfan yr elw tuag at dîm pêl-droed y pentref. Dyma enillwyr y raffl:

Bocs Nwyddau: Graham Hobby, Gernant: Potel wisgi: Mrs Ware, Post office; Potel win – Dick, Post Office Engineers; Bocs Siocled – Mr a Mrs Russell Rowlands, Talafon; Pillowcases: Richard Morris, dan ofal 16 Maes Padarn, Lanberis; Server Set: Nigel Day, Snowdon Mountain Railway; Bocs Nwyddau: Margaret Williams, Bryn; Bocs Nwyddau: Mrs Nansi Jones, Pant y Mynydd; Gateaux – Bethan Hughes, 17 Dolafon; Potel Sieri: Mrs Nansi Jones, Pant y Mynydd; Potel win: Gareth Price, Tan y Graig; Serving Forks: Mrs Nansi Jones, Pant y Mynydd; Wooden Tool Set: Mrs Jean Hughes , 2 Bryn Gro; Matchmakers: Mrs Nansi Jones, Pant y Mynydd.

Dymunwn ddiolch i bawb a helpodd mewn unrhyw ffordd bosibl i wneud y noson mor llwyddiannus.

DIOLCH: Dymuna Mrs M Jones, 21 Dolafon ar ran pwyllgor y Spina Bifida, Arfon ddiolch i bawb yn yr ardal a gyfrannodd at y Siop ail law yn 25 High Street Caernarfon. Gwnaed elw o dros fil o bunnau. Diolch hefyd i'r rhai a gyfrannodd mewn arian yn y siop. Diolch hefyd o galon i Eleri Carrog am fenthyg y siop. Mae Eleri wedi ei magu yn y Cwm er pan oedd yn bedair oed.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs David Pritchard ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Aur.

DYMUNA Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar, hefyd i'r Parch John Morris am ei garedigrwydd.

YSGOL FEITHRIN: Nos Fercher Mehefin 15, cynhaliwyd Sioe Ffasiwn yn yr ysgol. Roedd yn noson lwyddiannus iawn wedi ei mwynhau gan bawb. Diolchwn i Mrs Bish o 1st class 2nds am ddod gyda'i gweithwyr atomnil. Diolch i Veronica, Avril, Eluned, Christina, Robert a Ben am fod yn Fodelau am y noson. Diolch i bawb a'n cefnogodd ac i Mr Eurwyn Williams, Llwyncoed. Enillwyr y rhif lwcus oedd Beryl Jones, Dolafon £5, a Min y Nant "Pram Set". Gwnaed elw o tua £90 tuag ar yr Ysgol Feithrin.

ADREF O'R YSBYTY: Anfonwn ein cofion at Mrs Ella Morris (Nain Becws) sydd wedi dychwelyd adref o'r ysbyty ac yn aros gyda'i mab a'r teulu ym Merddyn, Ceunant. Hyderwn y caiff wellhad buan ac y bydd yn ôl yn y becws yn fuan iawn.

PRIODAS AUR: Llongyfarchiadau i Mr David (Beb) Pritchard a Mrs Nellie Pritchard, 23 Dôl Afon ar ddathlu eu priodas Aur ar Fehefin 6.

W.H. JONES
TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
FFÔN:
LLANBERIS 871470
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

# NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion, 871327.

Diolch: Hoffai Mrs Ann Jones, Glendale, Nant Ffynnon ddiolch i'w phlant ei theulu a'i ffrindiau oll am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd pan yn dathlu ei phenblwydd yn 50. Hoffai ddiolch hefyd i Westy Gwynedd Llanberis am y bwyd ardderchog a gafwyd yno. Diolch yn fawr i chwi oll.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Tom Gwyn Pritchard ar ddathlu eu priodas Ruddem ar Fehefin 9fed.

GWELLHAD: Gobeithiwn am wellhad buan i Mr Arthur Williams, Pennant sydd wedi derbyn llaw driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella Arthur.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan Pritchard, Llys Awel ar ddathlu ei benblwydd yn 21ain yn ystod y mis. Gobeithio iddo fwynhau ei ddiwrnod.

DIOLCH: Hoffai Iwan Pritchard ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn ddiweddar.

NOSON 50–60: Ni fydd Carnifal yn y Pentref y flwyddyn yma, ond ar nos Wener, Gorffennaf 22ain am 7 o'r gloch bydd noson 50–60 yn cynnwys Bar BQ a Disco, a gwisg ffansi oedd yn perthyn i'r cyfnod yma. Tâl mynediad 50c i oedolion, plant dan 15 25c. Cynhelir yn y cae o flaen Tyn Llan.

GOHEBYDD NEWYDD: Mae angen gohebydd newydd i fod yn gyfrifol am hel newyddion y Nant i ddechrau hefo'r rhifyn nesaf i ddod o'r wasg. Cysylltwch ag unrhyw un o olygyddion yr Eco.

**PRIODAS Ruddem**

**Wel dyma ni yma oll yn gytûn**
**I ddathlu ymuno dau yn un**
**Priodas Ruddem medda nhw wrtha i**
**Mae'r blynyddoedd wedi myned heibio fel lli.**

**Rwy'n cofio y diwrnod fel ddoe wyddoch chi**
**Roedd Ceunant fel hylabalw ers tri**
**A phawb o'r Nant yn heidio i gyd**
**I'r capel a'r festri i flasu'r pryd.**

**Cawsant dair o ferched dela'r fro**
**A Twm a gloiodd ei hun yn y cwt glo**
**Llond tŷ o ferched, druan o'r dyn**
**Hitiwch befo am hynny, maent i gyd yn gytûn.**

**I Twm a Marian dymuno'r wyf**
**Hir oes a hapusrwydd ac iechyd di-gwyn,**
**A heno diolchaf i'r genod am y gwâdd**
**I'r wledd a'r cwmpeini a'r hapusrwydd braf.**

**Dyma fel y canodd Meirion Wyn Pritchard ar achlysur dathlu priodas Ruddem Tom a Marian ar Mehefin 12fed.**

DIOLCH; Dymuna Tom a Marian Pritchard, Bronallt ddiolch o galon am y llu caridau a'r anrhegion a dderbyniasant gan eu teuluoedd a'u ffrindiau ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem. Diolch yn fawr.

TREIALON CŴN DEFAID: Am y tro cyntaf ers yr ail-sefydlwyd y Treialon cafwyd tywydd eithaf da a mwy o gystadleuwyr.

Am yr eildro yn ganlynol enillodd W H Hughes, Deiniolen, Tarian Gwesty Fictoria a hefyd llwyddodd John Williams, Bethel i ddynwared ei lwyddiant yn Nhreialon 1986 drwy ennill Cwpan Rheilffordd y Wyddfa, Cwpan Gwesty Dolbadarn a'r gwpan newydd Cwpan R. Williams Mynytho.

Enillwyd y Dosbarth Agored gan Mr J G Jones, Waunfawr ac eto o'r un pentref yr ail ddosbarth oedd Mr Elwyn Griffith. Llwyddiant i fechgyn y fro. Pleser a briant yw cael adrodd eto am lwyddiant y treialon ac am y cyd-weithrediad parod gan yr ardalwyr.

Dyma'r canlyniadau:

**Dosbarth Agored (Cwpan Morris Bros):**
1. J G Jones, Waunfawr 'Mari'; 2. Aled Owen, Ty Nant, Corwen – 'Ben'; 3. W.D. Williams, Aberdaron – 'Time'; 4. Aled Owen, Tŷ Nant Corwen, – 'Meg'; 5. Hefin Jones, Rhyd y Main – 'Meg'; 6. John Jones, Hen Golwyn – 'Kim'; 7. Huw Rowlands, Marianglas – 'Mack'; 8. Gwyn Jones, Rhesycae, Treffynnon 'Meg'; 9. Ron Brooks, Talybont, Meirionnydd – 'Jim'; Hefin Jones, Rhydymain – 'Carlo'.

**Ail Ddosbarth (Cwpan Wavell Roberts):**
1. Elwyn Griffith, Waunfawr – 'Craig'; 2. W D Williams, Aberdaron – 'Ben'; 3. J G Jones, Waunfawr – 'Sian'; 4. Mick Lee, Llansadwrn – 'Moss'; 5. G.C. Jones, Pandy Tudur – 'Ben'; 6. W H Hughes, Deiniolen – 'Moss'.

**Dosbarth Lleol (Cwpan Rheilffordd y Wyddfa a Chwpan Gwesty Dolbadarn):**
1. John Williams, Bethel – 'Jim'; 2. B H Owen, Nant Peris – 'Toss'; 3. I Kenny, Deiniolen – 'Drift'; 4. Dafydd Pritchard, Nant Peris – 'Roy'; 5. Derek Williams, Dinorwig – 'Kep'; alan Roberts, Llanberis – 'Cap'.

Enillwyd y Gwpan F.M.C. i'r cystadleuydd gorau dan 25 oed gan Aled Owen, Ty Nant, Corwen, gyda 'Ben'.

**Raffl:**
1. Sam, Tyn y Clwt, Deiniolen – Oen; 2. Alan, Sir Fôn – hanner oen; 3. Iestyn Owen, 46 Dol Elidir, Llanberis – Rwm; 4. Dewi E Thomas, Gwynedd Farms., Porthmadog – Ffan Lechen; 5. B Hughes, 18 Snowdon St. Llanberis – Wisgi; 6. Gordon Celyn – Addurn; 7. Mandy, 10 Bro Waun, Waunfawr – Hwyaden; 8. Carys, Nant – Fodca; 9. Einir, Lleisiau'r Gweunydd – Gwerth £5.00 o gig; 10. O. LLoyd Jones, Glanffynnon, Groeslon – Llestri; 11. A S Watherson, 25 Cae Gwyn, C'fon £10; 12. Caron Owen, 13 Water St., Llanberis – Tocyn Trin Gwallt.

Hoffai'r Pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad gan ddiolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

Gwasanaeth NEWYDD yn yr ardal!
EMYR LL. PARRY
M.S.S.CH.
M.B.CH.A.
CHIROPODIST
GWASANAETH CARTREF
57 Glanffynnon
LLANRUG
FFÔN (0286) 5754
(Gyda'r nos)

Beth am ddysgu dreifio gydag
YSGOL YRRU
BETHEL
Cysylltwch â
Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009

# TREF INEZ DE CASTRO

**Mae rhai bröydd yn gadael mwy o argraff ar enaid rhywun na'r lleill. Rwy'n dal i gofio yn glir ac yn felys am yr ymweliad cyntaf a wnaeth fy ngwraig a minnau â bro Coimbra.**

**Tref brifysgol Portiwgal yw Coimbra yn sefyll ar gamfa led afon brydferth Mondego sydd yn cario oerni y Serra Estrella i lawr i wastadedd y litoral. Mae'r coleg ar ben bryn, a gerllaw iddo mae Penedo de Saudade, (Parc yr hiraeth). Yno wedi eu cerfio ar feini mae cyfansoddiadau beirdd a llenorion y brifysgol. Ac yno y clywsom y 'ffado'' yn cael ei ganu am y tro cyntaf.**

Ond yr oedd ein cyflwyniad i Goimbra yn llawen. Roeddem wedi trefnu i gyfarfod aelodau o gôr y brifysgol â oedd wedi bod yn Llangollen y flwyddyn cynt. Cyn hynny fodd bynnag, aethom ar ein pennau i gwmni arall.

Bore barugog o aeaf oedd hi, ac yr oeddem yn dod i lawr ar y beic modrur o fynyddoedd Estrella drwy goedwig faith. Yn sydyn ar drofa, daeth rhes o bobl ieuanc i'n cyfarfod. Roeddent yn canu, ac wedi inni aros, amgylchasant ni. Roedd gan y bechgyn hetiau duon bron bob un ac ambarel a'r genethod ddillad llaes gyda chadach wedi ei dynnu am eu pennau a hetiau o bob lliw ar ben y rheiny nes yr oeddent yn adgoffhaol o'r Inca. Roeddent wedi eu cyfareddu gan y BSA mawr a'n dillad ac yn awyddus o wybod i ba wlad y perthynai'r Ddraig Goch fechan a chwifiai ar ochr y lamp. Roeddem yn wrthrychau amheuthun mewn man mor ddiarffordd doedd ddim dwywaith.

Roeddent bob yn yn cludo dysgl fechan, ac yr oeddent ar eu ffordd i'r coed i dapio tyrpentein. Roedd ein dull o gyfathrebu yn garbwl yr adeg honno, ac ar gyfer argyfyngau, roeddwn wedi dysgu Salm Dafydd ar dafod leferydd ym Mhortiwgaleg. Dechreusais ei hadrodd wrthynt, ac yr oedd yr adwaith yn gymysgedd o syndod a chwerthin dilywodraeth. Llwyddais i roddi ar ddeall iddynt fodd bynnag y buasem yn hoffi iddynt ganu drachefn; a dyna a wnaethant ar ganol y ffordd farugog honno yn y goedwig tua saith yn y bore, caneuon hapus drist Portiwgal – caneuon y Saudade. Wrth i ni eu gadael yr oeddem yn dal i'w gweld yn y gwydr ôl, ar ganol y ffordd yn rhes yn chwifio eu breichiau.

Wedi cyrraedd y dref ei hun aethom i garej i newid olew'r beic, ond nid dyna'r unig wasanaeth gawsom. Gwahoddodd y perchennog ni i'w swyddfa i gael coffi. Aeth â ni i'w dŷ, ac yn ddiweddarach ar wibdaith drwy'r dref a'i hamgylchoedd, ac i Portugal dos Pequenitos (Portiwgal y Plant) lle mae parc yn llawn o fodelau bychain o dai ac eglwysi yn nodweddiadiol o holl daleithiau'r wlad o Tras os Montes yn y gogledd i lawr i'r Algarve. Gerllaw mae Quintes dos Lagrimas, lle mae ffrwd ac ynddi bwll gyda charreg goch ar ei waelod.

Aeth â ni hefyd i fynachlog fawr Alcobaca, lle mae ffrwd, ac ynddi bysgod yn llifo drwy'r ceginau. Ac yno gwelsom feddau Dom Pedro, brenin Portiwgal a'i gariad Inez de Castro. A chawsom yno hefyd, eu hanes.

Pan oedd Dom Pedro yn dywysog Portiwgal, roedd yn caru merch o Gastîl o'r enw Inez de Castro, ac yr oedd iddynt ddau o blant. Roedd ei dad, Dom Afonso, ar gyfarwyddid ei gynghorwyr, yn ofni cael Spaenwr yn rhy agos i orsedd Portiwgal. Gorchmynodd i ddihyrod ladd Inez de Castro. Daethant o hyd iddi yn trigo mewn cuddfan yn Quintas dos Lagrimas, o'r lle yr arferai anfon negesau i'w chariad gyda llif yr afon. Ymlidiwyd hi gan y dihyrod i glwysdai eglwys Santa Clara da Velha yn Coimbra, ac yno y llofruddiasant hi. Ei gwaed sydd o hyd, meddir ar garreg goch ar waelod y pwll.

Ond pan fu farw Dom Afonso ac i Dom Pedro ddod yn frenin, dihangodd y cynghorwyr i Sbaen i'r lle yr ymlidiodd Dom Pedro hwy a'u gorfodi i ddychwelyd. Yna lladdodd hwy a'i law ei hun, a dywedir iddo yn ei gynddaredd, rwygo allan eu calonau a'u cnoi yn gyhoeddus.

Wedyn gorchmynodd i gorff Inez de Castro gael ei godi o'i orweddfan, a'i wisgo mewn sidan a lliain aur. Rhoddwyd coron brenhines am ei phen a dodwyd hi i eistedd ar orsedd wrth ochr y brenin. Yna gorfododd Dom Pedro i bob aelod o'i lys ddod ymlaen a chusanu llaw bydredig Inez de Castro; 'Y Frenhines wedi angau' fel y gelwir hi ym Mhortiwgal.

Dygwyd ei chorff wedyn drwy rodfa o ganhwyllau, saith deg o filltiroedd i fynachlog fawr Alcobaca lle y gorwedd yn y Sala dos Tumulos, o dan feddfaen orwych yn wynebu un ei chariad Dom Pedro. Mae'r brenin â'i law ar ei gledd yn cael ei gynnal gan chwe llew; hithau y dyner Inez de Castro, yn cael ei gwarchod gan chwe angel.

Mae eu hanes yn un o'r rhai mwyaf rhamantus, ac ar yr un pryd yr un mwyaf erchyll yn y byd.

Y Gwalch


TACSIS BETHEL

UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93)670555


# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Er cof am y diweddar Y Parchedig T.E. Selway

Gweinidog Bwlan, Llandwrog a fu farw yng ngwanwyn 1939

Ym Mwlan mae trwm wylo, – eneidiau
 Heb weinidog yno
Atebant bawb ddont heibio, –
 "Dyn i Grist sydd dan y Gro".

Gair o enau gwirionedd – a draethai'n
 Doreithiog o rinwedd
Rhoi Selway air o sylwedd
I lonni byd ar lan bedd.

Hiraeth yn awr a erys, – a wylo
 Ar aelwyd Fron Emrys,
Am dad oedd gefn a threfnus
Annwyl ŵr oedd yn ei lys.

Drwy ei ing pan ar drengi – e 'welai
 Yr alwad oedd ddifri:
Ei olaf air, goeliaf fi,
 Yn hepian, oedd, "I'm happy".

Glan Rhyddallt.

Cyfarch John H Price, Bournemouth yn 70 mlywdd Gorffennaf 1939

I John Preis yn awr ceisiaf – wneud englyn
 Nid o anghlod, sylwaf,
Ond y cariad cywiraf –
 Gwir glod o enau gŵr claf.

Ei gi Don a'i gadwynau, – cath groendyn,
 Ei fwthyn a'i foethau:
Pawb mewn serch gyda'i ferch fau,
Neu flys ei felys afalau.

Daw hiraeth fel aderyn – i'w fynwes
 Am fannau bu'n blentyn,
 A chofio am ei fam fyn,
 A'i neges iddi'n hogyn.

Da geinion a diognedd – i'n brawd hoff
 A'i briod deg, eurwedd;
Par annwyl ym mhob rhinwedd,
Heulwen gwyd i lonni'u gwedd.

Glan Rhyddallt..

Os oedd grym yng ngorsedd gras,
Un o lawer oedd John Elias.

G.Rh.

Rhy neis yw hi ar nos Sul,
Ni chaf fynd ar ei chyfyl.

G.Rh.

Er cof am Griffith Thomas, Cwm-y-glo a fu farw Mai 5, 1933 yn 75 mlwydd oed.

Tros ein cwm taenodd cwmwl
O roi tad mewn beddrod dwl
Gruffydd y gŵr oedd graffus
Dyna'i le, nid yw'n ei lys,
Mae hiraeth i'm o'i orwedd
Ni thŷr air byth o ro'r bedd
Difyr barablu ei dafod
Ddwedai heb feth beth fu'n bod
A welodd o bob helynt
A diddog hwyl dyddiau gynt,
Hardd elai i'r addoliad
Gan ddwyn rhodd o'i fodd yn fad:
Cadd o'i lafur gysur gŵyl
Ac yn Iesu gu noswyl.

Glan Rhyddallt.

Owen Williams, Trewaen

Fe gofiwn lawer ymgom
A llawer mygyn , was,
A chofiwn am yr amser
Y torraist dy fwstas,
A Dafydd Jones Corlannau
Yn stopio'n stond fel gwn,
A gofyn yn ei ddychryn
"A'i Now Trewaen yw hwn?"

G.Rh.

Cyngor i hen lanc

Dy fyd, ŵr dybryd dibris – fu unig
 Cais fenyw uchelbris:
 Da yw y wraig, hi'th gwyd ris,
 A Duw rodd it ei dewis.

G. Rhyddallt.


CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



CYFLE Y.T.S. FEL CHWARELWR/CHWARELWRAIG



Mae Chwareli'r Penrhyn ar gychwyn eu hymgyrch ddiweddaraf i gyflogi pobl ifanc ar gyfer eu cynllun YTS. Mae'r cynllun wedi ei gofrestru yn ffurfiol gan yr MSC. Os ydych yn gorfforol iach ac yn benderfynol i ddysgu'r sgiliau hanfodol i gynhyrchu llechi to, yn ogystal a dulliau chwarelu, mae hyn yn gyfle i gychwyn gyrfa mewn diwydiant lleol pwysig.

Mae'r safleoedd ar gynnig yn cario statws cyflogedig gyda posibiliadau cryf, yn ddibynnol ar ganlyniadau, o waith parhaol. Mae ffurflen gais ar gael gan:

*Eich Swyddfa Gyrfaoedd Lleol*
*Ffôn: Bangor 364682*
*Neu Glyn Williams*
*Rheolwr Cyflogi*
*Chwareli'r Penrhyn, Bethesda*

"Mae'r Cynllun hwn yn Gynllun Cyfle Cyfartal."

Alfred McAlpine
*Minerals Division*

# Dyddiadur y Mis

**Gorffennaf**
**1. Gwener Llanberis** Te yr Henoed
**2. Sadwrn Waunfawr** Trip ysgol Sul Capel Bethel i Rhyl
**Penisarwaun** Trip Ysgolion Sul Capel Bosra ac Eglwys Santes Helen.
**Llanrug – Apêl yr Urdd – Garddwest, Bryn Bras 1.30**
**3. Sul Penisarwaun** Y Carnifal – Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen
**4. LLun Deiniolen** Sefydliad y Merched
**5. Mawrth Deinioledn** Clwb Elidir yn y Ganolfan
**6. Mercher Caeathro** Cymdeithas Ger y tân
**Caeathro** Plaid Cymru – Cyfarfod Blynyddol
**7. Iau Deiniolen** Cyfarfod y Chwiorydd, Disgwylfa
**Waunfawr** Sefydliad y Merched
**9. Sadwrn Penisarwaun** Carnifal y Pentref 2.00 o'r gloch
**Dinorwig** Hwyl Haf
**Llanrug** Carnifal
**Llanberis** Helfa Drysor ar droed i blant. Cychwyn o Angorfa.
**12. Mawrth Bethel** Helfa Drysor – Cerdded cychwyn o Neuadd Bethel. Trefnir gan Glwb Ffermwyr Ieuanc Caernarfon.
**13. Mercher Llanrug** – Plaid Cymru. Taith Gerdded – cychwyn o gefn yr Ysgol Gynradd 6.30 o'r gloch
**14. Iau Yr Ardal** Ysgolion yn cau am wyliau'r haf.
**15. Gwener Llanberis** Te yr Henoed.
**Bethel** Apêl Yr Urdd 1990. Mabolgampau ar y cae chwarae
**Deiniolen** Merched y Wawr – Taith i Nant Gwrtheyrn
**Waunfawr** – Apêl yr Urdd 1990. Swper Awyr Agored
**16 Sadwrn Yr Ardal** Plaid Cymru – Stondin cacennau ar y Maes Caernarfon. Trefnir gan bwyllgor Merched Arfon.
**29. Gwener Llanberis** Te yr Henoed
**30. Sadwrn** Yr Eisteddfod Genedlaethol yn agor yng Nghasnewydd.


**SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU?**
**MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

**'INSULAFLUE'**

**Yr Arbenigwr ar leinio simneiau**

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376



**Un o gartrefi brafia'r fro**
**CARTREF PRESWYL HENOED**



BRON ERYRI

**LLANBERIS, Ffôn: 870142 neu 870391**

**PERCHENNOG**

**MRS. EIRIAN MALI S.R.N.**

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Lifft at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y llofftydd
- Bath-medic

**Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd**


## AMGUEDDFA'R GOGLEDD LLANBERIS

# TÂL MYNEDIAD

Bydd tâl mynediad o £1.00 ar gyfer oedolion, 75c ar gyfer pensiynwyr a 50c ar gyfer plant, ar ôl dydd Gwener, 17 Mehefin 1988.

Gall trethdalwyr plwyfi Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug sicrhau tocyn fydd yn caniatáu **Mynediad am Ddim** trwy ddanfon eu henw a'u cyfeiriad i'r Amgueddfa. Y cyfeiriad yw: Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, Gwynedd. LL55 4UR. Neu ffoniwch Llanberis 870636.

## Eisteddfod Rhys Thomas James (Pantyfedwen) Llanbedrpontsteffan.

**Gŵyl Banc Awst, 26ain 27ain a 29ain Awst 1988**

*Llenyddiaeth:*
*1. Cystadleuaeth y Gadair — Deuddeg englyn — Testun 'Adar'. Englyn yr un i ddeuddeg aderyn.*
*Gwobr £100 a thlws arian ar ffurf cadair fechan.*
*2. Cystadleuaeth y Goron —Dilyniant o dair cerdd yn y mesur rhydd. Testun 'Cysgodion'.*
*Gwobr £100 a Choron yr Eisteddfod.*
*3. Cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith, Traethawd Hir : Hanes unrhyw Gapel neu Eglwys — na ymddangosodd mewn print o'r blaen. Gwobr £100 a'r Fedal Ryddiaith.*
*4. Englyn i ddymuno yn dda i ddeuddyn yn eu cartref newydd: Gwobrau 1af £30, ail £15.*
*5. Englyn Ysgafn: Y Casglwr Trethi*
*Gwobrau: 1af £30; ail £15.*
*6. Telyneg: Gweddillion*
*Gwobrau: 1af £30; ail £15.*
*7. Cerdd ysgafn yn y mesur rhydd: Dadl rhwng dwy wraig yn byw drws nesaf i'w gilydd.*
*Gwobrau: 1af £30; ail £15.*
*8. Hir a Thoddaid i'r Eisteddfod hon — Yr unfed Eisteddfod ar hugain.*
*Gwobrau: 1af £30; ail £15.*
*9. Beddargraff: Caeth neu rhydd i'r tri a ganlyn 1. Y Cwrcyn; 2. Ci Anwes 3. Ceffyl Rasys.*
*Gwobrau: 1af £30; ail £15.*
*10. Hunangofiant Taid neu Nain*
*Gwobrau: 1af £30; ail £15.*
*11. Dyddiadur Newyddiadurwr am wythnos*
*Gwobrau: 1af £30; ail £15.*
*12. I blant o oed Ysgol Gynradd: Traethawd 'Fy hoff raglen ar y teledu'.*
*Gwobrau: 1af £15; ail £10; 3ydd £5.*
*13. I blant o oed Ysgol Uwchradd: Traethawd: 'Pe medrwn'*
*Gwobrau: 1af £15; ail £10; 3ydd £5.*
*14. Cystadleuaeth i rai dan 25 oed.*
*Gwobr Her i Goffau y Bardd Carrellio. Tlws Cadair arian yn rhoddedig gan ei Briod a'i ferch a £50.*
*Testun: Telyneg mewn mydr ac odl yn ymwneud â natur.*

*Y cyfansoddiadau i fod i law erbyn Awst 10fed, 1988 ag eithrio rhif 3. Hwnnw i fod i law erbyn dydd olaf Gorffennaf 1988.*
*Ysgrifennydd Llên: Edwin Jones, Angorfa, Heol Llanwnen, Llanbedr Pont Steffan, Dyfed. SA48 7JP*

*Gellir cael rhaglen gyflawn oddi wrth: Parch Goronwy Evans, Y Mans, Stryd Newydd, Llanbedrpontsteffan, Dyfed SA48. Rhif ffôn: (0570) 422792 neu 422587, sydd yn cynnwys Canu, Adrodd, Ambiwlans, Celf a Chrefft a Ffotograffiaeth.*

# CHWARAEON

## PYSGOTA

Mae'n debyg na fu cyn lleied o ddŵr yn yr afonydd ers 1976, a hyn yn golygu nad oes modd sgota yn unman ag eithrio'r pyllau tyfnaf. Er hyn, mae rhediad y Sewin i'r Seiont y gorau a'r cynharaf ers bron ugain mlynedd, a does dwywaith mai'r gwaharddiad ar rwydo yn y traeth bach sydd gyfrifol.

Trwy ddyfalbarhad y 'sgotwyr fe amcangyfrifir fod tua deugain o Sewin wedi eu rhwydo hyd yma, y mwyafrif o Lynnoedd Du a Charnage. Deallir fod Malcolm Owen, Caernarfon, T.J. Thomas, Cwm y glo a Brian Thomas o Fethel wedi codi rhai yn pwyso tua'r 4 pwys.

Mae hogia'r rhwydi yn cael hwyl go lew arni gyda nifer o eogiaid yn dechrau ymddangos yn eu helfa. Yn annisgwyl iawn fe godwyd brithyll yr enfys 3 phwys gan un, o ble y daeth hwn tybed?

Er bod yr haul yn tywynnu daeth yr ychydig wynt o gyfeiriad y dwyrain a hynny'n rhoi diwedd ar y naid ar Lyn Padarn. Mae'n rhaid wrth ychydig ddyddiau o wynt o'r de-orllewin cyn daw'r gwybedyn bach i ddeori ar wyneb y dwfr.

Gobeithir y bydd y gwaith o adnewyddu llynnoedd isa'r Llyfnwy wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin yn barod am y 'sgota ardderchog a geir arni o ganol Gorffennaf hyd at ddiwedd Medi.

Mae'n rhaid canmol y Bwrdd Dŵr hefyd am y gwaith o lanhau'r Seiont ym Mhenllyn.

## ROWNDERI

Bu tîm o enethod o'r drydedd flwyddyn yn yr Ysgol yn cystadlu'n ddiweddar yn nhwrnament rownderi Arfon ym Mhorthmadog. Fe wnaeth y genethod yn dda iawn gan golli ond un gêm (yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle) a dod yn ail yn y twrnament i Ysgol Eifionydd. Llongyfarchiadau iddynt.



*Yn sefyll: M. Willis, L. Prydderch, N. Powell, T. Massey, J. Williams, Miss G. Davies (Athrawes Ymarfer Corff)*
*Yn y blaen: S. Kelly, L. Murphy, A. Sellars a J. Cole Jones.*


## MABOLGAMPAU

Tŷ Eryri fu fuddugol yng nghyfarfod Mabolgampau'r ysgol eleni gyda 194 o bwyntiau: Eilian yn ail gyda 189, yna Elidir 184 a Gwyrfai 167.

Y Victor Ludorum oedd Aled Griffith gyda 28 o bwyntiau (ennill 7 cystadleuaeth) a'r Victrix Jennifer Clarida, 21 pwynt ac yn ennill 3 cystadleuaeth.

Gwelwyd perfformiadau arbennig o dda hefyd gan Kevin Houston (24 pt), ei chwaer Nicola (19 pt), Linda Prydderch a Michael Jones (17 pt), Sian Jones 16 a hanner) a Colin Jones (13 pt).

Gwelir eu lluniau, ynghyd â chanlyniadau eraill ar y dudalen ganol.



*Yr Aelodau o Eryri a enillodd y Cwpan i'r tŷ.*

## CRICED

Llongyfarchiadau i Meical Owen o Lanrug ar ddod yn llwyddiannus drwy dreialon tîm Criced Gwynedd a'i dewis yn aelod o'r garfan i wrthwynebu Clwyd yn ystod Gorffennaf. Mae Meical yn fowliwr addawol dros ben.

# CARNIFAL LLANBERIS

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

**NOS SUL 10 GORFFENNAF**
Capel Coch 8 p.m.
**NOSON O GÂN**
**GYDA CHÔR MAELGWN**
Arweinydd y Noson: Arwel Jones
Organyddion: Hugh Peris Pritchard
Mrs Iona Jones
Mynediad £1.

**NOS LUN 11 GORFFENNAF**
**GYRFA CHWIST 7.30 p.m.**
Mynediad 60c
**CYSTADLEUAETH PŴL**
Gwesty'r Fictoria 8 p.m.

**NOS FAWRTH 12 GORFFENNAF**
**MABOLGAMPAU**
Ddôl y Goeden 5.45 p.m.
Mynediad am ddim.
**CYSTADLEUAETH CWIS**
Gwesty'r Prince of Wales 8 p.m.

**NOS FERCHER 13 GORFFENNAF**
**CYSTADLEUAETH DDARTIAU**
Clwb y Lleng Brydeinig 8 p.m.
**DISCO PLANT IAU (Ysgol Gynradd)**
Ysgol Dolbadarn 6 - 7.30 p.m.
Mynediad 20c
**DISCO PLANT HŶN (Ysgol Uwchradd)**
Ysgol Dolbadarn 8-10.30 p.m.
Mynediad 30c

**NOS IAU 14 GORFFENNAF**
**PÊL DROED 7 BOB OCHR A PHÊL RWYD**
Ddôl Goeden 6 p.m.
Mynediad am ddim

**NOS WENER 15 GORFFENNAF**
**BINGO 7.30 p.m.**
Clwb y Lleng Brydeinig

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

**SADWRN 16 GORFFENNAF**
# Y CARNIFAL
Yr Orymdaith yn gadael Swyddfa'r Post
am 12.30 o'r gloch
**RAFFL FAWR 1988**
**1. £50 2. £30 3. £20**
**a gwobrau gwerthfawr eraill**
i'w thynnu ar y cae
MYNEDIAD 50c PLANT A PHENSIYNWYR 30c

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★



# RAS YR WYDDFA
yn cychwyn o Gae'r Carnifal am 2.30 p.m.